

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Gronw Gyriog,
Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn,
Gruffudd ap Tudur Goch
ac Ithel Ddu

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cyfarwyddwr

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

Golygydd y Gyfres

Ann Parry Owen, BA, PHD

Cymrodyr Ymchwil

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Dylan Foster Evans, BA

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Golygyddion Ymgynghorol

Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,

MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, FBA

Bwrdd Golygyddol

Gareth A. Bevan, MA

Dafydd H. Evans, BA, DPHIL

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

Swyddog Golygyddol

Glenys Howells, MA, ALA

GWAITH GRONW GYRIOG,
IORWERTH AB Y CYRIOG,
MAB CLOCHYDDYN,
GRUFFUDD AP TUDUR GOCH
AC ITHEL DDU

golygwyd gan

RHIANNON IFANS,
ANN PARRY OWEN,
W. DYFED ROWLANDS,
ERWAIN H. RHEINALLT



ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
1997

© Prifysgol Cymru ©, 1997.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 64 5

Diolchir i'r Academi Brydeinig, Ymddiriedolaeth Leverhulme ac Ymddiriedolaeth L.J. Skaggs a Mary C. Skaggs am bob cymorth i'r prosiect hwn.

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

Dull y golygu

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG³ xlvi); er eng-hraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd geiriau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *gwedy*, *uddun* (sef 'iddynt'), *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Yn y Mynegai ar ddiwedd gwaith pob bardd rhestrir pob gair a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'); rhestrir yma hefyd rai geiriau dieithr, yn enwedig os nad ydynt yn ymddangos yn y *Geiriadur Mawr*, a hefyd eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r ystyr a roddir ar eu cyfer yno. Rhoddir llythyren fechan i bob enw cyffredin, er bod rhai enwau â phriflythyren yn y testun pan fônt yn cyfeirio at Dduw, Crist neu'r Drindod.

Diolchiadau

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygydd a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Mr Daniel Huws a'r Parchedig Ddr. Dafydd Wyn Wiliam.

Cynnwys

DULL Y GOLYGU.....	v
DIOLCHIADAU	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	ix
Termau a Geiriau.....	xvii
GWAITH GRONW GYRIOG	
RHAGYMADRODD	3
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1. Moliant Madog ab Iorwerth o Goedymynydd	7
2. Marwnad Gwenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan.....	13
NODIADAU.....	17
MYNEGAI I'R NODIADAU	29
Enwau personau.....	31
Enwau lleoedd	31
GWAITH IORWERTH AB Y CYRIOG	
RHAGYMADRODD	35
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
3. I Dduw	39
4. I Efa.....	44
5. I ddiolch am gae.....	47
ATODIAD	
i. Marwnad Einion ap Seisyll o Fathafarn.....	52
ii. Dychan Drws-y-nant.....	57
NODIADAU.....	63
MYNEGAI I'R NODIADAU	81
Enwau personau.....	85
Enwau lleoedd	85
MAB CLOCHYDDYN	
RHAGYMADRODD	89
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
6. Marwnad Gwenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan.....	91
7. I'r ffalsiwr.....	99

NODIADAU.....	101
MYNEGAI I'R NODIADAU	109
Mynegai i enwau personau.....	112
Mynegai i enwau lleoedd.....	112
 GWAITH GRUFFUDD AP TUDUR GOCH	
RHAGYMADRODD	117
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
8. Awdl y breuddwyd.....	119
NODIADAU.....	125
MYNEGAI I'R NODIADAU	137
Enwau personau.....	139
Enwau lleoedd	139
 GWAITH ITHEL DDU	
RHAGYMADRODD	143
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
9. Cywydd y celffaint.....	147
NODIADAU.....	153
MYNEGAI I'R NODIADAU	157
Enwau personau.....	158
 LLAWYSGRIFAU.....	 159
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF	163
MYNEGAI I'R GWRTHRYCHAU.....	165

Byrfoddau

Llyfryddol

- AAST *Anglesey Antiquarian Society and Field Club Transactions*, 1913–
- AH *Astudiaethau ar yr Hengerdd*, gol. R. Bromwich ac R. Brinley Jones (Caerdydd, 1978)
- AP *Yr Areithiau Pros*, gol. D. Gwenallt Jones (Caerdydd, 1934)
- Arch Camb *Archaeologia Cambrensis*, 1846–
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd and J.G. Williams (Cardiff, 1969)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–94
- P.C. Bartrum: WG1 *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- BaTh *Beirdd a Thywysogion: Barddoniaeth Llys yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban*, gol. Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (Caerdydd ac Aberystwyth, 1996)
- BD *Brut Dingestow*, gol. H. Lewis (Caerdydd, 1942)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- Bl B XIV *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989)
- Bren Saes *Brenhinedd y Saesson*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1971)
- BrM *Breuddwyd Maxen*, gol. Ifor Williams (Bangor, 1908)
- Brog Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- BRh *Breudwyt Ronabwy*, gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948)
- BT *Brut y Tywysogyon Peniarth Ms. 20*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1941)
- BT (RB) *Brut y Tywysogyon (Red Book of Hergest Version)*, ed. Thomas Jones (Cardiff, 1955)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CLC *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (Caerdydd, 1986)
- CLIH *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtnawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CO *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (Caerdydd, 1988)
- CO² *Culhwch and Olwen*, ed. Rachel Bromwich and D. Simon Evans (Cardiff, 1992)
- CT *Canu Taliesin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1960)
- Cy *Y Cymmrodor, The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1877–1951
- Cylchg CHSFeir *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirion(n)ydd*, 1949–
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)

- DGG² *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DrOC *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Caerdydd, 1986)
- L. Dwinn: HV *Heraldic Visitations of Wales*, gol. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- EL Henry Lewis, *Yr Elfen Ladin yn yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd, 1943)
- ELISG J. Lloyd-Jones, *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon* (Caerdydd, 1928)
- Études *Études celtiques*, 1936–
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian Andrews *et al.* (Caerdydd, 1996)
- GCBM i *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)

- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDG³ *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI² *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLD *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac Eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K.A. Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GmG *Gemau'r Gogynfeirdd*, gol. Arthur Hughes (Pwllheli, 1910)

- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisieryd, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- H *Llawysgrif Hendregadredd*, gol. J. Morris-Jones a T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1933)
- HAW William Rees, *An Historical Atlas of Wales from Early to Modern Times* (Cardiff, 1951)
- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HPF J.Y.W. Lloyd, *The History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog* (6 vols., London, 1881–7)
- IGE² *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J *Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen*
- JWBS *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 1910–
- LBS S. Baring-Gould and John Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LWS G.H. Doble, *Lives of the Welsh Saints*, ed. D. Simon Evans (Cardiff, 1971)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–

- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LII *Llyfr Iorwerth*, ed. Aled Rhys Wiliam (Cardiff, 1960)
- J.E. Lloyd: HW³ J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LlyB *Llywelyn y Beirdd*, gol. J.E. Caerwyn Williams, Eurys Rolant ac Alan Llwyd (Cyhoeddiadau Barddas, 1984)
- MA² *The Myvyrian Archaiology of Wales* (second ed., Denbigh, 1870)
- MAng A.D. Carr, *Medieval Anglesey* (Llangefni, 1982)
- Math ‘Yr Efengyl yn ôl Mathew’ yn y Testament Newydd
- MCF Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth (rhoddir y dyddiad y codwyd yr wybodaeth mewn cromfachau)
- MED *Middle English Dictionary* (Michigan, 1963–)
- Mont Coll *Collections Historical and Archaeological ... by the Powysland Club, 1868–*
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- PACF *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families*, ed. J.E. Griffiths (Horncastle, 1914)
- Pant Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- P Tal *The Poems of Taliesin*, ed. Ifor Williams, English version by J.E. Caerwyn Williams (Dublin, 1968)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RC *Revue celtique*, 1870–1934
- RCAHM (Caernarvonshire) *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire, 'Caernarvonshire'* (3 vols., London, 1956, 1960, 1964)
- RCAHM (Carmarthenshire) *The Royal Commission on Ancient and Historical Monuments in Wales and Monmouthshire, 'Carmarthenshire'* (London, 1917)
- RCAHM (Merioneth) *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire, 'County of Merioneth'* (London, 1921)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E.
- SC *Studia Celtica*, 1966–
- J.B. Smith: LlaG J. Beverley Smith, *Llywelyn ap Gruffudd: Tywysog Cymru* (Caerdydd, 1986)
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)
- Sotheby Llawysgrif yng nghasgliad Sotheby, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- T *The Book of Taliesin*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1910)
- D.R. Thomas: HDStA D.R. Thomas, *The History of the Diocese of Saint Asaph* (Oswestry, 1908–13)

- TR *Antiquae Linguae Britannicae Thesaurus ... Welsh-English Dictionary*, ed. Thomas Richards (Bristol, 1753)
- Traeth *Y Traethodydd*, 1845–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystawen* (Caerdydd, 1952)
- TWS Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Bury St Edmunds, 1987)
- TYP² *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- I. Williams: ELI Ifor Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945)
- WLW *The Welsh Law of Women*, ed. Dafydd Jenkins and Morfydd E. Owen (Cardiff, 1980)
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–)
- YBH *Ystorya Bown de Hamtwn*, gol. Morgan Watkin (Caerdydd, 1958)
- YCM² *Ystorya de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)
- ZCP *Zeitschrift für celtische Philologie*, 1896–

Termau a geiriau

a.	ansoddair, -eiriol	gol.	golygydd, golygydd
a.	<i>ante</i>		gan
adf.	adferf	grb.	gorberffaith
amhff.	amherffaith	grch.	gorchmynnol
amhrs.	amhersonol	grff.	gorffennol
anh.	anhysbys	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
ardd.	arddodiad, -iaid	gw.	gweler
arg.	argraffiad	Gwydd.	Gwyddeleg
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	H.	Hen
b.	benywaidd	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
ba.	berf anghyflawn	<i>id.</i>	<i>idem</i>
be.	berfenw	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
bf. (f.)	berf, -au	ll.	lluosog; llinell
c.	<i>circa</i>	Llad.	Lladin
c. (g.)	canrif	llau.	llinellau
C.	Canol	llsgr.	llawysgrif
cf.	cymharer	llsgrau.	llawysgrifau
Clt.	Celteg, Celtaidd	m.	mewnol
Cym.	Cymraeg	myn.	mynegol
cys.	cysylltair, cysylltiad	n.	nodyn
d.g.	dan y gair	neg.	negydd, -ol
dib.	dibynnol	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
dyf.	dyfodol	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
e.	enw	pres.	presennol
eb.	enw benywaidd	prff.	perffaith
e.c.	enw cyffredin	prs.	person, -ol
ed.	<i>edited by, edition</i>	pth.	perthynol
e.e.	er enghraifft	r	<i>recto</i>
eg.	enw gwrywaidd	rh.	rhagenw, -ol
e.p.	enw priod	S.	Saesneg
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	sc.	<i>scilicet</i>
f.	ffolio	s.n.	<i>sub nomine</i>
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	td.	tudalen
ff.	ffolios	un.	unigol
g.	(c.) canrif	v	<i>verso</i>
g.	gwrywaidd	vols.	<i>volumes</i>
gn.	geiryn		

GWAITH GRONW GYRIOG

golygwyd gan

W. DYFED ROWLANDS

ac

ANN PARRY OWEN

Rhagymadrodd

Fel yn achos ei gyd-feirdd, ychydig iawn a wyddys am Ronw Gyriog heblaw'r hyn y gellir ei gasglu o'i gerddi. Fel *gron gyrryoc* y'i hadwaenir yn Llyfr Coch Hergest,¹ y llawysgrif hynaf y cedwir ei waith ynddi; ond mewn llawysgrifau diweddarach cyfeirir ato hefyd fel Goronwy a Gronwy Gyriog.² Dichon mai ef yw *Gor' Gyrryawk ap Gor'* (Goronwy Gyriog ap Goronwy) ac y *Kyriok* a enwir mewn dogfennau cyfreithiol o Fôn o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. (Trafodir y rhain isod.) Os felly, gwyddys hefyd mai Goronwy oedd enw ei dad.

Yn ôl hen draddodiad, yr oedd Gronw Gyriog yn dad i Iorwerth ab y Cyriog,³ ac y mae'n dra thebygol fod hynny'n wir gan fod cyswllt cryf rhwng y ddau a Môn, fel y gwelir isod, a chan fod y grefft farddol yn un a dueddai i gael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.⁴

Rhai o ystyron y llysenw *cyriog* yw 'gweflog; â cheg gam; danheddog',⁵ ac y mae'n perthyn, felly, i ddsbarth o llysenwau sy'n cyfeirio at un o nod-weddion corfforol y gwrthrych dan sylw.

Cynigiodd John Davies Mallwyd fod Gronw Gyriog yn ei flodau yn 1380,⁶ ond y mae hynny'n rhy ddiweddar; cynigiodd golygyddion y *Myvyrian a'r Bywgraffiadur Cymreig* ddyddiad rhwng 1310 a 1360, a chynigiodd Ifor Williams, *c.* 1330.⁷ Os yr un gŵr oedd Madog ab Iorwerth, gwrthrych y gerdd gyntaf isod, â Matthew de Engelfield, ac os oedd yn Esgob Bangor pan ganwyd y gerdd—fel y mae'r teitlau ac, i raddau helaeth, gynnwys y gerdd yn ei awgrymu—yna rhaid ei dyddio ar ôl 1328, sef y flwyddyn pan ddyrchafwyd ef yn esgob. Marwnad yw'r ail gerdd i Wenhwyfar ferch Madog, gwraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan, ym mhlwyf Llanfechell ym Môn. Ni wyddys dyddiad ei marw hi na'i gŵr, ond y tebyg yw ei fod ef wedi marw erbyn 1352. Awgrymodd y Parchedig Ddr. Dafydd Wyn Wiliam wrthym y gallai Hywel fod wedi ei eni *c.* 1275 a

¹ R 1349.39.

² Gw. 'Amrywiadau' cerdd I isod.

³ Yn ei restr o enwau beirdd ar ddiwedd D, y mae John Davies o Fallwyd yn rhestru *Gronwy Gyrryog, a elwid y Cyrriog, tād Ior. ap y Cyrriog.*

⁴ Wrth drafod Meilyr Brydydd a'i ddisgynyddion o feirdd yn GMB 50, nodir '... crefft oedd barddoni yn y cyfnod cynnar hwn, ac ymddengys ei bod fel pob crefft arall yn tueddu i gael ei throsglwyddo o dad i fab neu o dad i wŷr'.

⁵ Gw. GPC 808.

⁶ Gw. D *l.c.*

⁷ Gw. MA² xi; ByCy 265; IGE² lxxxiii (y mae'n rhaid gwrthod yr awgrym yno ynglŷn â dyddio'r ail gerdd, oherwydd cymerodd Ifor Williams mai marwnad i Wenhwyfar wraig Hywel ap Tudur Hen, brawd Goronwy ap Tudur o Benmynydd (*ob.* 1331) oedd y gerdd).

gosodir dyddiadau geni Gwenhwyfar yn betrus gan P.C. Bartrum *c.* 1300;⁸ felly, gan fod Gwenhwyfar, o bosibl, wedi marw'n ifanc—fe'i gelwir yn *rhiain*⁹ a rhoddir pwys mawr ar ei harddwch—gellir awgrymu iddi farw yn gynnar yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg, os nad ynghynt.

Dichon i'r gerdd gyntaf gael ei chanu yn llys esgobol Bangor,¹⁰ a gellir lleoli gwrthrych yr ail gerdd, Gwenhwyfar, yn sicr ym Môn. Er iddi hanfod o Edeirnion, yn ddisgynnydd o deulu brenhinol Powys,¹¹ priododd â Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan ym mhlwyf Llanfechell yng nghwmwd Talybolion ac fe'i claddwyd yn nhŷ'r Brodyr Llwydion yn Llan-faes.

Rai blynyddoedd yn ôl sylwodd Bedwyr Lewis Jones ar ddogfen yng nghasgliad Sotheby yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth,¹² yn awgrymu cysylltu Gronw Gyriog â Llaneilian yng nghwmwd Twrcelyn ym Môn.¹³ Yn ôl y ddogfen, dyddiedig 1 Mai 1317, trosglwyddwyd *messuage* o'r enw *Tydyn Ithel seys* gan Ieuan ab Ieuan Ddu o *Lanelen* (Llaneilian) i Feilyr Ddu ap Madog ap Llywelyn, ynghyd â thair acer a hanner o dir ger *Mynyd Cadwallawr*.¹⁴ Nodir enw *Gor' Gyrryawk ap Gor'* yn un o'r tystion. Mewn dogfennau diweddarach yn yr un casgliad cyfeirir at *Tethyn y Kirryok, tir y Kyriog, a tyddyn y Kyriok* yn Llaneilian. A chymryd mai'r un yw Gronw Gyriog â'r sawl a enwir yn y dogfennau hyn, y maent yn lleoli Gronw yn Llaneilian yng ngogledd-ddwyrain Môn yn 1317.

Y mae'n debyg mai bardd o Fôn oedd Iorwerth ab y Cyriog hefyd, er, fel y gwelir isod, na chadwyd yr un gerdd ganddo i noddwr o'r ynys honno. Ond cyfeiriodd Sefnyn yn benodol at gollod alaethus Môn ar ei ôl yn y farwnad a ganodd iddo.¹⁵

Fel yr awgrymwyd eisoes, dwy gerdd yn unig a gadwyd inni o waith Gronw Gyriog, sef 'Moliant Madog ab Iorwerth o Goedymynydd' (cerdd 1) a 'Marwnad Gwenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan' (cerdd 2), a rhyngddynt y maent yn cynnwys pedwar ugain o linellau. Er bod y gyntaf yn ddiddorol o safbwynt hanesyddol, efallai mai'r ail yw'r un fwyaf trawiadol a chofiadwy, yn enwedig o'i chymharu ag awdl Mab Clochyddyn i'r un ferch (isod cerdd 6).

Priodolir un gerdd arall i Ronw, sef cywydd i Fair Fadlen (*Pechod pam nas gwrthodir ...*), ond, o'r pedwar copi ar ddeg a gadwyd, un yn unig sy'n

⁸ Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Llywarch ap Brân' 5.

⁹ Isod 2.2.

¹⁰ Ond gw. isod ll. 29n.

¹¹ Y mae'n dra thebygol fod Gwenhwyfar yn chwaer i Werful, mam Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen, y cyfeiria Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed ati yn ei foliant i Hywel, gw. GSRh 10.11; gw. hefyd y nodyn cefndir i gerdd 2 isod.

¹² Sotheby, rhan ii, 1.

¹³ Gw. Bedwyr L. Jones, 'Goronwy Gyriog', B xxi (1964-6), 305.

¹⁴ Gw. *ib.* lle yr awgrymir mai gwall yw *Mynyd Cadwallawr* am Fynydd Cadwallawn, gyda'r ffurf honno'n hen enw ar Fynydd Eilian. Ond y mae'n dra phosibl mai *Cadwallawn* yw'r darlleniad cywir, gan fod traul ar y ddalen yn peri bod y llythrennau olaf yn aneglur.

¹⁵ Gw. GSRh 2.75.

ei phriodoli iddo ef, gyda'r tri ar ddeg arall yn ei phriodoli i Gutun Cyriog, bardd a ganai yn ail hanner y bymthegfed ganrif.¹⁶ Y mae blas canrif ddiweddarach ar y gerdd hon, ac y mae'n hollol wahanol, o ran naws ac arddull, i gerddi eraill Gronw. Y mae'n amlwg fod y sawl a'i cambriodolodd iddo wedi drysu enwau'r ddau fardd.

Dau fesur yn unig a ddefnyddir yn y ddwy awdl isod. Ceir yn y gyntaf gyfres o ddeuddeg gwawdodyn, a chadwyn o englynion proest dalgron yw'r ail gyda chyrch-gymeriad yn cysylltu'r englynion â'i gilydd a diwedd y gyfres yn cyrchu ei dechrau â'r gair *grudd*. Yn gwbl nodweddiadol o farddoniaeth y cyfnod hwn, gwneir defnydd helaeth o gymeriadau llythrennol, cynganeddol a synhwyrol yn y ddwy gerdd, a cheir cynganedd sain mewn nifer helaeth o'r llinellau, gyda chanran uchel ohonynt yn bengoll.¹⁷

Llyfr Coch Hergest yw'r brif ffynhonnell ar gyfer yr ail gerdd isod a gadwyd yng ngholofnau 1349–50 yn llaw copiyydd a elwir 'Peniarth 32'.¹⁸ Dyma ffynhonnell yr holl gopiâu diweddarach o'r gerdd hon. Mwy cymhleth yw hanes llawysgrifol yr awdl gyntaf y ceir nifer o destunau ohoni o ddiwedd y bymthegfed ganrif ymlaen.

¹⁶ Cyhoeddwyd y cywydd gan D. Gwenallt Jones yn 'Buchedd Mair Fadlen a'r *Legenda Aurea*', B iv (1927–9), 325–40. Yn CM 3, 177—llawysgrif yn llaw William Salesbury ac eraill a ddyddir c. 1565—enwir 'Gytûn kyrioc o Elian ym Mon', a dichon mai ef yw awdur y cywydd a bod peth drysu wedi bod rhwng y ddau fardd. (Diolchir i'r Parchedig Ddr. Dafydd Wyn Wiliam am y cyfeiriad hwn.) Canodd Gutun Cyriog i Siôn ap Rhys ap Siancyn (*ob. c.* 1480) o Aberpergwm; gw. P. Lynch, 'Aberpergwm a'r traddodiad nawdd', gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul, 1994), 4–5; ac E.E. Edwards, 'Cartrefi Noddwyr y Beirdd yn Siroedd Morgannwg a Mynwy', LICy xiii (1980–1), 193–4.

¹⁷ Gw. J. Morris-Jones: CD 340–1.

¹⁸ Gw. G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LIGC xxi (1979–80), 255.

1

Moliant Madog ab Iorwerth o Goedymynydd

- Duw byw a'n rhoes llyw, llên bendefig,
 Dwyfol yw'r urddol, canmol ceinmyg;
 4 Diafrddwl feddwl feddyg—pechodau
 A lles eneidiau llys enwedig.
- Dôr ac iôr Bangor, côr catholig,
 Dâr i lu daear, câr caredig;
 8 Dogn gymaint deufraint Dyfrig—beneurog
 Yw heilwin Fadog hawl wynfydig.
- Dyn dan nef ag ef ni gaf debyg
 O gwblbwyll didwyll, dadl brofedig,
 12 O haelder, ener, unig—yng nghyfraith
 Ei gyfryw, benrhaith peibliaith Peblig.
- Duw, can rhoes einioes ynn, Ei fenffyg,
 A'i gad, o'i ganiad, gan Nadolig
 16 Wrth raid y gweiniaid i gynnig—alaf
 Â da rwydd adaf ddyroddedig.
- Gwarant Gaer Trefnant, traul diddiffyg
 Gwin lryr eurin lwrf, a chwrf a chig
 20 A gwisgoedd miloedd moledig—wleddau
 I feirdd galonnau fyrdd galennig.
- Gwynedd anrhydedd, rhadau Curig,
 Gwanas pob urddas eurddull Padrig;
 24 Gwyn ei fyd y byd bod gwledig—clotbwyll
 Mewn cnif didwyll cynefodedig.
- Gwan oedd lys a llan, man a mennig
 Gwlad hyd drefad trefn Amwythig,
 28 Pan ddoeth rhwyf cyfoeth cofedig—eurnerth,
 Hil Iorwerth gannerth, heilwin gynnig.

- 32 Gwypm heddiw, Gaer Rhiw, rhwyl urddedig,
Gwindrefn blas addas addurnedig;
Gwir glod ni chelir uwch Helig—Dyno,
Gwenfro wŷr Babo, bybyr leithig.
- 36 Llunïaf gant moliant mawl heuedig
I Fangor rhagor rhag Celliwig,
Llys (llu a'i dengys) dawn gaeledig—gwyRDD,
Lle diwallwyd myRDD, llu diwellig.
- 40 Lle mae arglwydd rhwydd yn rhoddedig
Heb fynnu pallu, pwyll Teodrig;
Lle deheuaf budd, lle deheuig—glwys,
Lle â gwin dadwys llu gwyndodig.
- 44 Llyna dir ein pair, parabl a drig,
Hwn Madog ddoniog ddawn bob orig;
Llaw Dduw amdanaw, doniog frig—bron gwŷr,
Eryr ar glaswyr, aer eglwysig.
- 48 Llyma raid gweiniaid, ganon fendig,
A'm harglwydd hylwydd hael caredig,
I hirhoedlfyw llyw llys dechymig—mawl
Mal banda gedawl bendigedig.

Ffynonellau

A—Bangor (Mos) 3, 21^v B—BL Add 14873, 69^r C—BL Add 14971, 255
D—BL Add 15000, 198^v E—Card 5.167, 76^r F—CM 14, 70 G—LIGC
18B, 672 (y teitl a llau. 1–16 mewn llaw ddiweddar) H—LIGC 1591D, 197
I—LIGC 1982B [= Pant 13], 128^v J¹—LIGC 6209E, 248 J²—LIGC 6209E,
307 K—LIGC 6681B, 142 L—LIGC 8497B, 2^v M—LIGC 17114B [=
Gwysanau 25], 255 N—Llst 122, 105 O—Pen 96, 500

(Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod, tt. 159–62.)

Amrywiadau

1 *L* a roes. 2 *H* canïawl; *B* camaw ceimig (ceinmyg). 3 *A* Di orddwl,
BDFJ²K dioferddwl, *H* Di arsdawl, *J¹* diarfeddwl, *LN* diarddwl. *G*
[pechodau]. 7 *L* dyn gymaint; *J²* dyfrig eurawg. 8 *G* haelwin; *AHLMO* hael;
O wynvydedig. 9 *A–D*, *F–K* ni chaf, *LO* nis caf; *A* i debig. 10 *I* o gwbl gan
bwyll dwyll. 11 *ME* ner, *O* er ner. 12 *BFIK* Bibl iaith Beblig, *DGO*
beibliaith beblig, *L* peiblwaith peblig, *HME* pibil iaith Peblig, *J²* bibl beblig.
13 *BDFGIK* gan; *O* einïoes unig; *G* ei einïoes fenthÿg, *E* ym i venffic. 14 *O*

ai gad ganiad y gainrodedig; *AGJ²* ai ganiad, *I* o ganiad; *I* gar nadolig. 15 *J²* gweniaid, *ME* gweniad; *G* [i]. 16 *J²* Adaf rhwydh; *O* rydd adaf; *F* dŷ. 17 *D* trau. 18 *O* gwinlyfr eurgain lwrf; *ALN* eurwin. 19 *O* [a]; *O* wledig. 20 *O* fydd galennig. 21 *ME* anrhydd; *O* kradw kirig. 22 *O* aur ddulledig. 23 *D* [y byd]; *A* pob gweledig, *I* bob gwledig; *GHLME* gweledig. 24 *L* cnif vyw; *A* kanfodedig, *BDHJ²E* Cynofodedig, *G* cnoefodedig, *L* cynfodedig. 25 *I* Gwawr; *BDFGK* allan. 26 *I* or gwlad hyd trofad; *A* tref ymwrthig, *L* trafrn a maethiad, *I* Tref Amwythig, *BDFK* Tref y Mwythig. 27 *E* eurerth, *M* eur[]th. 28 *BDFGKJ²* hael win, *HMOE* hilwin, *O* hael iawn. 29 *O* pvmp heddiw; *I* gar rhiw rhwyll; *A* rhwyl; *BDFK* rhwyll Eurddedig; *FH* eurddedig. 30 *A* geindrefn; *A* addvnedig. 31 *H* helig dyn. 32 *H* Gwenvro vro bybyr; *F* byr leithig. 33 *H* niwl haedig; *O* gannt molaf haiedig; *M* haeddedic. 35 *O* gwledig. 36 *L* lle diwellir beirdd; *O* diweledig. 38 *O* troedig. 41 *G* Llyn; *G* a'i pair, *I* a'n pair, *O* [a'n] pair; *GB* parabl a doig. 42 *O* hwn yw madog; *G* [ddawn]; *O* doniog nid vnig a llaw. 43 *G* amdanaw da senig fri; *A* bengwyr, *M* bron gwyc. 44 *L* wr eglwysig. 45 *BDGI* Lle mae, *LN* llyna, *O* llvm; *BDKM* Ceniaid, *F* keniaid *gyda* Ceiniaid *uwch ei ben*, *I* ceiniaid, *G* caniaid, *H* ceraid, *J¹* keniaid; *BDFGIJ¹KO* fendigedig. 47 *G* Ei hir hoedl i fyw; *A* drerthriug, *HLMN* daithynnig, *I* deithymig, *O* daithvnig. 48 *A* bandageidiawl, *BJ¹N* Banda gedawl, *G* Ban da gedawl, *H* bann da gedawl, *L* Beda gedawl, *M* bann degedawl; *O* bendagedyg.

Teitl ac / neu olnod

(gwahenir y teitl a'r olnod â hanner colon)

A Owdl Madog minn esgob Bangor; Gronw gyrrrog ai kant i vadog minn, esgob bangor, hwn awnaeth dwyll y Twyssog Llywelyn.

B Owdl i Fadawg ap Ierwerth ap Rithid ap Ierwerth ap Madawg Esgob Bangor. A brawd i Rotbert ap Ierwerth ap Rithid o Goed y Mynydd yr hwn a ganwyd o Ddeutu'r Flwyddyn 1380.

C Owdl voliant i vadoc (esgob Bangor) ap Ierwerth ap Ryrid ap Ierwerth ap madoc ap Ednywain bendew o goed y mynydd: yn ysgeifioc ynhegeingl.

D Owdl i Fadawg ap Ierwerth ap Rithid ap Ierwerth ap Madawg Esgob Bangor Brawd i Rotbert ap Ierwerth ap Rithid o Goed y Mynydd 'r hwn a ganwyd o Ddeutu'r Flwyddyn 1330.

EM moliant madoc esgob Bangor; Gronw Gyrioc ai kant i Vadog esgob Bangor.

F Owdl i Fadawg ap Ierwerth ap Rithid ap Ierwerth ap Madog esgob Bangor. Brawd i Rotbert ap Ierwerth ap Rithid o goed y mynydd; Gronwy Gyrriog ai cant. 1380.

G Yr Awdl ganlynol a gant Gr. Gyrriog i Fadawg ab Rithid, (Ririd?) ab Iorwerth ab Madawg Esgob Bangor yn Arllechwedd, brawd i Rotbert ab Iorwerth ap Rithid o Goed y Mynydd; Gronw Gyriog a'i Cant. A.D. 1330.

H Awdl moliant i Vadog Escob Bangor; Goronwy Gyrior ai cant.

- I* Awdl i Fadawg ap Ierwerth ap Rithyd ap Ierwerth ap Madawg Escob Bangor, brawd i Robert ap Ierwerth ap Rithid o Goed y Mynydd yr hon a ganwyd o ddeutu'r flwyddyn 1380; Gronwy gyrriog ai cant.
- J¹* Owdl Voliant i Vadoc (esgob Bangor) ap Ierwerth ap Ryrid ap Ierwerth ap Madoc ap Ednywain bendew o goed y mynydd yn Ysgeifiog ynghegeingl; Gronwy Gyrrioc ai kant.
- J²* Owdwl i Fadawg ap Ierwerth ap Kirid Escob Bangor; Bronwy Gyrriog ai kant.
- K* Awdwl i Fadawg ap Ierwerth ap Rithid ap Ierwerth ap Madog, escob Bangor *a'r frawddeg ganlynol wedi ei hychwanegu yn yr un llaw* Y Fadawg hwn oedd frawd i Rhotbert ap Ierwerth ap Rhithid o goed ymynyd; Gronwy Gyrriog ai kant.
- L* Grono Gyrriawc i Escop Bangor y elwid Madawc Min yr hwnn a wnaeth brad y tywysawg Lewelyn ap Gr. ap Lln. ap Ior. drwyndwn.
- N* Owdl fol: Madog Esgob Bangor. hwn a elwid Madog Min. a hwn a wnaeth dwyll i Dwysog Llywelyn; Gronw Gyriog ai cant.
- O* Moliant Madog esgob Bangor o Wynedd; Ierth Kyriog ai kant.

Moliant Madog ab Iorwerth o Goedymynydd

- 4 Duw byw a roddodd i ni arweinydd, pendefig llên,
Duwiol yw'r un urddedig, [testun] moliant anrhydeddus;
Ffisigwr pechodau hyderus [ei] fwriad
A lles eneidiau [mewn] llys nodedig.
- 8 Amddiffynnydd ac arglwydd Bangor, [y] gangell gyson,
Arweinydd i drigolion daear, cyfaill caredig;
Cyfran gymaint â braint ddwbl Dyfrig [y] pennaeth gwych
Yw [eiddo] Madog bendigaidd [ei] hawl sy'n tywallt gwin.
- 12 Dan [y] nef ni chaf ddyn tebyg iddo
O ran llwyrfryd diffuant, [un] wedi'i brofi [mewn] ymryson,
[Ac] o ran haelioni, pennaeth, unigryw yng nghyfraith
[eglwsig]
Yw ei fath, prif farnwr Peblig ar iaith y Beibl.
- 16 Duw, oherwydd iddo roi bywyd [Madog] inni, Ei ddaioni,
A ganiatâ iddo aros, drwy Ei gydsyniad, dros [y] Nadolig
At angen y rhai gwan i gynnig cyfoeth
Â llaw hael ddaionus [a] hael.
- 20 Sicrwydd Caer Trefnant, darpariaeth ddi-fai
[O] ffrydiau gwin [y] cynheiliad rhagorol, a chwrrw a chig
A gwisgoedd [ar gyfer] miloedd [a] gwleddoedd clodfawr
Yn rhodd[ion] fyrdd wrth foddau beirdd.
- 24 Anrhydedd Gwynedd, [perchen] grasusau Curig,
Cynheiliad pob urddas [yn] null rhinweddol Padrig;
Gwyn ei fyd y byd bod arglwydd o synnwyr clodwiw
Mewn llafur diffuant yn ôl ei arfer.
- 28 Gwan oedd llys a llan, mangre a llecyn
Gwlad hyd anheddle dull Amwythig,
Pan ddaeth arglwydd [o] awdurdod cofiadwy [a] mawreddog,
Cynhorthwy hil Iorwerth, [gan] gynnig gwin tywalltedig.
- 32 Gwych heddiw, Gaer Rhiw, yw llys urddedig,
Plas addas addurnedig â darpariaeth gwin;
Ni chelir gwir glod uwchlaw Tyno Helig,
Bro wynfydedig disgynnydd Pabo, cynheiliad egnïol.

Llunïaf gant o folawdau [o] foliant taenedig
 I Fangor yn fwy na Chelliwig,
 Llys lle y mae rhodd wedi ei chael o ddillad gwyrdd, y mae llu
 yn dangos hyn,
 36 Lle y digonwyd llaweroedd, llu wedi ei ddiwallu.

Lle y mae arglwydd hael yn dosbarthu rhoddion
 Heb fynnu ymatal, [un ydyw o] bwyll Tewdrig;
 40 Lle [y ceir] budd parotaf, lle ffodus [a] hardd,
 Lle â thadmaeth gwin i lu gwynfydedig.

Dyna dir ein harglwydd, gair a saif,
 Hwn yw Madog hael ei rodd bob amser;
 [Bydded] gofal Duw amdano, pennaeth galluog calon gwŷr,
 44 Eryr [ydyw] ar wŷr y clas, etifedd [swydd] eglwysig.

Dyma angen rhai gwan, [un sy'n] cysegru deddfau eglwysig,
 A'm harglwydd llwyddiannus, hael [a] charedig,
 [Boed] i fywyd hir ei einioes pennaeth llys [sy'n] ddyfais mawl
 48 [Fod] fel [einioes] gŵr hael bendigedig, aruchel a daionus.

Marwnad Gwenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan

- 4 Rhoed llen gudd uwch grudd greddfdras,
Rhiain barabl groyw loyw lwys,
(Rhy fyr i'r byd hyd ei hoes)
Rhwym caen llen faen yn Llan-faes.
- 8 Llan-faes fan uwch marian môr
A gudd Gwen—hoywfudd—hwyfar,
Llety saint a braint brodyr,
Llawrgudd bun, llwyrghawdd hun hir.
- 12 Hir yw ynof cof cyffro
Herwydd trais Dofydd trosti;
Hawdd ymurddawdd â mawrdda,
Hael hoendeg liw haul hundy.
- 16 Dyhir hundy gwedy gwedd
A phryd a guddiwyd â phridd;
Dygn gofion Rhiannon rhodd,
Digiofaint bun deg ufydd.
- 20 Ei hufydd-dod, ceudod cof,
I hardd Wenhwyfar araf,
A'i hawl decbwyll, didwyll dwf,
A'i haelder a dâl Nêr nef.
- 24 Rhên nef, rhan ofid dynggoll
Ryhun bun, byd nis hennill;
Rhoed llawr ar lloer harddedd byll,
Ni rodded llawr ar wawr well.
- 28 Gwellwell fu bwyll, gannwyll gain,
Gwenhwyfar haul daear hoen;
Gorchudd gwawr yw llen fawr faen,
Garchweddl i'w cheneddl ei chwyn.

32

Mawr a gŵyn dwyn dinag rodd,
 Merch Fadog rieddog radd;
 Gro heddiw, maenwiw, a'i medd,
 A gra a wisgodd ei grudd.

Rhoed llen gudd uwch grudd ...

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 214^r B—Card 4.140, 658 C—J 111, 1349 D—LIGC 4973B, 345^r E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 53^r F—Llst 133, 304 G—Pen 96, 500 H—Pen 118, 247

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 159–62.)

Darlleniadau'r llawysgrif

30 rida6c.

Teitl

llyma bellach eglynyon agant gronó gyrryoc ywenhóyuar verch hoŕel vab tudyr.

Marwnad Gwenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan

- Rhodddwyd gorchudd elorlen dros rudd [merch] a orthrechwyd
 yn rymus,
 Merch glir [ei] pharabl ddisglair hardd,
 (Rhy fyr i'r byd [oedd] hyd ei hoes)
 4 Rhwym gorchudd llen maen[fedd] yn Llan-faes.
- Llan-faes aruchel uwch marian môr
 A guddia Wenhwyfar hoenus ei ffafr,
 Trigfan seintiau a breintle brodyr,
 8 [Mewn] cuddfan llawr [y mae'r] ferch, galar llwyr [sydd
 oherwydd ei] chwsg hir.
- Maith ynof yw cof [y] cyffro
 Oherwydd gorthrech Duw arni;
 Yn hawdd [fe'i] hanrhydeddodd ei hunan â mawr ddaioni,
 12 Haul hael bywiog deg [ei] liw [mewn] bedd.
- Blin yw[r] bedd wedi[r] wedd
 A[r] pryd a guddiwyd â phridd;
 Atgofion dolurus am [un a'i] rhodd [fel] Rhiannon,
 16 Tristwch am [y] ferch deg wylaidd.
- Am ei gwyleidd-dra, canolbwynt atgof [amdani yw hyn],
 Y gwobrwyfa Arglwydd nef Wenhwyfar hardd a mwyn,
 Ac am ei synnwyr deg ei hawl, cywir [ei] thwff,
 20 A'i haelioni.
- Arglwydd nef, gofid tynged colled boenus
 Yw gormod cwsg [y] ferch, ni chaiff y byd mohoni'n ôl;
 Rhodddwyd [pridd]lawr ar loer [mewn] mantell harddwch,
 24 Ni roddwyd pridd[lawr] ar arglwyddes well.
- Gwell a gwell fu synnwyr, cannwyll wych [goleuni],
 Gwenhwyfar [a oedd yn] haul llawenydd daear;
 Gorchudd [yr] arglwyddes yw llen fawr maen[fedd],
 28 Hanes creulon i'w thylwyth yw'r galar amdani.

[Achos] galar mawr yw cipio ymaith [merch] ddiwarafun [ei]
rhodd,

Merch Madog frenhinol [ei] hurddas;

Gro heddiw, gwiw [ei] maen, sy'n meddu arni,

32

A ffwr [unwaith] a wisgodd ei grudd.

Rhoddwyd gorchudd dros rudd ...

Nodiadau

I

Amrywiol a diddorol yw'r wybodaeth a gyflwynir am wrthrych y gerdd hon yn y teitlau a'r ôl-nodiadau yn y llawysgrifau. Y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gytûn mai Madog ab Iorwerth ap Rhirid o Goedymynydd, Ysgeifiog, yn Nhegeingl yw'r gwrthrych, ei fod yn frawd i Rotbert ab Iorwerth ap Rhirid o'r un man, a'i fod yn Esgob Bangor. Ond y mae tair llawysgrif, gan gynnwys dwy o'r unfed ganrif ar bymtheg, yn nodi mai'r esgob Madog Min yw'r gwrthrych; er enghraifft dyma'r teitl a rydd Thomas Wiliems yn LIGC 8497B (copïwyd c. 1570–90): *Grono Gyrriawc i Escop Bangor y elwid Madawc Min yr hwnn a wnaeth brad y tywysawg Lewelyn ap Gr. ap Lln. ap Ior. drwyndwn.*

Beth ynteu am dystiolaeth fewnol y gerdd? Cyfeirir at y gwrthrych fel Madog yn llinellau 8 a 42, ond ni chyfeirir at ei ach, er y gall y cyfeiriad at *wyr Babo* (ll. 32) olygu ei fod yn hanfod o linach Pabo Post Prydain (ond gw. y nodyn ar y ll.) Y mae'r epithet *aer eglwysig* yn awgrymu ei fod yn hanfod o linach o swyddogion eglwysig a chyfeiria'r bardd yn benodol at Fadog fel arglwydd ac amddiffynnydd eglwys Bangor (*Dôr ac iôr Bangor, côr catholig*, ll. 5), fel pennaeth ar glas (*Eryr ar glaswyr*, ll. 44); molir ef ymhellach fel [*m*]eddyg—*pechodau* (ll. 3), *lles eneidiau* (ll. 4); fel pennaeth dysg (*llên bendefig*, ll. 1 a cf. ll. 12) a chyfraith (ll. 11); ac am ei haelioni arbennig at bobl wan (llau. 15, 45).¹ Y mae'r cyfeiriadau hyn i gyd yn awgrymu bod Madog yn uchel iawn ei statws yn eglwys Bangor, ond ni chyfeirir yn benodol ato fel esgob. Molir ymhellach groeso ei lys ym Mangor, gan nodi rhagoriaeth y llys hwnnw ar lys Arthur yng Nghelliwig (ll. 34). Cyfeirir at ei haelioni yn rhannu gwin (llau. 8, 28, 40), gwleddoedd (llau. 18–20), a gwisgoedd (llau. 19, 35), a molir ymhellach ei sicrwydd yng [*Ngh*]aer Trefnant (ll. 17) a'i letygarwch yng [*Ngh*]aer Rhiw (ll. 29) a leolir, o bosibl, *uwch Helig—Dyno* (ll. 31).

Y broblem gyntaf wrth geisio gosod y gerdd hon yn ei chyd-destun yw'r ffaith nad oes dystiolaeth fod gŵr o'r enw Madog wedi bod yn esgob ym Mangor yn y cyfnod hwn, er bod mwy nag un Madog wedi dal swyddi o bwys yno.² Fodd bynnag, yn yr arolwg a wnaeth o'r Eglwys yn y ddeu-

¹ Ar bwysigrwydd arbennig haelioni arweinwyr tai crefydd tuag at bobl wan a thlawd, gw. G. Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Cardiff, 1976), 382–4.

² Gw., e.e., J. Le Neve ed., *Fasti Ecclesiae Anglicanae 1300–1541: the Welsh Dioceses*, compiled by B. Jones (London, 1965), 3. Yr oedd gŵr o'r enw Madog ap Meurig o Fôn yn Archddiacon Môn

nawfed ganrif, awgrymodd Browne Willis mai'r un oedd Madog ab Iorwerth ap Rhirid â Matthew de Englefield, Esgob Bangor yn 1328–1357:³ 'In some Accounts I have seen of Welsh Pedigrees, one Madoc ap Yerworth ap Kirid [*sic*], occurs Bishop here about this Time; but he was, as I judge, no other than this Person, who had been before Canon of this Church,⁴ and Archdeacon at (*i*) *Anglesey*, and became elected Bishop *February* 25, 1327, confirm'd *April* 25, and consecrated *June* 12, 1328, in the 40th Year of his Age'. Nodir hefyd, heb gofnodi ei ffynhonnell, iddo weld enw Matthew Trevors fel Esgob Bangor yn 1350; nodir ymhellach y gall mai camgymeriad oedd hynny, 'unless our *Matthew*, in *Welch* Genealogy, might assume the Name of Trevor'. Gan fod yr enwau Matthew a Madog yn ymgyfnewid,⁵ a chan fod Madog, fel y gwelwyd, yn hanfod o Degeingl, sy'n cyfrif am y cyfenw *de Englefield*, ni welir unrhyw reswm dros wrthod yr uniaethiad. Y mae Matthew Trevors yn broblem arall!

Prin iawn yw'r wybodaeth am Fadog ab Iorwerth / Matthew de Englefield, ond cwynodd ei olynydd Thomas Ringstede am yr 'Waste and Dilapidations' a achosodd i adeiladau'r eglwys.⁶ Os yw'r cyfeiriadau at haelioni diddiwedd yr esgob yn y gerdd yn cyfleu'r gwirionedd, tybed a esgeulusodd yr adeiladau, gan wario'r cyfoeth yn hytrach ar fywyd moethus ei lysoedd?

Nid yw enw Madog ab Iorwerth ap Rhirid yn ymddangos yn yr achau, ond os cywir mai ef yw brawd Rhotbert ab Iorwerth ap Rhirid o Goedymnydd, yr oedd yn perthyn i deulu pwysig iawn yn Nhegeingl a olrheiniai ei ach i Ednywain Bendew II.⁷ Awgryma Bartrum i blant Iorwerth gael eu geni yn y cyfnod 1270–1300, a gwyddom i Iorwerth ei hun fod yn feili cantref Tegeingl yn 1302 a 1305.⁸ Y mae'n berffaith bosibl, felly, fod gan Iorwerth fab a oedd yn ddeugain oed yn 1328.

Yr oedd gan y teulu hefyd gysylltiadau llenyddol gan fod Nest—mam Rhotbert, ac o bosibl mam Madog, os oedd Rhotbert ac yntau'n frodyr cyflawn—yn perthyn i Iolo Goch. Canodd Iolo gerddi gofyn a diolch i nai Madog, sef Ithel fab Rhotbert, yn ogystal â cherdd farwnad pan fu farw yn 1382.⁹ Bu Ithel ei hun yn ganon yn eglwys gadeiriol Bangor, ond er iddo

yn 1324, ac fe'i dilynwyd gan Madog Hedwich, ?–1328; enwir Madog ap Meurig o Fôn yn brebendari Bangor, eto yn 1324, a gŵr o'r enw Madog Ddu yn ganon yn 1330, gw. *ib.* 9, 11, 17.

³ Gw. Browne Willis, *A Survey of the Cathedral Church of Bangor and the Edifices belonging to it* (London, 1721), 74–5.

⁴ Y mae'n debyg mai canon ydoedd pan etholwyd ef yn esgob, gw. J. Le Neve, *op.cit.* 3, 17.

⁵ Diolchir i'r Athro J.B. Smith am yr wybodaeth hon.

⁶ Browne Willis, *op.cit.* 76.

⁷ Gw. P.C. Bartrum: WGI 'Ednywain Bendew' 2: Rhotbert ab Iorwerth ap Rhirid ab Iorwerth ap Madog ab Ednywain Bendew o Degeingl.

⁸ *Ib.*

⁹ Gw. GIG xv–xvi, 264–5.

gael ei ethol yn Esgob Bangor yn 1357, gwrthodwyd y cais gan y Pab.¹⁰ Er hynny fe'i gwnaethpwyd yn archddiacon Llanelwy yn 1375.

Ni welir unrhyw reswm, felly, dros wrthod awgrym Willis i uniaethu'r Matthew de Englefield â Madog ab Iorwerth. Byddai lleoli'r gerdd yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg yn cyd-fynd yn dda â dyddiadau tybiedig Gronw Gyriog. Byddai'n deg credu hefyd mai gŵr o deulu a noddai farddoniaeth draddodiadol Gymraeg a fyddai'n gwerthfawrogi ac yn noddi cerdd fawl fel hon, a gwelwyd eisoes fod Madog ab Iorwerth yn hanfod o deulu a chanddo gysylltiadau llenyddol pur amlwg. Os yw'r termau canmoliaeth a ddefnyddia'r bardd i'w deall yn llythrennol, hynny yw, fod Madog yn bennaeth y clas a'r llys ym Mangor ac yn bendefig dysg a chyfraith, y mae'n rhesymol credu ei fod yn esgob (ond y mae'n ddigon posibl, wrth reswm, fod un o gopiŵyr cynnar y gerdd wedi dod i'r un casgliad, wedi ei gamarwain gan yr ormodiaith a geir ynddi). Y tebyg yw i Fadog fod yn haelach ei nawdd a'i groeso i'r beirdd na'i ragflaenydd Anian Sais (Esgob Bangor 1309–27), y canodd Iorwerth Beli awdl iddo i gwyno ei fod yn noddi cerddoriaeth Seisnig yn ei lys ar draul barddoniaeth Gymraeg draddodiadol.¹¹

Y broblem olaf ynglŷn â'r gerdd hon yw'r cyfeiriad yn nheitolau tair llawysgrif, dwy ohonynt o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, at wrthrych y gerdd fel Madog Min, Esgob Bangor, a wnaeth dwyll i'r Tywysog Llywelyn ap Gruffudd a Llywelyn ab Iorwerth.¹² Os oedd Madog Min yn gyfoeswr i Lywelyn, ni allai fod yr un un â Madog ab Iorwerth neu Matthew de Englefield, oherwydd, os oedd yn 40 yn 1328, ganwyd hwnnw yn 1288, sef chwe mlynedd ar ôl marwolaeth Llywelyn. Ond ceir dau gyfeiriad pellach at Fadog Min yng nghyswllt bradychu Llywelyn. Daw'r naill yn nheitol marwnad Llywelyn gan Fleddyn Fardd yn llawysgrif David Johns (c. 1580), BL Add 14866, 242^r,¹³ '*marwnad* Llywelyn ap gruffydd ap Hnn y twysawg diwaetha or Cymbru, a las ym muellt, drwy dwyll madoc min, ac eraill'; ac y mae'r cyfeiriad arall i'w gael mewn cywydd gan Lywelyn ap Gutun yn dychanu Rhisiart Cyffin, Deon Bangor ar ddiwedd y 15g., am ei dwyllo, gan gymharu ei weithred ag eiddo Madog Min yn erbyn Llywelyn:

¹⁰ Ymhellach ar Ithel, gw. D.R. Thomas: HDStA i, 247, ii, 114.

¹¹ GGDT cerdd 15, yn enwedig llau. 41–4, 57–60.

¹² Ffug, i bob golwg, yw'r hanes a edrydd Iolo Morganwg am Fadog Min, Esgob Bangor, fab Cywryd ab Ednywain Bendew a brenin Tegeingl, yn peri lladd Llywelyn ap Seisyll trwy ei fradychu yn 1021. Nid oes yr un o'r ffynonellau hanesyddol yn sôn am ladd Llywelyn ap Seisyll drwy fradwriaeth; sonnir yn hytrach am ei farwolaeth yn unig, gw. Bren Saes 54, BT 16, a cf. J.E. Lloyd: HW³ 347. Gw. ymhellach Iolo MSS 198, 'Ac yr oedd Madog yn ddyn mor gyfrwys a thwyllodrus fel y galwyd ef Madog y cadnaw. Felly y mwyaf bradwrus o'r holl fradwyr oedd Madog Min', 611.

¹³ Gw. GBF 576–8, lle y gwelir bod copi'r llawysgrif hon o gerdd Bleddyn Fardd yn tarddu yn y pen draw o Lawysgrif Hendregadredd drwy lawysgrif goll yn llaw Roger Morris o Goedytalwrn.

Mae doctor i Fangor fain,
oes, bradwr Ynys Brydain:
brad a wnaeth, briwdan eithin.
Bradog fu waith Madog Min
yn derbyn Llywelyn llwyd
i Fuellt pan ddifawyd.¹⁴

Eir ymlaen i sôn am *brad dig y brawd du*,¹⁵ a all olygu mai aelod o urdd y Dominiciaid oedd Madog Min, os ato ef y cyfeirir.

Tybed felly a oedd rhyw uchel swyddog ym Mangor yng nghyfnod Llywelyn a adwaenid fel Madog Min? Go brin y gellid ei uniaethu ag un o'r ddau esgob a fu yno yn ei amser ef, sef Richard yn 1237–67 ac Einion (neu Anian) yn 1267–1305/6:¹⁶ y mae'n wir i'r ddau esgob hyn yn eu tro fod mewn gwrthdrawiad â Llywelyn a bu'n rhaid i Anian, i raddau helaeth yn erbyn ei ewyllys bersonol, ysgymuno Llywelyn; ond prin y gellid dehongli ei weithred fel twyll.¹⁷ Tybed ai Madog Min a fu ynghlwm wrth fradwriaeth Llywelyn gan ei wŷr ei hun yng nghlochdy Bangor yn 1282, achlysur y cyfeirir yn fyr ato yn y Brutiau?¹⁸

Canwyd yr awdl hon ar fesur gwawdodyn ac ar yr odl *-ig / -yg*. Canwyd y pedwar pennill cyntaf yn bennaf ar y cymeriad *D-*, penillion 5–8 yn bennaf ar y cymeriad *Gw-*, a'r pedwar pennill olaf yn bennaf ar y cymeriad *Ll-*. Y mae'r llinellau i gyd yn rheolaidd o ran hyd ac eithrio llinell 26 sydd sillaf yn fyr. Ceir cynghanedd sain yn y mwyafrif o'r llinellau gyda chyfran helaeth ohonynt yn bengoll; ceir enghreifftiau o sain deirodl (llau. 2, 25), sain bedeirodl (ll. 5) a sain ddwbl (ll. 18). Ceir cynghanedd groes yn aml yn ail linell y toddeidiau (llau. 4, 8, 16, 20, 40) a hefyd groes wreiddgoll (llau. 24, 44, 48). Ni cheir cynghanedd gyflawn yn llinell 41 a cheir cynghanedd fraidd gyffwrdd yn llinell 4.

- 3 **meddyg—pechodau** Deellir hwn yn ddisgrifiad o Fadog; am enghraifft o *meddyg* yn ffigurol am Dduw fel iachawr, gw. GPC 2400 a cf. GSRh 12.216n.
- 5 **iôr Bangor, côr catholig** Cf. disgrifiad Iorwerth Beli o ragflaenydd Madog, Anian Sais, fel *rwyf Bangor gôr*, GGDT 15.41. Am ddisgrifiad manwl o eglwys gadeiriol Bangor, ac olion secwlar eraill ym Mangor, megis yr hen fynachlog a sefydlwyd gan Ddeiniol Sant ac a oedd erbyn hyn dan awdurdod esgobaeth Bangor, tŷ'r Brodyr Duon a'r plas esgobol

¹⁴ Gw. LlyB 110 (XII.1–6).

¹⁵ *Ib.* ll. 8.

¹⁶ Gw. Le Neve, *op.cit.* 3; J.B. Smith: LlaG 443, 458.

¹⁷ *Ib.* 292, G. Williams, *op.cit.* 13–14 ac AWH 220, 221. Ymhellach ar y cyfnod cythryblus rhwng Llywelyn a gwŷr eglwysig Bangor c. 1282, gw. *ib.* 223–4.

¹⁸ Bren Saes 258 *A'r amser hwnnw y gwnaethbwyd brad Llywelyn ynghylochdyav Bangor gan i wŷr e hyn*. Gw. ymhellach J.B. Smith: LlaG 372–4.

- (nad oes unrhyw dystiolaeth bellach ei fod yn hŷn na'r 15g.), gw. RCAHM (Caernarvonshire) ii, 1–14.
- 6 **Ilu daear** Am y cyfuniad cyffredin hwn yn y canu, cf. GCBM i, 24.54; GLILl 5.28, 23.1 a gw. GPC 2215.
- 7 **Dyfrig** Un o'r seintiau cynharaf a gysylltir yn bennaf â de-ddwyrain Cymru a de-orllewin swydd Henffordd. Dywedir mai ef a urddodd Ddeiniol, esgob cyntaf Bangor, ac fe'i claddwyd ar Ynys Enlli. Gw. hefyd LBS ii, 359–82, EWGT 45 a TWS 61–2, 99–103.
- 7–8 Gellid hefyd aralleirio fel a ganlyn, 'Cyfran gymaint â braint ddwbl Dyfrig [y] pennaeth gwych / Yw hawl bendigaid Madog sy'n tywallt gwin'.
- 9 **Dyn dan nef ... ni gaf debyg** Amrywiad ar y topos 'ni'th oes gystedlydd'; ymhellach ar hwnnw, gw. T.J. Morgan, 'Dadansoddi'r Gogynfeirdd (I)', B xiii (1948–50), 169–74.
- 12 **penrhaith peibliaith Peblig** Dengys nifer yr amrywiadau ar y cyfuniad hwn yn y llsgrau. ansicrwydd ynglŷn â threigladau a ffurf yr ail air. Posibilrwydd arall fyddai darllen *beibliaith Beblig* 'iaith ddwyfol Peblig' (a chymryd Peblig yn gyfeiriad at y sant neu at Lanbeblig), gydag e.p. yn treiglo'n feddal yn y cyflwr genidol yn dilyn eb.un. (gw. Treigladau 101). Y mae nifer o'r llsgrau. hefyd yn cynnig y darlleniad *pibl* neu *bibl*, sy'n cynrychioli ffurf hŷn ar yr e., er bod *beibl/peibl* hefyd yn digwydd mewn Cym.C., gw. GPC 268.
- Peblig** Sant a gysylltir â Llanbeblig, plwyf a gynhwysai dref Caernarfon, gw. WATU 103, 237. Cymerir mai cyfeiriad at yr e. lle sydd yma. (Ar y ffurf *peblig*, gw. M. Richards, 'Peibio', B xix (1960–2), 113 lle yr olrheinir ei darddiad i'r a. *pabl* 'bywiog, nwyfus' a'r terfyniad -*ig*.)
- 13 **Ei fenffyg** Deallir *benffyg* (benthyciad o'r Llad. *beneficium*, EL 33) yn e. yma yn golygu 'daioni' (cf. ystyron y tarddiadau S. *beneficial*, &c.), er na roddir iddo'r ystyr honno yn G 55 a GPC 272. (Ni roddir yno enghraifft o'r cyfnod hwn o'r ffurf *benffyg/benhyg* yn fe.) Y mae cystrawen y ll. hon yn amwys a gellid hefyd ddeall *ynn i fenffyg* (gyda'r *i* = 'yn' traethiadol) 'i ni yn fenthyciad/ddaioni'.
- 17 **Caer Trefnant** Cf. isod ll. 29 ar *Caer Rhiw*. Dichon y cyfeirir yma at lys un ai'n perthyn i Fadog yn bersonol, neu ynteu lys yn perthyn i'r esgobaeth. Ceir pentref o'r enw hwn ychydig filltiroedd i'r gogledd o Ddinbych yn Nyffryn Clwyd, a oedd yn rhan o esgobaeth Bangor yn y cyfnod hwn, gw. WATU 209, HAW plât 33. Ceir hefyd drefgordd o'r un enw yn Llanddaniel-fab yng nghantref Menai ym Môn, gw. WATU *l.c.*
- 21 **Curig** Sant a drigai yng nghanol y 6g. Ychydig a wyddys amdano ond fe'i cysylltir â Llangurig yn sir Drefaldwyn, Eisteddfa Gurig yng

- Ngheredigion ac â Chapel Curig yng Ngwynedd, gw. LBS ii, 192–200 a TWS 262–8. Cyfeirir yma at fendithion (*rhadau*) Curig, a dylid cofio efallai am ‘Emyn Curig’, sef gweddi amddiffynnol y ceir cyfeiriadau ati mewn barddoniaeth o’r 14g., gw. Brynley F. Roberts, ‘Rhai Swynion Cymraeg’, B xxi (1964–6), 202–3.
- 22 **Padrig** Nawddsant Iwerddon, gw. LBS iv, 54–71.
- 26 **hyd trefad trefn Amwythig** Tybed ai cyfeirio at Ogledd Cymru yn ei gyfanrwydd a wneir yma, hynny yw, hyd at eithafion Amwythig yn y dwyrain?
- 28 **hil Iorwerth** Y tebyg yw mai cyfeiriad at dad Madog, Iorwerth ap Rhirid, sydd yma; cf. Gwalchmai am Owain Gwynedd (fab Gruffudd ap Cynan) *Ardwyreaf-y hael o hil Gruffut*, GMB 8.1. Ond digwydd yr enw hefyd yn *Iorweirthiawn*, enw llwyth a gysylltir â Phowys ac, yn ôl pob tebyg, â Iorwerth Hirflawdd ap Tegenwy ap Teon, cf. GCBM i, 10.32, 21.10 a GMB 7.106 (Gwalchmai ap Meilyr) a gw. ymhellach GCBM i, 10.32n.
- 29 **Caer Rhiw** Y mae’n bosibl y dylid darllen *caer rhiw* ‘caer ar fryn’ yn syml, gyda’r bardd yn cyfeirio at lys ei noddwr ar fryn ym Mangor (o bosibl adeilad yr hen fynachlog Geltaidd a sefydlwyd gan Ddeiniol yn y 6g. ac a leolid ar allt islaw adeilad presennol Prifysgol Cymru Bangor, gw. RCAHM (Caernarvonshire) ii, 11–12). Ond, a dilyn patrwm y cyfeiriad at *Caer Trefnant*, ll. 17 uchod, deellir Rhiw yn e. lle, er na ellir bod yn sicr ynglŷn â’r lleoliad. Fel yn achos *Caer Trefnant*, gall fod yn gyfeiriad at lys esgobol arall dan awdurdod Madog, neu ynteu at lys yr oedd ef ei hun yn berchen arno. Y tebyg yw fod yr ymadrodd *uwch Helig—Dyno*, ll. 31, yn disgrifio’r safle, ac ar sail tystiolaeth cyfeiriadau gan Rys Goch Eryri a Mab Clochyddyn (gw. ll. 31n), cymerir mai’r gwastadedd tywodlyd rhwng Bangor a’r Gogarth yw Helig Dyno yma. Os cywir hynny, tybed ai at Riw, trefgordd yn Llandrillo-yn-Rhos yn esgobaeth Llanelwy y cyfeirir? (Gw. D.R. Thomas: HDStA iii, 210 a WATU 108, 187.) Ond ceir hefyd, ym mhen eithaf Llŷn, blwyf o’r enw Rhiw a ddeuai dan esgobaeth Bangor (WATU 187, HAW plat 33, RCAHM (Caernarvonshire) iii, 97), ac os yw *uwch Helig Dyno* yn ddisgrifiad o’r plwyf hwn, byddai’n rhaid cymryd bod Helig Dyno yn gyfeiriad at Fae Ceredigion, ac y mae hynny’n berffaith bosibl fel y gwelir yn ll. 31n.
- Tybed a yw *Gwypm heddiw* ... yn awgrymu mai yng Nghaer Rhiw y datganwyd yr awdl?
- rhwyl** D ‘rhwyl *Aula, regia*’; ‘Peniarth Glossaries’, B ii (1923–5), 236 *rhwyl* ‘llys’; cf. GDG³ 599 ‘llys, plas’. Ni wyddys tarddiad y ffurf, ond os yw’n gytras â’r Wyddeleg *réil* (cf. ar *rwylweith*, GCBM i, 13.41n), gellid hefyd ei deall yn a. gyda’r ystyr ‘amlwg, eglur, disglair’, &c.

- 30 **plas** Gallai olygu ‘lle, man’ (< S. ‘*place*’) yn ogystal â ‘plas, llys’ yn y cyfnod hwn, gw. GLIBH 4.28n a GPC 2819.
- 31 **Helig—Dyno** Ystyr *tyno* yw ‘pant’ neu ‘ddyffryn’, gw. I. Williams: EL1 41 (lle y cyfeirir at *Coetyno* yng nghyffiniau Clynnog), CA 235, PKM 280. Am gyfeiriadau pellach at Dyno Helig, gw. EWGT 60 (‘Bonedd y Saint’ 42) *Bodo a Gwynnin a Brothen sant meibyon Helic m. Glannawc o Dyno Helic, gwyr heuyt a oresgynnwys mor eu tir*; B.F. Roberts, ‘Triawd Lladin y Gorlifiadau’, B xii (1946–8), 79–80 ... *Yr ail deyrnas fu teyrnas Helig fab Glannawg, a oedd rhwng Ceredigiawn ac Ynys Enlli, a hyd at Fynyw (h.y. Tyddewi)* (cyfieithiad B.F.R.); ac am Wenhwyfar a gladdwyd yn Llan-faes, medd Mab Clochyddyn, isod 6.24 *Deune haul Dyno Helig*, ac ar ei hôl yr oedd ym *bro Helig tremyg trwm*, 6.25; cf. hefyd ddisgrifiad Rhys Goch Eryri o gartref Gwilym ap Gruffudd o’r Penrhyn yng *nnglan Traeth Helig*, IGE² 311 (ll. 32) a cheir Dôl Helyg ger Llandegái (er y mae’n bosibl mai’r e.c. *helyg* a welir yno), gw. ELISG 26 a EANC 148–9. Llys Helig—sef Llys Helig Foel ap Glannog a foddwyd gan y môr—yw’r enw traddodiadol ar yr ardal o gerrig wedi eu gorchuddio â gwymon a ddaw i’r golwg tua milltir allan i’r môr o Benmaen-mawr pan fo’r llanw ar ei isaf; ond ar sail tystiolaeth hanesyddol, ddaeryddol, ddaearegol ac archaeolegol, casglodd F.J. North, *Sunken Cities* (Cardiff, 1957), 81, ‘Llys Helig is not the ruin of a human habitation, but an accumulation of stones brought together during the Ice Age and exposed in their present position as a result of erosion and submergence’. Awgrymodd hefyd mai tuag amser Syr John Wynn o Wedir y cysylltwyd hanes Helig yn gyntaf ag arfordir y Gogledd, ac mai ag arfordir Ceredigion y cysylltid hi’n wreiddiol (gw. y dyfyniad o EWGT uchod a cf. ll. 29n); fodd bynnag, dengys yr enghraifft gan Fab Clochyddyn y gallai Helig Dyno gyfeirio at y safle ar arfordir y Gogledd erbyn hanner cyntaf y 14g. Gw. F.J. North, *op.cit.* 1–98, TYP² xci.
- 32 **ŵyr Pabo** Pabo Post Prydain, un o arwyr yr Hen Ogledd, ond fe’i cysylltir hefyd â Gwynedd. Ef oedd sylfaenydd eglwys Llanbabo ym Môn, gw. LBS iv, 38–9, TYP² 483–4. Ar y treigladd meddal yma yn dilyn *ŵyr*, gw. Treigladdau 108–9, lle yr awgrymir mai arfer ddiweddar ymysg cywyddwyr yr ail gyfnod oedd y treigladd hwn; darlleniad gwreiddiol y ll., yn ôl pob tebyg, oedd *Gwarant ŵyr Pabo, pybyr leithig*. Gan fod Pabo yn daid i Ddeiniol, esgob cyntaf Bangor, hwyrach mai nodi a wneir bod Madog yn perthyn i’r un llinach esgobol â Deiniol, gw. P.C. Bartrum: WG1 td. 8.
- 33 **mawl heuedig** Am y syniad o *hau* moliant, gw. isod 4.17n.
- 34 **Celliwig** Llys traddodiadol Arthur a leolir gan amlaf yng Nghernyw. Ceir lluo o awgrymiadau a chryn anghytundeb ynglŷn â’i leoliad. Am

drafodaeth bellach ar y safle, gw. O. Padel, “Kelli Wic in Cornwall”, atodiad i H. Miles, ‘Excavations at Killbury Hillfort, Egloshayle 1975–6’, *Cornish Archaeology*, xvi (1977), 155–21, hefyd *The Arthur of the Welsh*, ed. R. Bromwich *et al.* (Cardiff, 1991), 236–7, CO lxxix–lxxx a CO² 91–2. Yma, y mae’r bardd yn nodi rhagoriaeth llys Madog ar Gelliwig, sef y llys delfrydol yn ôl y cyfeiriadau prin ato yn y farddoniaeth: gw. TYP² 3–4 am gyfeiriadau pellach, a hefyd GCBM ii, 4.167 lle y cymherir llys Owain Gwynedd â Chelliwig, *Kyrt kertynt, mal kynt Kelliwyc, / Ar wyr wa6r ...*

rhagor rhag Am enghreifftiau pellach o’r cyfuniad hwn yn yr ystyr ‘yn fwy na’, gw. GMW 104.

- 35 **dawn gaeledig** Awgryma G 94 (gan gyfeirio at y ll. yn MA² 347b31) y dylid darllen *coeledig* yma, ond nid yw’n cynnwys y ffurf honno *ib.* 158. Nid yw’r naill ffurf na’r llall yn GPC 383, 532–3. Ceir y ffurf *coeledigaeth* ‘coel, cred, opiniwn’, ond nid tan ddiwedd yr 16g. Nodir dau rym i’r terfyniad *-edig* yn GPC, sef (i) grym rhangymeriad gorffennol goddefol, e.e. *cuddiedig* = ‘wedi cael ei guddio’; (ii) grym gweithredol (heb fod yn oddefol), e.e. *caedig* = ‘yn caru’, a cf. isod ll. 37, *rhoddedig* ‘yn rhoi’, &c. Felly gall *caeledig* olygu ‘wedi cael ei dderbyn, derbyniol’ neu ‘yn cael, yn derbyn’ a gall *coeledig* olygu ‘wedi cael ei goelio/ei gredu/ei ymddiried’ neu ‘yn coelio’, &c. Gan mai eg. yw *dawn* mewn Cym.C. (gw. G 303), ni all *caeledig/coeledig* fod yn a. syml yn ei oleddfu, oherwydd y treigladd meddal. Ond un posibilrwydd yw y gellid deall *dawn gaeledig* yn gyfuniad = ‘derbyniol ei rodd’, ar lun *croenddu* ‘du ei groen’. Felly, o dderbyn *caeledig*, gellid deall y cyfuniad i olygu ‘llys lle y mae rhodd [o ddillad] gwyrd yn cael ei derbyn’. Neu o ddilyn G a derbyn y ffurf *coeledig*, ‘llys lle y mae rhodd [o] ddillad gwyrd yn cael ei gwarantu’.

gwyrd Digwydd yn gyffredin yng nghanu Beirdd y Tywysogion am ddillad o’r lliw hwn a roddir yn gyffredin yn rhodd gan noddwr i’w fardd, cf. BaTh 158, ac isod 6.6.

- 36 **diwallwyd** Gwrthodir awgrym G 376 i ddiwygio’n *diwallwyrdd* yma. Er mai cymharol brin yw enghreifftiau o’r f. *diwallu* yn golygu ‘dighoni, esmwythau ar’, &c., yn y cyfnod hwn, gw. G *l.c.*, cf. GMB 30.25 *Y dabn a’e deall a’m diwallo* (Meilyr ap Gwalchmai).
- 38 **Teodrig** Tewdrig, sef enw ar dywysog a sant a drigai yn y 5–6g; arno gw. LBS iv, 252–4. Arweiniodd bobl Morgannwg yn llwyddiannus yn erbyn y Sacsoniaid. Coffeir ef yma fel safon doethineb.
- 40 **gwyndodig** Cymerir mai ‘gwynfydedig’, &c., yw ystyr yr enghraifft hon yn G 740 a GPC 1772, ond efallai mai o dan yr ail ystyr, ‘yn perthyn i Wynedd’, y dylid ei dosbarthu.

- 44 **aer eglwysig** Awgryma'r disgrifiad hwn o Fadog ei fod yn perthyn i linach o swyddogion eglwysig, a gwyddys bod ei nai, Ithel, yn ganon yn esgobaeth Bangor.
- 45 **canon fendig** Deallir *bendig* yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *bendigaw* 'cysegre, sancteiddio', &c., er nas rhestrir felly yn G 55 (sy'n derbyn darlenniad MA *bendigedig*) a GPC 271.
- 47 **dechymig** Fe'i deallir yn e. yn golygu 'dyfais' yma, yn ddisgrifiad o lys Madog sy'n dyfeisio neu'n cynhyrchu mawl. (Sylwer mai niferus iawn yw'r amrywiadau ar y gair hwn yn y llawysgrifau—*drethriug*, *daithynnig*, *deithymig*, *daithvnig*—ac felly nid yw'r darlenniad yn sicr.)
- 48 **banda** Dosberthir *banda* yn G 50 yn betrus yn e.p. neu a., ond ni ddaethpwyd o hyd i gyfeiriad arall at gymeriad o'r enw Banda. (Dichon nad amrywiad ar yr e.p. Penda sydd yma, oherwydd yn ogystal â bod yn bagan, yr oedd Penda yn elyn traddodiadol i'r Cymry, er iddo ef a Chynddylan fod yn gynghreiriaid, gw. EWSP 184. Hefyd, ymddengys mai *Panna* oedd y ffurf arferol yn Gymraeg.) Ni restrir y ffurf yn GPC 254, ond fe'i deallir yn a. cyfansawdd o *ban* + *da* (gyda chalediad *-ndd-* > *-nd-*, gw. Treigladau 26–7).

2

Uwchben y gyfres hon o englynion yn Llyfr Coch Hergest ceir y teitl *llyma bellach eglwynon agant gronb gyryoc ywenhbyuar verch hobel vab tudyr*. Fodd bynnag, nodir yn glir yng nghorff y gerdd mai merch i Fadog yw'r Wenhwyfar a farwnedir yma (ll. 30), ac nid i Hywel. Ni cheir unrhyw wybodaeth fywgraffyddol bellach am Wenhwyfar yma, dim ond iddi gael ei chladdu mewn *Llety saint a braint brodyr* (ll. 7) yn Llan-faes, sef tŷ'r Brodyr Llwydion nid nepell o Fiwmares. Dilynir y gerdd yn Llyfr Coch Hergest gan farwnad o waith Mab Clochyddyn i *wenhbyuar wreic howel vab tudur vab gruffud*, yr un ferch, y mae bron yn sicr, ac fe'i disgrifir hi fel *merch Fadog, fel gwawr ger llawr llary Fechyll*, a sonnir am alar Môn yn sgil ei marwolaeth, a'i chladdu yng nghanell y Brodyr Llwydion yn Llan-faes.¹

Wrth godi'r gerdd i lawysgrif F, cyfeiria Samuel Williams at Wenhwyfar fel gwraig Hywel ap Tudur ap Gronw,² a cheir tystiolaeth yn yr achau fod gŵr o'r un enw o Benllyn wedi priodi merch o'r enw Gwenhwyfar—ond nodir mai merch i ryw Ifan Llwyd oedd hi.³ (Y mae'n annhebyg hefyd mai'r

¹ Gw. isod 6.33, 45, 54, &c.

² Llst 133, 304. Gan mai Llyfr Coch Hergest yw ffynhonnell uniongyrchol y llawysgrif hon, dichon mai Samuel Williams ei hun sy'n gyfrifol am yr awgrym, ac na ddylid rhoi unrhyw bwys arni.

³ PACF 355. Credai Ifor Williams mai Hywel ap Tudur ap Goronwy o Benmynydd oedd gŵr Gwenhwyfar, ond ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i ategu hynny, gw. IGE² lxxxiii a P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 12.

un yw hon â'r Wenhwyfar y canodd Gruffudd ap Maredudd farwnad enwog iddi. Cysylltir y ferch anhysbys honno'n benodol â Phentraeth gan Ruffudd.⁴)

Nid oes unrhyw awgrym yn y naill gerdd na'r llall o ba le yr oedd Gwenhwyfar yn hanfod, ond awgryma P.C. Bartrum,⁵ ar sail ach gan Ruffudd Hiraethog yn Peniarth 117, 167, mai merch ydoedd i Fadog o'r Hendwr. Os cywir hyn, yna yr oedd Gwenhwyfar yn hanfod o deulu pwysig iawn ym Mhowys. Yr oedd ei thad, Madog, yn farwn grymus iawn yn trigo yn yr Hendwr yn Llandrillo, Edeirnion. Yr oedd yn hanfod yn uniongyrchol o deulu brenhinol Powys, a gosodir ei ach, sydd braidd yn gymysglyd yn y llawysgrifau, fel a ganlyn gan Dr A.D. Carr: Madog ap Gruffudd ap Dafydd ap Gruffudd ab Owain Brogyntyn ap Madog ap Maredudd.⁶ Yr oedd ganddo ferch arall, Gwerful, a briododd Goronwy ap Tudur Hen o Benmynydd; canodd Gruffudd Fychan foliant i'w mab, Hywel, gan enwi'r rhieni.⁷

Yr oedd i'r teulu hwn hen hanes o noddi barddoniaeth. Yr oedd Madog ap Maredudd ac Owain Brogyntyn yn noddwyr beirdd yn y ddeuddegfed ganrif, a chanodd Bleddyn Fardd farwnad i daid Madog, sef Dafydd ap Gruffudd ab Owain. Dichon fod gan Lygad Gŵr yntau gysylltiadau clòs â theulu'r Hendwr, er nad oes unrhyw gerddi o'i eiddo wedi goroesi iddynt.⁸ Yr oedd mam Gwenhwyfar, Efa, hithau yn hanfod o deulu brenhinol Powys, yn orwyres i Wenwynwyn ab Owain Cyfeiliog.

Ychydig a wyddys, mewn gwirionedd, am ŵr Gwenhwyfar, sef Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan ym mhlwyf Llanfechell yn Nhalybolion, Môn, ond dichon ei fod yntau'n ŵr o rym.⁹ Y tebyg yw mai'r un oedd ei dad, Tudur ap Gruffudd, â'r gŵr a gefnodd ar Lywelyn ap Gruffudd,¹⁰ ac y rhoddwyd iddo raglawiaeth Talybolion yn 1282 yn wobr am ei wasanaeth.¹¹ Y tebyg yw fod Hywel a'i frawd Iorwerth wedi etifeddu cyfoeth eu tad.

Gosodir dyddiad geni Hywel gan P.C. Bartrum *c.* 1300,¹² ond os yr un oedd â Hywel ap Tudur [ap] Gruffudd a enwir mewn dogfen ym Môn yn 1310, yna dichon y gellir gosod ei ddyddiad geni dipyn ynghynt: dichon fod awgrym y Parchedig Ddr. Dafydd Wyn Wiliam wrthym, sef *c.* 1275, yn

⁴ Gw. Bl B XIV 141–6 (cerdd 67) ac *ib.* 188. Awgrymodd y Parchedig Ddr. Dafydd Wyn Wiliam wrthym y gall mai Gwenhwyfar ferch Goronwy ap Llywelyn oedd honno, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Geraint' 1.

⁵ Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Llywarch ap Brân' 5 a 'Bleddyn ap Cynfyn' 26, 30 a 'Marchudd' 12.

⁶ A.D. Carr, 'The Barons of Edeymion, 1282–1485', *Cylchg CHSFeir iv* (1961–4), 300. Am grynodedd o yrfa Madog, gw. *ib.* 289–90.

⁷ Gw. GSRh cerdd 10.

⁸ GBF 210.

⁹ Diolchir i'r Parchedig Ddr. Dafydd Wyn Wiliam am ei awgrymiadau ynglŷn â Hywel.

¹⁰ J.B. Smith: LlaG 308.

¹¹ MAng 198.

¹² P.C. Bartrum: WG1 'Llywarch ap Brân' 5.

agos ati. Tynnodd ein sylw hefyd at y ffaith nad yw enw Hywel yn digwydd yn Stent Môn, Talybolion, a gynhaliwyd yng Nghoedan, 21 Medi, 1352, er enwi ei fab Tudur.¹³ Cesglir felly iddo farw cyn canol y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Yr oedd Gwenhwyfar, felly, yn wraig uchel iawn ei thras, ac nid yw'n syndod i'w chorff gael ei gludo yr holl ffordd o Lanfechell i'w gladdu yng nghanell tŷ'r Brodyr Llwydion yn Llan-faes. Yr oedd y safle hwn yn fan claddu poblogaidd iawn i uchelwyr Môn a'r cyffiniau yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg a chladdwyd merched eraill uchel eu statws yno, megis Siwan, wraig Llywelyn Fawr, Eleanor de Montfort, wraig Llywelyn ap Gruffudd, a Myfanwy, wraig Goronwy Fychan o Benmynydd.¹⁴

Y mae'r farwnad hon yn nodweddiadol iawn o'r cerddi a ganwyd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yn moli'r wraig wedi i fywyd y llys ddisodli maes y gad fel canolbwynt cymdeithas. Molir harddwch Gwenhwyfar, gan bwysleisio ei disgleirdeb â throsiadau arferol megis *haul* (llau. 12, 26), *lloer* (ll. 23), *cannwyll* (ll. 25), a rhoddir hefyd sylw i'w rhagoriaethau cymdeithasol, gan grybwyll ei pharabl croyw (ll. 2), ei haelioni (llau. 15, 20) a'i synnwyr (ll. 19). Cyferbynnir ei harddwch yn boenus o effeithiol â gerwindeb y bedd a hynny â goslef llawn dicter oherwydd *trais Dofydd trosti* (ll. 10) yw ei marwolaeth—y syniad cyffredin a geir yn y marwnadau fod Duw wedi gorthrechgu bywyd dyn. Ingol hefyd yw'r modd y mae'r bardd yn myfyrio ar ei bedd, ac yn sôn yn ffigurol amdano megis ystafell gysgu (llau. 12–13), a chlôir gyda syniad cyffredin yn y canu marwnad, sef bod llawr a phridd bellach yn gorchuddio'r ferch, lle bu unwaith wisgoedd drudfawr amdani.

Canwyd y gerdd fer hon o 32 llinell ar gyfres o wyth englyn proest; mae englynion 2–6, 8 yn englynion proest dalgron a cheir llafariaid lleddf yn englynion 1 a 7. Cysylltir yr englynion â chyrch-gymeriad, gan lunio cadwyn a elwir yn gyngogion gyda gair olaf pob englyn yn cael ei ailadrodd ar ddechrau'r englyn nesaf a gair olaf y gyfres yn ateb ei dechrau.¹⁵ Ceir rhyw lun ar gynghanedd ym mhob llinell, gyda'r mwyafrif yn gynganeddion sain (25 ll.) ac ambell un (4 ll.) yn bengoll ac un yn fraidd gyffwrdd (ll. 23).

- 1 **rhoed llen gudd** Dilynir G 184 sydd yn rhestru *cudd* yma yn eg. 'cudd, cêl, gorchudd, caead', er nad amhosibl ychwaith GPC 627 d.g. *cudd*¹ sydd yn ei ddeall yn a. yn golygu 'cuddiedig, cêl, ... yn cuddio', &c.

¹³ A.D. Carr, 'The Extent of Anglesey, 1352', AAST (1971–2), 192–3.

¹⁴ Ymhellach ar dŷ'r Brodyr Llwydion yn Llan-faes, gw. MAng 291–4.

¹⁵ Gw. J. Morris-Jones: CD 294–5 a cf. caniad cyntaf awdl Mab Clochyddyn i'r un gwrthrych, isod 6.1–44.

- 4 **Llan-faes** Plwyf a phentref ar Ynys Môn ger Biwmares, gw. WATU 116. Yma cyfeirir at dŷ'r Brodyr Llwydion lle y claddwyd gwrthrych y gerdd hon, gw. J.E. Lloyd: HW³ 686 a'r nodyn cefndir uchod.
- 5 **Llan-faes fan** Dilynir G 50 sy'n rhestru *fan* yma yn ffurf dreigledig yr a. *ban* = 'uchel, aruchel, ardderchog'; nid amhosibl ychwaith fyddai ffurf dreigledig yr e. *man* = 'lle, safle'.
- 7 **brodyr** Sef y Brodyr Llwydion a drigai yn Llan-faes.
- 10 **trais ... trosti** Cf. *treisio tros* 'ymosod, gorchfygu', &c., yn GCBM i, 21.122 *Namyn y dreissyaw dros a welei* ac *ib.* ii, 4.122 ... *duc treis tros Erch a Helet*.
- 12 Y mae'r gystrawen yn amwys, a gellid cymryd *liw haul hundy* yn ddisgrifiad o'r ferch (*hael hoendeg*). Cysylltir *liw* yn hytrach gyda rhan gyntaf y ll.
- 15 **Rhiannon rhodd** Diddorol yw'r gymhariaeth hon â haelioni Rhiannon, un o brif gymeriadau dwy o geinciau 'Pedair Cainc y Mabinogi'. Cyfeirir yn benodol at haelioni Rhiannon yn ystod y wledd yn Llys Arberth, *Na gwr na gwreic o hynny nyt edewis Riannon, heb rodi rod enwauc idaw, ae o gae, ae o uodrwy, ae o uaen guerthuawr*, PKM 19 (llau. 14–16). Am y calediad *r > rh* yn *rhodd* yn dilyn gair yn diweddu ag *-n*, gw. Treigladau 27. Ymhellach, gw. 8.30n.
- 17–20 **Ei hufydd-dod ... / ... a dâl Nêr nef** Englyn anodd ei aralleirio. Cymerir mai *tal* *i* yw'r brif f., mai Gwenhwyfar yw'r gwrthrych anuniongyrchol, mai *Nêr nef* yw'r goddrych, ac mai'r hyn y gwobrwyir Gwenhwyfar amdano yw *Ei hufydd-dod ... / A'i hawl decbwyll ... / A'i haelder*.
- 21 **rhan ofid** Deellir *rhan* yma'n e., ond gellid hefyd ddarllen *ran ofid* < *a ran ofid*, gyda *rhan* yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *rhannu*.
- 23 **pyll** Gair benthg o'r Llad. *pallium* sef 'math o fantell neu doad', gw. ymhellach GmG 103.
- 30 **Madog** Sef Madog ab Iorwerth ap Madog, gw. y nodyn cefndir uchod.
rhieddawg Llsg. *C rida6c*. Diwygiwyd er mwyn hyd y ll. gan ddilyn John Davies yn llsg. D, cf. G 661 d.g. *Gwenhwyuar*⁴. Ystyr yr a. yma yw 'urddasol, brenhinol', gw. CT 90, a gall yma ddisgrifio Madog neu'r ferch.
- 31 **maenwiw** Fe'i deellir yn a. cyfansawdd (er mai dau air sydd yn y llsg.), yn ddisgrifiad o Wenhwyfar, 'gwiw ei maen', hynny yw, bod ganddi fan claddu teilwng ohoni. Ond, gan fod *maen*, y mae'n debyg, yn gallu bod yn eb. (nodir hynny gyda chryn betruster yn GPC 2306 gan restru enghraifft o YBH 42b (llau. 2705–6) *b6r6 neit a chaffel mayn ... a b6r6 bobn a hi*) gallai fod yn ebychiad syml, 'carreg [fedd] ragorol'. (Go brin y dylid darllen *mae'n wiw* yma.)

Mynegai

- adaf** 1.16
aer 1.44n
alaf 1.15
araf 2.18
ban 2.5n
banda 1.48n
bendigaw: bendig 1.45
benffyg 1.13
brig 1.43
brodyr 2.7n
bun 2.8, 16, 22
caeledig 1.35n
caen 2.4
calennig 1.20
calon: calonnau 1.20
caniad 1.14
cannerth 1.28
cannwyll 2.25
canon 1.45
catholig 1.5
ceinmyg 1.2
ceudod 2.17
claswyr 1.44
clotbwyll 1.23
cnif 1.24
cofedig 1.27
côr 1.5n
cudd 2.1n
cwblbwyll 1.10
cwrf 1.18
cyfoeth 1.27
cynefodedig 1.24
dadl 1.10
dechymig 1.47n
dehau: deheuaf 1.39
deheuig 1.39
deufraint 1.7
diafrddwl 1.3
diddiffyg 1.17
dinag 2.29
diwellig 1.36n
dôr 1.5
dynggoll 2.21
dyhir 2.13
dyroddedig 1.16
eglwysig 1.44n
ener 1.11
enwedig 1.4
eryr 1.44
eurddull 1.22
eurin 1.18
eurnerth 1.27
gan 1.14
garchweddl 2.28
glwys 1.39, 2.2
gra 2.32
gradd 2.30
greddfdris 2.1
gwan: gweiniaid 1.15, 45
gwanas 1.22
gwarant 1.17
gwawr 2.24, 27
gwedd 2.13
gwenfro 1.32
gwindrefn 1.30
gwiw 2.31
gwledig 1.23
gwymp 1.29
gwyndodig 1.40n
gwyRDD 1.35n
harddedd 2.23
haul 2.12n
heilwin 1.8, 28
heuedig 1.33n

- hil** 1.28n
hirhoedlfyw 1.47
hoen 2.26
hoendeg 2.12
hoywfudd 2.6
hundy 2.12, 13
hylwydd 1.46
iôr 1.5n
llawrgudd 2.8
lleithig 1.32n
llety 2.7
lliw 2.12n
lloer 2.23
llu daear 1.6
llwrf 1.18
llwrw: llyry 1.18
llwyrkawdd 2.8
maen 2.31n
marian 2.5
mawrdda 2.11
meddyg 1.3n
mennig 1.25
moledig 1.19
Nadolig 1.14
nêr 2.20
pair 1.41
parabl 1.41
pechod: pechodau 1.3n
peibliaith 1.12n
peneurog 1.7
penrhaith 1.12n
plas 1.30n
profedig 1.10
pwyll 1.38, 2.25
pybyr 1.32
pyll 2.23
rhad: rhadau 1.21n
rhagor rhag 1.34n
rhan 2.21
rhên 2.21
rhieddawg 2.30n
rhoddedig 1.37
rhwyf 1.27
rhwyl 1.29n
rhwym 2.4
rhyhun 2.22
tadwys 1.40
talw: tâl 2.20
tebyg 1.9n
tecbwyll 2.19
trais 2.10n
traul 1.17
trefad 1.26n
trefn 1.26n
tros: trosti 2.10n
twf 2.19
ufydd 2.16
ufydd-dod 2.17
urddedig 1.29
urddol 1.2
ŵyr 1.32n
ymurddo: ymurddawdd 2.11

Enwau personau

Curig 1.21n	Madog² 2.30n
Dofydd 2.10	Pabo 1.32n
Duw 1.1, 13	Padrig 1.22n
Dyfrig 1.7n	Pebelig 1.12n
Gwenhwyfar 2.6, 18, 26	Rhiannon 2.15n
Iorwerth 1.28n	Teodrig 1.38n
Madog¹ Madog ab Iorwerth ap Rhird 1.8, 42	

Enwau lleoedd

Amwythig 1.26n	Celliwig 1.34n
Bangor 1.5n, 34	Gwynedd 1.21
Caer Rhiw 1.29n	Helig Dyno 1.31n
Caer Trefnant 1.17n	Llan-faes 2.4, 5

GWAITH IORWERTH AB Y CYRIOG

golygwyd gan

W. DYFED ROWLANDS

ac

ANN PARRY OWEN

Rhagymadrodd

Gellir bod yn weddol hyderus mai mab Gronw Gyriog oedd Iorwerth ab y Cyriog, er na chafwyd unrhyw dystiolaeth bendant i ategu hynny.¹ Gwelwyd eisoes fod Gronw Gyriog yn perthyn i hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg—ceir dogfen gyfreithiol yn ei gysylltu â gogledd-ddwyrain Môn yn 1317 a chredir iddo ganu ‘Moliant Madog ab Iorwerth o Goedymnydd’ (cerdd 1 uchod) ar ôl 1328—ac ar sail hynny gellir cynnig i Iorwerth fod yn ei flodau tua chwarter canrif yn ddiweddarach.² Ategir hynny gan ddau gyfeiriad allanol ato. Yn ei gywydd ‘Cae Bedw Madog’, sef Madog Benfras (*fl.* 1320–60), credir bod Dafydd ap Gwilym yn cyfeirio’n benodol at gywydd Iorwerth ‘I ddiolch am gae’ (cerdd 5 isod),³ ac os oedd Dafydd ap Gwilym wedi tewi erbyn 1350,⁴ y mae’n rhaid fod Iorwerth wedi canu’r cywydd hwn rai blynyddoedd cyn 1350. Yn ail, wrth ganu marwnad iddo, cyfeiria Sefnyn at Iorwerth fel athro barddol iddo a’r tebyg yw, felly, fod Sefnyn yn perthyn i genhedlaeth iau nag Iorwerth. Am ddyddiadau Sefnyn, ‘y cyfan y gellir ei ddweud yn bur hyderus yw iddo ganu yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac iddo dewi, o bosibl, cyn 1382’.⁵

Gwelwyd bod dystiolaeth gref dros gysylltu Gronw Gyriog â Môn, ac y mae lle cryf i gredu mai o’r ynys honno yr hanai Iorwerth hefyd. Wrth ganu ei farwnad, cyfeiria Sefnyn yn benodol at golled alaethus beirdd Môn ar ei ôl;⁶ er hynny, ni chadwyd unrhyw gerddi o’i eiddo i noddwyr o Fôn, ac y mae’r farddoniaeth a gadwyd, yn hytrach, yn ei gysylltu â Meirionnydd. Merch o Feirionnydd oedd Efa, gwrthrych cerdd 4, a gellid tybio mai oherwydd y cyswllt hwn â’r ardal y cambriodolir iddo’r ddau gywydd ‘Marwnad Einion ap Seisyll o Fathafarn’ (Atodiad i) a ‘Dychan Drws-y-nant’ (Atodiad ii).

Priodolir pum cerdd i Iorwerth ab y Cyriog yn y llawysgrifau, sef awdl ‘I Dduw’ (cerdd 3), awdl ‘I Efa’ (cerdd 4), cywydd ‘I ddiolch am gae’ (cerdd 5), cywydd ‘Marwnad Einion ap Seisyll o Fathafarn’ (Atodiad i) a chywydd ‘Dychan Drws-y-nant’ (Atodiad ii). Y tair cyntaf yn unig a dderbyniwyd fel gwaith dilys Iorwerth. Cerdd yn gofyn i Dduw am edifeirwch a chymod

¹ Gw. y rhagymadrodd i waith Gronw Gyriog uchod.

² Cf. y dyddiad 1360 a gynigir gan Ifor Williams yn IGE² lxxxiii yn *floruit* tebygol ar gyfer Iorwerth ab y Cyriog. Diweddar iawn yw’r flwyddyn 1400 a gynigir fel dyddiad ar ei gyfer gan John Davies Mallwyd yn ei restr o feirdd ar ddiwedd D.

³ Gw. GDG³ 88–9 (cerdd 31) ac ymhellach y nodyn cefndir i gerdd 5 isod.

⁴ Gw. R.G. Gruffydd, *Dafydd ap Gwilym* (Caernarfon, 1987), 20–2.

⁵ Gw. GSRh 4 ac am y farwnad, *ib.* cerdd 2.

⁶ Gw. *ib.* 2.75 *Gwae ger Môn o feirddion fyrdd.*

yw'r awdl 'I Dduw'. Y mae'r modd y myfyria'r bardd ar oblygiadau diwedd oes a'r Farn yn awgrymu mai bardd aeddfed a'i canodd, a hynny, o bosibl ar ôl ymneilltuo i dŷ crefydd. Ni wyddys dim am Efa, gwrthrych yr ail awdl isod, heblaw ei bod yn trigo ym Meirionnydd. Molir hi'n helaeth am ei harddwch, ei haelioni a'i thras uchel a chwyna'r bardd am ei wewyr gan nad yw hi'n ymateb i'w serch. Diolch i'w gariad am gae, sef clasb aur a maen gwerthfawr ynddo, a wneir yn 'I ddiolch am gae' ac, fel y gwelir isod, y mae'r gerdd yn bwysig iawn gan iddi gael ei chrybwyll gan Ddafydd ap Gwilym. Gwrthodwyd y ddau gywydd olaf yn bennaf ar sail eu cynnwys ac am fod yr ieithwedd ynddynt yn fwy nodweddiadol o'r bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg yn hytrach na'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Cywydd marwnad i Einion ap Seisyll, uchelwr a drigai ym Mathafarn ger Llanwrin yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif, yw'r cyntaf; cywydd dychan i dŷ rhylllyd a digroeso yn Nrws-y-nant, eto ym Meirionnydd, yw'r ail.

Fel y nodwyd eisoes, crybwyllir Iorwerth mewn dwy ffynhonnell arall heblaw ei gerddi, ac y mae'r rhain yn bwysig gan eu bod yn cynnig inni ddwy wedd wahanol arno. Y gyntaf yw awdl farwnad Sefnyn iddo, a gedwir yn Llyfr Coch Hergest.⁷ Fel sy'n gyffredinol wir am farwnadau'r cyfnod, cerdd o fawl yw hon yn ei hanfod ac, er bod elfen gref o alar ynddi, yr hyn a erys yn y cof yw mawl a pharch didwyll Sefnyn at Iorwerth. Sonnir amdano fel bardd hyddysg yn y grefft farddol, ac yn benodol am ei feistrolaeth ar ganu Aneirin, *Medd cyhoedd milioedd molawd—Aneirin*;⁸ bu hefyd yn gyfaill i'w gyd-feirdd ac yn bennaeth ei grefft, *Brawd ffydd pob prydydd, pab, priodawr—gwawd*.⁹ Ni chyfeirir at Iorwerth fel pencerdd fel y cyfryw, ond awgrymir mai dyna ydoedd a bod Sefnyn yn lleisio galar ei gyd-feirdd o golli eu hathro barddol:¹⁰

Nid rhyfedd (trosedd traserth—trais galar
Tros golofn cerdd brydferth
A marw ein bardd mawrenw berth)
Ymarwain deigr am Iorwerth.

Molir Iorwerth yn ogystal am ei letygarwch a'i haelioni wrth heilio gwin ac awgryma hyn ei fod yn perthyn i ddosbarth cymdeithasol uchel. At hynny, rhaid cofio bod tystiolaeth i Ronw Gyriog, ei dad, ddal tir ym Môn yn 1317, a'r tebyg yw fod Iorwerth yntau wedi bod yn dirfeddiannwr. Awgrymir yn y farwnad yn ogystal fod Iorwerth mewn urddau eglwysig.¹¹

⁷ R 1261; am olygiad o'r awdl, gw. GSRh cerdd 2.

⁸ GSRh 2.7.

⁹ *Ib.* 2.31.

¹⁰ Gw. GSRh 2.47–50 a tt. 27–8.

¹¹ GSRh 2.43–4 *Digrifwch, diau grefydd, / Dwygrefft bardd urddedigrodd* a gw. ll. 44n lle y derbynnir awgrym Ifor Williams yn IGE³ lxxxiii.

Nid yw'r darlun o Iorwerth a geir gan Ddafydd ap Gwilym yn ei gywydd 'Cae Bedw Madog' mor ganmoliaethus. Gwelir yno i Iorwerth gael ei gyhuddo o ganu cerdd i'w gariad yn gyfnewid am aur ac arian, gan awgrymu mai er mwyn ennill cyfoeth materol yn hytrach nag er mwyn ennill cariad y ferch y canai Iorwerth yn bennaf.¹² Fel yr awgrymodd Ifor Williams, y mae'n dra thebygol mai cyfeirio'n benodol a wna Dafydd yma at gywydd Iorwerth 'I ddiolch am gae'.¹³ Dengys hyn fod canu Iorwerth yn wybyddus i feirdd eraill ei gyfnod a'i fod yn fardd o bwys. Tybed a esgorodd dychan Dafydd ar ymryson sydd bellach wedi ei golli, ac ai hwnnw yw'r ymryson y cyfeiriodd Sefnyn ato yn ei farwnad?

Gwyddiad ffyrf amryson
Dafodiog beirdd difudion.¹⁴

Ceir y testun cynharaf o awdlau Iorwerth (cerddi 3 a 4) yn Llyfr Coch Hergest yng ngholofnau 1285–7, wedi ei godi *c.* 1400 gan Hywel Fychan.¹⁵ Diddorol sylwi bod ychydig linellau o gerdd 4 yn cael eu dyfynnu yn fersiwn llawysgrif J 15 o 'Ramadegau'r Penceirddiaid', a bod y darn, i bob golwg, yn tarddu o ffynhonnell annibynnol ar y Llyfr Coch. Mwy cymhleth yw hanes llawysgrifol y cywydd o eiddo Iorwerth ab y Cyriog, a'r ddau gywydd yn yr Atodiad, ac nid yw'r un o'r testunau hynny'n hŷn na'r unfed ganrif ar bymtheg.

¹² Trafodir hyn ymhellach yn y nodyn cefndir i gerdd 5 isod.

¹³ I. Williams, 'Cywydd gan Iorwerth ab y Cyriog', B i (1921–3), 53–4.

¹⁴ GSRh 2.72–3.

¹⁵ Gw. G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LIGC xxi (1979–80), 255.

- 4 Brenin gorllewin, Gŵr a'n llywia,
Broydd a gorthir brig tir *terra*,
Breiniol Nen dwywol, na'n difa—erom
Yni benytiom iawnboen etwa.
- 8 Braisg Iôr, Dôr dwyrain, cain amcana
(Brwysgedd aelawedd ynn na liwa)
Brychau eneidiau, Iôn, oeda—cywyd
(Bryd pawb yw gwrthyd) a'u gwarthaa.
- 12 Beirniad byd, ein Tad, cofiad cyfa,
Barniawdr, Amherawdr, meirw obeithfa,
Bernych pan rennych, wŷr Anna,—arnam,
Y cam rywnaetham na rynoetha.
- 16 Barn Trugar, ein Câr, côr lewychfa,
Oedd raid i weiniaid ar ddiwanfa;
Berny y ceffy coffa—er gallu,
I ddial, Iesu, na ddilysa.
- 20 Brwysg ofalon dall ein gwellygfa,
Bwrw ddysg i'n mysg, ynfyd grynfa,
Bwrw fendith i'n plith, pletha—ddwywolder,
Nêr, na rysomer rhai ysy 'ma!
- 24 Bwriaf i weddi ym a wedda,
Bwrwyf i gennyf gennyf y da;
Pan fo amser, Nêr, nertha—wrth angau,
Y synhwyrâu mau, mawr wellaa.
- 28 Un wyf a hanwyf o hen Efa,
Ynof nawd pechawd, pechais ddirdra;
Un wyd a hanwyd (dyuna—â'm plaid)
O Fair, ras enaid fawr reisina.
- Yn y Farn gadarn gydgymanfa,
Yn y Frawd barawd buredigfa,

32 Yn y fro y bo pob traha—yn gorffen,
Yn y fên, fy Rhên, mae rhaid noddfa!

36 Adrodd, dioer dir, a wneir yna
Geir bron Creir crog Calfaria;
Edrych na lysych, *O et Alpha*,—fi,
Er dy bum weli, Geli, gwylia!

40 Fy Arglwydd cyflwydd a'm cyflea,
Fy erglyw'n cyfyng, yn yng a wna;
Fy Eurgledd mawredd, Maria—a'i gwnaeth,
A'm rhoes hoeddl ddigaeth, ffraeth y'm ffrwytha.

44 A'm rhydd fy Nofydd nef orffwysfa,
A'm rhoddes hoywles haul a *luna*;
A'm rhoddwy obrwy Ebrëa—fawredd,
A'm rho trugaredd a diwedd da. Amen.

48 Diwedd glân a eddewis,
Diben rhwydd, da pan rhoddes
Fy enaid ym o rym ras
Ynof, Duw o nef, *Deus*.

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 92^r B—J 111, 1285 C—LIGC 2002C [= Pant 33], 146
D—LIGC 4973B, 139^r E—Llst 133, 268 F—Llst 145, 122

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni.

Wrth ochr y gerdd yn llawysgrif D ysgrifennodd John Davies *Ex^r per Ll.C.*, sy'n awgrymu iddo gymharu ei destun ag eiddo'r Llyfr Coch, ond nad y Llyfr Coch oedd ei ffynhonnell. Dangosodd Jenny Rowland mai llawysgrif Siôn Dafydd Rhys, Peniarth 118, oedd ffynhonnell John Davies ar gyfer nifer o gerddi. Fodd bynnag, nid yw'r cerddi ar ff. 134^r–195^v llawysgrif John Davies yn Peniarth 118, ac awgryma Rowland un ai bod y darn a'u cynhwysai wedi mynd ar goll, neu ynteu fod rhai ohonynt, yn enwedig y cerddi ar ff. 132^r–149^r, yn tarddu o ryw ffynhonnell anhysbys arall, a oedd yn ei dro yn tarddu o Lyfr Coch Hergest.¹

Yr oedd Siôn Dafydd Rhys, fel John Davies yntau, yn cywiro testun ei gysail ac y mae'n dra phosibl mai ef yn hytrach na John Davies sy'n

¹ Gw. J. Rowland, 'The Manuscript Tradition of the Red Book *Englynion*', SC xviii/xix (1983–4), 84–5.

gyfrifol am y diwygiadau a nodir yn y nodiadau. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 159–62.)

Darlleniadau'r llawysgrif

2 breid. 3 Benna6l. 8 grwthyt; g6archaea. 10 barnya6t. 24 wella. 27 dyhunaf. 29 gyt gymynua. 33 yna awneir. 35 llesych. 37 a kyflea.

Teitl

Iorwerth vab y kyrrya6c weithyon.

I Dduw

- 4 Brenin [y] Gorllewin, [y] Gŵr a'n llywodraetha,
 [Brenin] broydd ac ucheldir uchelfan tir *terra*,
 Urddasol Arglwydd dwyfol, er ein lles paid â'n dinistrio nes
 Y penydiom eto [mewn] poen haeddiannol.
- 8 Arglwydd praff, Amddiffynnydd [y] Dwyrain, bydd yn dda dy
 fwriad
 (Paid â dannod inni amllder [ein] rhyfyg)
 [Tuag at] frychau [ein] heneidiau, Arglwydd, gohiria arfaeth
 (Y mae meddwl pawb [yn disgwyl] wrthyt) a'u hamharcha [i.e.
 yr eneidiau].
- 12 Barnwr byd, ein Tad, cofiwr perffaith,
 Awdur barn, Ymherawdr, gobeithfan [y] rhai marw,
 Boed iti ystyried pan ddsberthi arnom, wŷr Anna,
 Y camwedd a gyflawnasom na ddinoetha.
- 16 Barn y Gŵr tosturiol, ein Cyfaill, man goleuni mintai,
 Oedd yn anghenraid i[r] rhai gwan ar gyfeiliorn;
 Berni y cei goffâd ar gyfrif [Dy] nerth,
 Er mwyn dial, Iesu, paid â[i] wrthod [Ef].
- 20 Ein diystyrwch, [ffrwyth] gofidiau grymus dall yw,
 Bwrw ddysg i'n mysg, [yn ein] ffôl gryndod,
 Bwrw fendith i'n plith, gweithia dduwioledeb [o'n cwmpas],
 Arglwydd, na thwyller y rhai sydd yma!
- 24 Cyflwynaf i weddi sy'n gweddu imi,
 Boed i mi fwrw [i.e. dderbyn] ataf y da gennynt;
 Pan ddaw'r amser, Arglwydd, nertha [fi] ar gyfer angau,
 Fy synhwyrau, gwella [hwynt] yn fawr.
- 28 Un wyf [i] sy'n hanfod o[r] hen Efa,
 Y mae ynof anian pechod, cyflawnais bechod anfadrwydd;
 Un wyt [Ti] sy'n hanfod (cytuna â'm hachos)
 O Fair, frenhines o ras mawr enaid.
- 32 Yn y Farn [bydd] cadarn gydgynulliad,
 Yn y Frawdle [bydd] parod buredigaeth,
 Yn y fro lle y bydd pob gormes yn darfod,
 Yn y fan [honno], f'Arglwydd, y mae'n rhaid [wrth] noddfa!

Adrodd, [y] wlad gynnes, a wneir yna
 Gerbron Anwylyd croes Calfaria;
 Edrych na wrthodi fi, [O] *O[mega] et Alpha*,
 36 Edrych yn fanwl, er mwyn dy bum clwyf, Arglwydd!

F'Arglwydd buddugol a drefna le i mi,
 [A] gwranddo arnaf yn ein cyfyngder, mewn cyfyngle a wna;
 40 F'Arglwydd dethol [llawn] urddas, Marïa a'i parodd [Ef],
 A roddodd einioes rydd i mi, parod y daw â nerth i mi.

Bydd f'Arglwydd yn rhoi gorffwysfa yn y nef i mi,
 Rhoddodd imi fudd tirion [yr] haul a[r] *luna*;
 44 Boed iddo roi imi wobr [y] mawredd [?a nodir yn yr] Hebraeg,
 Boed iddo roi trugaredd a diwedd da imi. Amen.

Diwedd sanctaidd a addawodd [imi],
 Diwedd esmwyth, da oedd pan roddodd [Ef]
 48 Fy mywyd imi drwy rymus ras
 Ynof, Duw o nef, *Deus*.

4
I Efa

- Mi a baraf i ddyn araf
O'r a garaf rwyf o gerydd
Am f'eniwo, wyf bronfriwo,
4 A'm diliwo, myn Duw Lywydd!
Mae dy warant (mawr dy farant,
Mwyn feilch garant maen feilch geyrydd)
I lyfasu fy lliwlasu
8 A'm lleasu, em lluosydd?
Gwant fi'n druan, gwayw nwyf buan,
Gwynder huan, gwindai riydd,
Gwen addfwynaf, gwÿd ddirwynaf,
12 Gweddgain gwynnaf, gwedd gwawn gweunydd.
Gwn na'm cery, gwan y'm pery,
Gwas y'th ery, gwÿs y'th dryydd
Grawd foliannus, gwaith llwyddiannus,
16 Gwae dygiannus, gwiw dy gynnydd!
Heais eiriau, haul cadeiriau,
Hafal creiriau hyfawl croywrydd.
Hyn a wneddyw, yt y doddyw
20 Gair yt heddyw: gorwyd, hoywddydd!
Yt f'eidduned, wyd ddamuned,
Eilwedd Luned, wyl weddw lonydd;
Uthr ddoluriais, o'th serch curiais,
24 Y llafuriais fy lleferydd;
Llywiau awen, llwybr pêr awen,
Efa lawen yw f'eilewydd,
Lleddf englynion, lliw rhos gwynion,
28 Lloer morynion llawr Meirionnydd.
- Gwawrddydd Meirionnydd, mawr anawdd—y'm nwyf,
Gwynbryd nyf cyn datawdd;
Gwÿd a gofal a'm talawdd,
32 Gwawn liw, och heddiw o'i chawdd!

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 93^r B—Card 4.140, 685 C—J 15, 111 (llau. 1–2 a 7–8)
 D—J 111, 1286, E—LIGC 1984B [= Pant 15], 87 F¹—LIGC 4973B, 140^r
 F²—LIGC 4973B, 148^v G—Llst 133E, 268 H—Pen 82, 300

Dyfynnwyd llinellau 1–2, 7–8 yn nhestun llsg. C o ‘Ramadegau’r Pen-ceirddiaid’.

Y mae testun llawysgrifau A, E, F¹, F² a G i gyd yn tarddu yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o destun llawysgrif D. Y tebyg yw mai hon hefyd yw ffynhonnell llawysgrif H, ond y mae nifer iawn o amrywiadau yn y testun gweddol gynnar hwnnw, a dangosir y rhai pwysicaf isod.

Ar bwys y ddau gopi o’r gerdd yn llawysgrif F, nododd John Davies *Ex’ per Ll.C.*, gan awgrymu nad y Llyfr Coch oedd ei ffynhonnell. Y mae’n bosibl mai darn coll o gopi Siôn Dafydd Rhys o gerddi’r Llyfr Coch, Peniarth 118, oedd y ffynhonnell honno, cf. y nodyn ar llawysgrifau cerdd 3 uchod. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 159–62.)

Amrywiadau

1 *C* I’m gwenn araf. 2 *C* gann a garaf, *H* ar a garaf; *C* Gain o gerydd, *H* arwy gerydd. 3 *H* i fron friwio. 6 *H* mwyn ith garant; *H* faith gerydd. 7 *C* Am lyvassv Vy niflassv. 8 *H* om llyosydd. 9 *H* gweddw gweddw nwyf bvan. 10 *H* gwander hvan; *H* rrydd. 11 *H* addwynaf gwydd di fwynaf. 12 *H* gweddw gain ganaf. 14 *H* gas ath ery gas ith riydd; *D* ythyryd. 17 *H* hely gadeiriav. 18 *H* hoiw fawl. 19 *H* deddyw. 20 *H* gwryd. 22 *H* eilwedd lvniedd. 24 *H* a llafvriais. 26 *H* wyf ail ewydd.

Trefn y llinellau

H 29–32, 1–28.

I Efa

- Fe achosaf i ferch fwyn
 O blith y rhai a garaf [ddioddef] digonedd o gerydd
 Am fy niweidio, yr wyf yn brifo [yn fy] mron,
 4 A dwyn fy lliw, myn Duw[’r] Llywydd!
 B’le y mae dy awdurdod (mawr yw dy gyfoeth
 [A’th] berthnasau urddasol [a] thirion [mewn] ceirydd cerrig
 ardderchog)
 I feiddio fy ngwneud yn laswelw
 8 A’m llethu, perl llaweroedd?
 Gwanodd fi’n druenus, gwewyr [o] angerdd sydyn,
 [Hyhi sy’n] ddisgleirdeb heulwen, brenhines gwindai,
 [Y] ferch dlos addfwynaf [sy’n peri’r] niwed mwyaf arteithiol [i
 mi],
 12 Y ddisgleiriaf [o ran] ffurf gain, [o’r un] wedd [â] phlu[’r]
 gweunydd.
 Gwn nad wyt yn fy ngharu, yn wan y peri [di] imi fod,
 Yn llanc y mae’n ymaros â thi, yn wÿs y rhydd i ti
 Farddoniaeth glodforus, gwaith llwyddiannus,
 16 Gwae ?effeithiol, rhagorol yw dy oruchafiaeth!
 Taenais [dy] glod, haul penaethiaid,
 Megis creiriau clodwiw disglair a hael.
 Hyn a wnaeth [y bardd], i ti y daeth
 20 Gair ar dy gyfer heddiw: yr wyt wedi rhagori, [yr un sydd fel]
 dydd disglair!
 Amdanat ti y mae fy nyhead, [fy] nymuniad wyt,
 Un debyg i Luned, y ferch weddw dirion a thawel;
 Gofidiais yn aruthr, oherwydd dy serch y nychais
 24 [Ac] y dygn weithiais fy lleferydd;
 Cyfeiriaf [f’]awen, [ar hyd] cwrs awen felys,
 Efa lawen yw fy nghân,
 Englynion trist [i’r un o] liw rhosynnau gwynion,
 28 Lloer [ymhlith] morynion gwastatir Meirionnydd [ydyw].

 [Un o degwch] codiad haul Meirionnydd [yw hi], yn anodd y’m
 cynhyrfa,
 [Un o] degwch gwyn eira cyn meirioli;
 Rhoddodd imi hiraeth a phoen meddwl yn dâl,
 32 O liw gwawn [ydyw], och heddiw oherwydd ei digofaint!

I ddiolch am gae

Ierwerth druan ddioerwas,
 Erioed ni bu drwg ei ras.
 Arwain aur a main y mae
 4 Ar ungair mewn ariangae;
 Ar ei ddwyfron, ar ddyfrys,
 Erddo y bydd croeso crys.
 Urddas i'r ferch ddiweirddoeth
 8 A roddai'r cae rhuddaur coeth!
 Erddi nid oes ym ordderch,
 Oer yw na syrth arni serch.
 Ar eiriau mawl yr euraf
 12 Arwyrain hon, oroen haf.
 Eiry nawnyf oerin Ionawr,
 Eurwn ei gwawd, oroen gwawr.
 Euron hil, arian hoywliw,
 16 Eurwn ei gwawd ar enw gwiw.
 Y rhaiin ddiorhëwg
 Â'r ael ddu (urael a ddwg)
 A roes ym (llyna ras hoyw),
 20 Yr em oleulem liwloyw,
 Arwydd serchog a oryw,
 Arwystl serch, erestlws yw.
 Aerwy gwydr yw ar gadach,
 24 Euryn bychanigyn bach.
 Oerfel ar a ddêl o ddyn
 I eiriol ym roi euryn!
 Eurwr wyf aur Arafia,
 28 Er ofn neb ni rof fy na.
 Oedd afraid peth i ddwyfron
 A dynnai haint i dan hon.
 Balchach wyf gilio'r bolchwydd
 32 O'r cylla rhwth, cawell rhwydd:
 Odid iddo ruo rhawg
 O wyrthiau main mawrwerthawg!
 Gwyrthiau a rô'n', gwerth aur ýnt,
 36 Ac odidog od ydynt.
 Yma maen, mae i'm mynwes,
 Anaml yw, a wnâi ym les.

- 40 Meddyg, a wnâi modd y gwnaeth,
Myddfai, o châi ddynd meddfaeth.
Iach yw'r galon hon yn hawdd:
Hi â'i chae a'i hiachaawdd!
44 Gorau fu ym, neur gerais,
Gorau fu ef ar gorf ais.
Ni ohiriai, lle bai ben,
Gyhyrwayw gan gae hirwen,
Mwy nog y trig, mynog traul,
48 Rhew neu eiry ar hin araul.

Ffynonellau

A—BL Add 14964, 66^r B—BL Add 14967 [= RWM 23], 72^f (xxxviii, v)
C—BL Add 14994, 111 D—LIGC 1983B [= Pant 14], ii, 2 E—LIGC
3050D [= Mos 147], 43 F—LIGC 17114B [= Gwysanau 25], 166 G—Pen
240, 62

Ceir ffotostat o'r ddalen sy'n cynnwys y gerdd yn llsgr. B yn LIGC 21291E
[= Iolo Aneirin Williams 5], 1 ac yn Pen 221 ceir mynegai gan John Jones
Gellilyfdy lle y nodir dwy linell gyntaf y gerdd a'i phriodoli i Iolo Goch.
(Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 159–62.)

Amrywiadau

1 C drwyadl. 4+ C Ba wr unrhol ag Iolo / Ddefod hardd hoywfardd y fo. 6 D
bu. 7 C or. 8 F ai. 9 B nes; C yn. 10 C O ryw. 11 C Ar araith. 13 EF erddi
mawn; C oerni. 14 A a gwawd, C a gwaed. 15 C hael. 21 F i serch, E oi
serch *gydag* oi *mewn llaw ddiweddarach*. 22 AD Arwyst; C erestlys, E
arestlws. 23 C Arwy *gydag* *δ uwchben yr y*; C gwydrain ar. 26 C I eiriol
rhodd or eurynd; AD eiril. 27 A Eurwar; C aur aurafia. 29 ACDEF ir
ddwyvron. 31 C A balch; C giliaw balchwydd. 32 C Y cylla. 34 F y main;
EF mawr wyrthiawc. 36 EF gwyrtioac ac oedioac ydynt. 37 C Mae maen
yma; B mae ymynwes. 38 ADG anaml liw, EF amyl yw; AD wnai les, C
wna les, E wnai ymi les. 39–40 [EF]. 42 E am iachaodd, F ai iawchawdd. 43
EF yn neur gerais. 44 C yw ef, F vvt ef; C ar gwrr ais, EF ar gorf vais. 47 C
mynag. 48 EF vronn aravl.

Teitl

A Cy merch i ddiolch am Fodrwy allan o lyfr P Panton yswain. B Mawl
merch i ddiolch iddi am fodrwy (*llaw ddiweddar*). C Cywydd a gant Dafydd
ap Gwilym i ferch o Went a roesai gae euraid yw gyfaill anwyl Iolo Goch
Prydydd o Wynedd. Iolo goch med Iolo No. 3. D Cywydd mawl merch i
ddiolch am fodrwy. EF kowydd y kae. G C. mawl merch a diolch iddi am
fodrwy aur.

Olnod

BDEFG Iolo goch ai kant, *C* Dafydd ap Gwilym.

Trefn y llinellau

C 1–2, 4–3, 5–18, 20–19, 21–48.

I ddiolch am gae

- Iorwerth [y] llanc tirion truan,
 Ni bu erioed yn wael ei ffafr.
 4 Cario aur a cherrig gwerthfawr y mae
 Yn union mew'n clasb arian;
 Ar ei ddwyfron, ar unwaith,
 O'i blegid bydd croeso [gan ei] grys.
 [Boed] urddas i'r ferch ddihalog a doeth
 8 A roddai'r clasb o aur coch cain!
 O'i phlegid [hi] nid oes imi gariad,
 Trist yw na ddaw serch i'w rhan.
 Â geiriau mawl yr addurnaf
 12 Folawd [i] hon, afiaith yr haf.
 [Y ferch o bryd] eira naw cawod eira tywydd oer Ionawr,
 Addurnwn ei moliant, [y ferch ag] afiaith y wawr.
 [Un o] hil Euron, o liw gloyw arian,
 16 Addurnwn ei moliant â chlod gwiw.
 Y ferch fwyn
 Â'r ael ddu (y mae'n gwisgo lliain main)
 A roddodd imi (dyna anrheg hardd),
 20 Yr em olau danbaid o liw gloyw,
 Arwydd serchog a wnaeth [y ferch],
 Ernes o serch, tlws hynod ydyw.
 Coler o wydr yw ar gadach,
 24 Tlws aur bychan bach.
 [Deued] oerni ar ba berson bynnag a ddaw
 I erfyn arnaf roi[r] tlws aur!
 Gof wyf [yn trin] aur Arabia,
 28 Ni roddaf fy eiddo oherwydd ofn unrhyw un.
 Dianghenraid oedd unrhyw beth i ddwyfron
 A ddygai haint o dan hon.
 Yr wyf yn fwy llawen am gilio'r chwydd bol
 32 O'r ystumog lwth, cawell agored:
 Peth rhyfedd [fyddai] iddo ruo bellach
 Oherwydd rhinweddau iachusol [y] cerrig drudfawr!
 Gwnânt wyrthiau, gwerth aur ydynt,
 36 A rhyfeddod [a] hynod ydynt.
 Yma y mae gem, y mae yn fy mynwes,
 Prin ydyw, a fyddai'n gwneud lles imi.
 Byddai Meddyg Myddfai'n gwneud fel y gwnaeth
 40 Pe bai person bonheddig yn ei gael [i'w drin] (?).
 Iach yw'r galon hon yn rhwydd:

Hi â'i chlasb a'i hiachaodd!

- 44 Gorau fu [hi] imi, yr wyf wedi ei charu,
[Y peth] rhagoraf fu ef ar gleidr dwyfron.
Ni fyddai'n aros, lle y byddai [ef] yn uchaf,
Boen cyhyr o achos clasb y ferch dal a hardd,
48 Ddim mwy nag yr erys, tywysog gwariant [ydyw],
Rew neu eira ar dywydd heulog.

Atodiad i

Marwnad Einion ap Seisyll o Fathafarn

- 4
8
12
16
20
24
28
32
- Awst y llas 'y nghastell i,
Eilon dof o lan Dyfi,
Pan fu ymgyrchu gorchest
'Eb rydu'r ffyn a brwydr ffest
Rhwing Cyfeiliog, enwog oedd,
Ac Arwystli, torri tiroedd;
Yno Einion a enynnodd
At un fu y tân o'i fodd.
- Ein catben a'n pen a'n parch
A'n paun cof a'n pen-cyfarch
A fu Einion i'w fonedd,
Pennaeth farn pan aeth i'w fedd.
Rhagorodd yn rhyw gerrynt
O'u blaen, y gwŷr blaena' gynt;
Ymdrechodd, trawodd at rai,
Â rhyw filwyr rhyfelai;
Ei friw a gas, Efrog oedd,
Fry dwedynt, a'i frad ydoedd.
- Gŵr oedd Einion gwrdd enwog,
Câr i'r Iarll fu'n curo'r og,
Aer Seisyllt a rôl'r siasoedd,
Aur lew du ar ei wlad oedd;
Gŵr march a grym o'i orchwyl
I goethi gwŷr gwaith a gŵyl;
Ac onnen fraisg, Einion frau,
A roes hwn ar eu 'sennau.
- Pan laddwyd hwn, gwn y gwir,
Lladd cenedl, lluoedd cwynir;
Mathafarn, gadarn gydwedd,
Mewn aur gynt, y mae'n oer ei gwedd;
Dwylan Dyfi'n gweiddi'n goch,
Y deg ynys du gwynoch;
Llanwrin, pob lle'n oeria,

- Clai yw pob llu, clo du iâ.
 Gwae'r chwe llan, gwyddan' i gyd,
 36 Gwae filoedd mewn gofalfyd,
 Machynlleth am ei chanllaw
 A'i llew-was drud y'i llas draw;
 Dwyn Einion deunaw ynys,
 40 Duw lwyd a fu'n duo'i lys!
 Pe cawsai Gwalchmai y gwŷr,
 Raith moliant, gyfraith milwyr,
 Gŵr â gŵr, milwr moliant,
 44 Gwir yw'r gwir, y gair ar gant,
 Ni laddesid, gwrid gredens,
 Wŷr gwyn ffyrf er gwayw na ffens.
- Ei fardd, oeddw'n, fwrdd iddaw,
 48 A'i frawd maeth, a'i air draeth draw;
 Yn wylo byth yn ôl bod
 Yr wyf yma ar f'amod:
 Ymlid fy rhoddion amledd,
 52 Llanwrin, ar fin ei fedd;
 Gwyllo fyth a'i gwelwyf fo
 A gosod bob awr i'w geisio.
 Yntau'n fud, nid â yn fardd,
 56 Yn y tyfod, nod hoywfardd!
- Nef i Einion a fynnai,
 Felly byth, a fu lle bai;
 Ac i'w fab arab irwych,
 60 Doed ar hwn dau oed yr hych.
 Cwypai elyn campolaeth
 A'u llusgo'n ffrom, llosgi'n ffraeth:
 Bo i Ronw bower einioes
 64 A bid i'w ran bedair oes;
 Byth i Einion, byth annwyl,
 Yno fwy rhan, nef yr wŷl!

Ffynonellau

A—BL Add 14964, 27^v B—Card 2.623 [= Hafod 13], 113^v

(Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 159–62.)

Amrywiadau

10 *A* pen cyfarth. 32 *A* dy gwynoç. 40 *A* Duw lwyd fu'n duo i lys. 48 *AB* maeth air draeth (*efallai y dylid darllen aur yn B*). 53 *A* gwelwf. 56 [*A*]. 60 *B* oed y rych *gydag yr hy*[] *ar ymyl y ddalen*. 63 *A* Ronwy. 66 *B* yn ofwy.

Teitl

A Mar. Einion ap Seisyllt, *B* Marwnad Einion ap Seisyllt o waith Ierth Cyriog, Fardd Cadeiriog.

Olnod

A Iorwerth Cyriog vard Cadeir[].

Marwnad Einion ap Seisyll o Fathafarn

- [Yn] Awst y lladdwyd f'amddiffynfa i,
 Carw hywedd o lan Dyfi,
 Pan fu ymosod [gyda] gwrhydri
 4 Heb rydu'r gwaywffyn a brwydr chwim
 Rhwng Cyfeiliog, enwog ydoedd,
 Ac Arwystli, [bu] goresgyn tiroedd;
 Yno Einion o'i fodd a enynnodd
 8 Y tân at un a fu.
- Ein cadfridog a'n pennaeth a'n parch
 A hardd-ddyn ein bryd a'n pennaf cais
 A fu Einion i'w gyff,
 12 [Un a chanddo] farn pennaeth pan aeth i'w fedd.
 Blaenorodd ym mhob cwrs
 O'u blaen [hwy], y gwŷr blaenaf gynt;
 Ymdrechodd, ymosododd ar rai,
 16 Â milwyr o'r fath y rhyfelai;
 Ei glwyf a gafodd, [un cyffelyb i] Efrog ydoedd,
 Fe ddywedent fry, a'i fradychiad oedd.
- Arwr oedd Einion dewr [ac] enwog,
 20 Cydymaith i'r Iarll a fu'n curo [i.e. yn dianc drwy]'r porthgwllis,
 Etifedd Seisyll a gynhaliai'r ymlidiau [mewn brwydrau],
 Llew du euraid ar ei wlad ydoedd.
 Marchog gyda chadernid [yn dilyn] o'i orchwyl
 24 I erlid gwŷr [adeg] gwaith ac [adeg] gŵyl;
 A gwaywffon nerthol, Einion hael,
 A wanodd hwn drwy eu hasennau.
- Pan laddwyd hwn, gwn [mai hyn yw]'r gwir,
 28 [Bu] lladd tylwyth [cyfan], yn lluoedd y cwynir;
 Mathafarn, [y] cyfaill cadarn,
 [Oedd] mewn aur gynt, [y mae] bellach yn oer ei gwedd;
 [Y mae] dwy lan Dyfi'n gweiddi'n waedlyd,
 32 [Gan] yr ynys deg [y mae] ochain cwynfanus [a] thywyll;
 [Yn] Llanwrin, [y mae] pob man yn iasoer,
 Clai yw pob llu, [â] tho o iâ du.
 Gwae'r chwe phlwyf, teimplant i gyd [y gwae],
 36 Gwae[r] miloedd mewn byd pryderus,
 Machynlleth am ei chynheiliad
 A'i llew o wŷr ifanc ffyrnig y trawyd ef draw;

[Wrth] gipio Einion [y] ddeunaw ynys,
 40 Bu'r Duw sanctaidd yn tywyllu ei lys!
 Pe cawsai [un megis] Gwalchmai'r milwyr,
 [Farw yn ôl] defod milwyr, cyfiawnder moliant,
 Rhyfelwr yn erbyn rhyfelwr, milwr [y cenir iddo] foliant,
 44 Gwir yw'r gwir, y gair ar gant [*sc.* cystal â chan gair],
 Ni fyddai wedi cael ei ladd, sicrwydd angerdd,
 [Sef y] gŵr bendigedig [a] chadarn er gwaethaf gwaywffon a
 chleddyfwaith.

Ei fardd bwrdd oeddwn iddo,
 48 A'i frawd maeth, a'i draethwr clod draw;
 Wylo'n gyson ar ôl [ei] fod
 Yr wyf yma ar f'amod:
 Ceisio fy lluosogrwydd o roddion
 52 [Yn] Llanwrin, ar lan ei fedd;
 Edrych fyth a fo modd imi ei weld
 A rhoi pob awr i chwilio amdano.
 [Ond] yntau'n fud, nid â yn fardd [mwyach],
 56 Yn y tywod, cyrchfan [pob] bardd hoenus!

Y nef i Einion, [ac] felly am byth,
 [Yr hwn] a hawliai'r hyn a fu pa le bynnag y byddai;
 Ac i'w fab tirion ieuanc a gwych,
 60 Rhodded i hwn [hyd] dwy oes yr hychod.
 Byddai'n peri i'w elynion gwympto [mewn] campwriaeth
 A'u llusgo'n llidiog, [a'u] llosgi'n gyflym:
 Bydded i Ronw fywyd [llawn] grym
 64 Boed i'w ran bedair oes;
 [Boed] bob amser i Einion, [sydd] dragywydd yn annwyl [i mi],
 Gyfran mwy yno, [yn y] nefoedd ar adeg gŵyl!

*Atodiad ii**Dychan Drws-y-nant*

Wrth weled cwthr twred cethr
 Ym mhlas talyrnlas ornlethr,
 Yn aros (nid claerglos clyd)
 4 Ffrainc ar oerfainc ar eirfyd,
 Â chyngor sant, ail iôr Siob,
 Faith rysgyw f'ewythr 'r esgob,
 P'le mae lle waeth y gaea'
 8 Na lle 'dd wy 'n ôl hirnwyl ha'?'
 Dan loer, lle rhyoer rheeidr,
 Drws Nant lle try deucant lleidr;
 Gŵr syn iawn, gaer gorsin iâ,
 12 Oer ddrysfwlch, arw ddrysfâ,
 O drais bell ail Idris boen,
 Ysglaig Cywarchgraig iyrchgroen.
 Lle rhwyf, gwn rhestr gan rhwystr,
 16 Llongau uwch trothau traethwyrstr;
 Llethri dan fersi'r Aran fars,
 Lle dygn, llwybr oersygn eirsians,
 Lle hywedd seirff, lludd a sai',
 20 Llawn rhwd garegnwd greignai,
 Lle mae cas cwthr tyrnas tyrn,
 Llawn gwŷd, gofidfyd fudfyrn,
 Llosgwrn brith restr gallestrgraig,
 24 Llysiant lle bu drigiant draig,
 Lle llyfn, trefn trum can truman,
 Lle llas pen Tomas yn tân,
 Lle y gweled amgyfred geifr,
 28 Lle lles, barugles bridleifr,
 Lle garw lle rhewai farwar,
 Lle y rhyn duryn pob dâr,
 Lliw broch, wybr ddietroch ddietraul,
 32 Lle ni chyfyd hoywbryd haul,
 Lleipr sindro grothgro greithgrece,
 Lle hagsud gan gocsud gece,
 Lle mae ym dyddyn llwm diddestl,
 36 Lle ni chair uwchben gwair gwestl,

40

Llymdir sengl, llethr bardenglwyd,
 Lle ni bu na llyn na bwyd;
 Llu dw a dawdd lleidiau diddim,
 Lle ni bydd na dydd na dim,
 Lle dwys serth, anlladus hwn,
 Llu o'n bodd lle ni byddwn!

Ffynonellau

A—BL Add 10313, 124^v B—BL Add 31056, 180^v C—Bodley Welsh e 2, 269 D—Brog (cyfres gyntaf) 2, 500 E—J 101 [= RWM 17], 668 F—LIGC 3051D [= Mos 148], 359 G—LIGC 8497B, 89^r H—Pen 78, 22

Dyfynnir llau. 33–4 yng Ngeirfa Wiliam Llŷn, c. 1565, a nodir y darlleniadau hynny yn y nodyn ar l. 33 isod. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 159–62.)

Darlleniadau'r llawysgrifau

1 *BF* drwydded. 2 *DE* teiyrnblas; *ACG* oerlethr, *B* mor lethyr. 3 *ACG* clayarglos, *B* claer los. 4 *B* fainc ar; *AC* îr irfainc, *G* yr orvainc, *FH* ar orfainc. 5 *AC* saint; *D* ail sins sior siob, *E* ail sain sior siop, *F* santeiddior siob; *H* alior siop. 6 *A* faith yr ysciw, *CH* faith yr ysciw. 8 *DE* o hirnwyf. 9 *ACG* Yr hwnn dann; *D* lle rhoed, *E* lle rhodd. 10 *BF* lle mae, *G* llei try, *H* lle tyry. 11 *B* ger gorsyn, *E* gadr gorsynn, *F* gar gorsyn. 12 *BDEF* ddiras fwlch. 13 *ABCFG* dras; *E* ai idris, *G* ail i drais. 14 *ACG* is graig, *BF* vwch kraig; *AC* gwar ychgraig; *AC* ieirchgrogen, *D* kyrchgrogen. 15 *ABCDEFGH* Lle ir wyf. 16 *E* gwth trothgar; *BF* trwythav, *G* trethau. 17 *E* llithri; *BFGH* [dan]; *DE* fersi farsiards, *G* aran siars. 18 *AC* aursugn, *B* oer[]yrn siars. 19 *ABCH* lle howeth seirff, *DE* llechwedd seirff, *G* lle howeth siars; *BF* lluddias hav, *D* lluchioedd a sai, *G* ffordd a sai, *H* llv a sai. 20 *ACDEGH* rhwth; *AC* greignwth, *B* garregnawd, *DE* gevrkwnwth, *G* o graignwth; *F* grignai, *H* griknai. 21–6 [BF]. 21 *H* lle muy kath. 22 *AG* hÿd, *C* hÿd; *ACG* gyferfyd, *H* gyfedfyd; *AC* furfyrn, *DE* fadfurn, *H* fvd sym. 23 *AC* lloswr; *DE* gryglestr graig. 24 *DE* lleisiant; *D* drycgant, *E* drychant. 25 *AC* tryfn; *AC* tromgan truman, *DE* trvm kann llvman. 26 *H* benn; *DE* mewn tan. 27 *DEG* amgyffred; *DE* gweiffir. 28 *BF* llai lles; *ACG* baruddes breiddeifr, *DE* barygles bierigfeirff. 30 *D* lle krynn, *E* lle brynn; *B* run d[]ru[]. 31–2 [BF]. 31 *DE* broth; *DE* seroth soravl, *ACG* ddistroch ddystraul, *H* ddesgroch ddigravl. 32 *AC* hoyw hyfryd havl. 33 *AC* eisgro, *H* eisigro, *B* sidndro, *DE* sindrod, *F* seindro; *AC* Grotho, *FG* greithgro; *AC* greithcecs, *F* grothgreccs, *H* greichrekes, 34 *B* hagar hyd; *AC* gen gegsud. 35 *DE* mae eiddil, *BF* mae dyddyn, *H* may dy ddwyn; *DE* llwm eddestl, *H* llwyn difestel. 36 *DEFH* uwch bedd; *GH* gwair heb gwestl. 37 *DE* llythr. 39 *AC* llvddw; *ACD* lle diav, *BF* lldio. 41 *ACH* Lliw dydd serch, *D* lle diserch; *AC* anhadus.

Teitl

A Dychan i'r Tŷ ar lle yr oedd y Bardd yn trigo ynddo y Gaiaf, *B* Cowydd dychan drws nant, *C* Cyw. dychan ir tŷ ar lle yr oedd y bardd yn trigo ynddo y gayaf.

Olnod

ACEGH Ithel ap Rhys ai kant, *D* Ithel ap Rhys, *B* Ior Ciriog, *F* Ierwerth gyrriog ai kant.

Dychan Drws-y-nant

- Wrth weld tu ôl tŵr [fel] pigyn
 Mewn lle glas ei faes [a] dychrynlyd ei lethr,
 Yn disgwyl (nid caeagle disglair a chlyd [mo hwn])
 4 [Y] Normaniaid [yn eistedd] ar fainc oer mewn byd o dan eira,
 Yn dilyn cyngor gŵr duwiol, megis arglwydd Siob,
 Am swcwr maith f'ewythr yr esgob,
 B'le y mae lle gwaeth yn y gaeaf
 8 Na'r lle yr wyf [yn awr] ar ôl asbri maith yr haf?
 Dan loer, lle rhaeadrau oer iawn,
 Drws-y-nant lle y mae deucan lleidr yn ymdroi;
 Gŵr syn iawn, amddiffynfa [a'i] throthwy'n iâ,
 12 Bwlch garw ac oer [ydyw], drysfa flin,
 Gan orthrwm maith tebyg i boen Idris,
 Doethur Craig Cywarch yn gwisgo croen iyrchod.
 Lle y rhwyfa, gwn am restr o gan rhwystr,
 16 Llongau uwch trothwy traeth wystrys;
 Llethrau dan drugaredd goror yr Aran,
 Lle anodd [a] llwybr siars eira oer y sêr,
 Lle y mae seirff yn ddof, rhwystr a saif,
 20 Disgynnydd i'r graig [sy'n] bentwr o gerrig llawn gwaddod,
 Lle y mae rhefr teyrnas brenin yn gas,
 Llawn drygioni, pentyrrau mud [o gerrig sy'n] fyd o ofid,
 Cynffon crib lwyd [y] graig gallestr,
 24 Gwrthodedigaeth lle y bu lloches draig,
 Lle llyfn, [a'i] ffurf [fel] cefnen [uwchlaw] can bryncyn bychan,
 Lle y torrwyd pen Tomos yn y tân,
 Lle y gwelwyd tyrru geifr ynghyd,
 28 Lle sy'n llesol, yn llesol o ran barrug i ysgyfarnogod y brig,
 Lle garw lle y rhewai golosg,
 Lle y rhynna brig pob derwen,
 O liw mochyn daear, cwmwl dicllon wedi ei dreulio a'i drychu,
 32 Lle nad yw gwedd siriol yr haul [byth] yn codi,
 Lliprynaidd yw[r] twmpath graean a'i dro fel eisin a'i graciau
 fel creithiau,
 Lle o fath hagr oherwydd cegid [y] llannerch,
 Lle y mae i mi dyddyn llwm afluniaidd,
 36 Lle ni cheir cyffro [gwynt] uwchben gwair,
 Tir llwm syml, lethr [â] rhwystr deg o glwydi,
 Lle ni bu na diod na bwyd;
 Llundw sy'n toddi lleidiau diwerth,
 40 Lle ni bydd na golau dydd na dim,

Lle caled [a] serth, dirinwedd yw[’r lle] hwn,
Lle yw na byddwn yn llu o’n bodd!

Nodiadau

3

Dyma'r unig awdl grefyddol a gysylltir ag enw Iorwerth ab y Cyriog ac, o ran ei themâu, y mae'n gwbl nodweddiadol o awdlau crefyddol y Gogynfeirdd, gyda'i phwyslais trwm ar bechod sylfaenol dyn (*ynofnawd pechawd*, ll. 26), a'r angen i edifarhau a derbyn maddeuant cyn Dydd y Farn, er mwyn gallu marw'n dda (*A'm rho trugaredd a diwedd da*, ll. 44).

O ran ei chynnwys y mae'n ymrannu'n fras yn ddwy. Yn y rhan gyntaf (llau. 1–20) y mae'r bardd yn cyfarch Duw a Christ yn uniongyrchol, gan ddefnyddio'r llais cyntaf lluosog i ymbil am drugaredd ar Ddydd y Farn, am ddysg, bendith a duwioldeb. Ceir trobwynt yn y chweched gwawdodyn, gyda'r bardd yn nodi ei fwriad personol i weddio, ac y mae gweddill y gerdd, hyd at yr englyn olaf, yn weddi a gyflwynir yn y person cyntaf unigol: mynegir addewid y bardd i ymwrthod â phethau bydol, a'i ddeisyfiad am gael ei gryfhau'n ysbrydol a'i dderbyn i'r nefoedd.

O gofio'r awgrym cryf a gafwyd yn awdl farwnad Sefnyn fod Iorwerth mewn urddau eglwysig, y mae'r modd yr ymbilia yn rhan gyntaf y gerdd dros ei gyd-ddyn (y *rhai ysy 'ma*, ll. 20) o bosibl yn awgrymu ei fod yn siarad dros ei gyd-frodyr mewn sefydliad mynachaid. Tybed a ymneilltodd Iorwerth i dŷ crefyddol megis tŷ'r Brodyr Llwydion yn Llan-faes ym Môn ar ddiwedd ei oes? Awgrymodd Sefnyn yn gryf mai mewn tŷ crefyddol y claddwyd ef: *Cuddiodd llawr ... / (Côr saint) corff haeddfraint cywir ffyddfrawd;*¹ gellid deall *ffyddfrawd* yno i olygu'n llythrennol 'brawd yn y ffydd', yn hytrach na 'chyfaill'. Ceir hefyd nifer o eiriau Lladin neu Roeg yn awdl Iorwerth—*terra* (ll. 2), *reisina* (ll. 28), *O et Alpha* (ll. 35), *Maria* (ll. 39), *luna* (ll. 42), *Ebrëa* (ll. 43), *Deus* (ll. 48)—ac er nad yw'r arfer o gynnwys geiriau anghyfiaith fel hyn yn un anghyffredin yn awdlau'r beirdd,² y mae'r cyfartaledd uchel yma'n drawiadol, ac efallai'n ategu'r dyb fod Iorwerth yn ŵr o grefydd neu o leiaf yn ŵr eglwysig.

Wrth ystyried cyd-destun y gerdd hon, ac yn wir gerddi crefyddol y beirdd yn gyffredinol, y mae nifer o gwestiynau dyrys yn codi. Nid yw'n gerdd foliant, fel y cyfryw, i Dduw, ond yn hytrach yn gerdd o apêl gymunedol a phersonol am Ei faddeuant a'i drugaredd. Tybed a oedd cerddi'r beirdd yn cael eu datgan cyn rhai o'r gwasanaethau mewn tai crefydd?

Canwyd yr awdl hon ar fesur gwawdodyn, sef cwpledi o gyhydedd naw

¹ GSRh 2.29–30.

² Gw. J.E. Caerwyn Williams, *Canu Crefyddol y Gogynfeirdd* (Caerdydd, 1977), 24.

ban am yn ail â thoddaid;³ terfynir ag englyn proest dalgron.⁴ Mae llinellau 33 a 34 yn rhy fyr o ddeusill a llinell 31 yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi. Defnyddir cymeriadau llythrennol, geiriol, cynganeddol a synhwyrol drwy'r gerdd a cheir cynghanedd sain yn y mwyafrif o'r llinellau gyda chanran uchel ohonynt yn gynganeddion sain bengoll.

- 2 **broydd** Llsg. B *breid*. Diwygiwyd er mwyn hyd y ll. a'r ystyr, gan ddilyn John Davies yn llsg. D, cf. G 77 d.g. *bro*.
terra Llad. *terra* = 'daear'.
- 3 **breiniol** Llsg. B *Bennaöl*. Diwygiwyd er mwyn yr ystyr a'r cymeriad, gan ddilyn John Davies yn llsg. D, cf. G 74 d.g. *breinyawl*.
- 6 **aelawedd** Fe'i deellir yn ffurf l. *aelaw*, 'cyfoeth, golud, amllder' gyda'r terfyniad ll. *-edd*, er na restrir y ffurf honno yn GPC 36; rhestrir y ffurf hon yn hytrach, *ib.* 37, yn amrywiad ar *aelofedd* 'haelioni'. Ar ddau rym y terfyniad *-edd*, gw. *ib.* 1169. (Gwrthodir yr ystyr '?tueddfryd, parodrwydd' a roddir i *aelawedd* yn G 11, ond gw. ymhellach yno dan *aelouedd*.)
- 8 **a'u gwarthaa** Er mwyn y gynghanedd, gwrthodwyd darlleniad llsg. B *g̃archaea* (ffurf 3 un.pres.myn. y f. *gwarthae*), gan ddilyn G 624 d.g. *gwarthäu* sy'n derbyn diwygiad John Davies yn llsg. D.
- 10 **Barniawdr** Llsg. B *barnyaöt*. Diwygiwyd er mwyn yr odl, gan ddilyn John Davies yn llsg. D, cf. G 52; ceir yn y ll., felly, gynghanedd sain bengoll.
- 11 **w̃yr Anna** Sef Iesu Grist.
- 18 **crynfa** Nodir yr enghraifft hon yn betrus yn G 182, lle yr awgrymir y gellid cydio *cryn* wrth *crynn* 'gweddol, go fawr neu go fach' (*ib.* 183); yr ystyr felly fyddai 'gwaeledd, salwedd'. Ond nid ategir hynny yn GPC 623 a chredir mai gwell yw deall y gair i olygu 'cryndod', &c., fel y nodir yno.
- 24 **gwellaa** Llsg. *wella*. Dilyniir G 657 sy'n cymryd mai ffurf deirsill a fwriadwyd yma, er mwyn y mydr.
- 27 **dyuna** Llsg. B *dyhunaf*, y gellid ei ddehongli yn radd eithaf yr a. *duun/dyhun* = 'cytûn', &c; ond er y gellid hepgor y gytsain derfynol a darllen *dyhuna* er mwyn yr odl, gwell yw dilyn G 397 sy'n darllen *dyuna* neu *duuna*, sef 2 un.grch. y f. *duunaw*.
- 28 **reisina** Fe'i deellir yn ffurf Gym. ar y Llad. *regina* 'brenhines' (drwy'r ynganiad S.). Yn y pennill hwn, y mae'r bardd yn ei wrthyferbynnu ei

³ Gw. J. Morris-Jones: CD 340–1.

⁴ Yr oedd hi'n arfer gymharol gyffredin i gloi awdl ag englyn neu ddau; er enghraifft, y mae Mab Clochyddyn yn cloi ei farwnad i Wenhwyfar â dau englyn. Gw. *ib.* 369 ac isod cerdd 6; cf. hefyd GMB cerddi 7 ac 8.

hun, sy'n hanfod o dylwyth Efa bechadurus, â Christ sy'n hanfod *O Fair ... fawr reisia* ...

- 31 **pob** Byddai'r ffurf dreigledig, *bob*, yn rhoi cynghanedd sain gywir yma.
- 32 **mên** Ffurf amrywiol ar *man* 'lle', &c., gw. GPC 2336 ac ymhellach WG 432.
- 33 **dioer dir** Deelir hwn yn sangiad, yn ddisgrifiad o'r nefoedd—'gwlad gynnes', boed hynny'n llythrennol neu'n ffigurol.
a wneir yna Llsg. B *yna awneir*; diwygir er mwyn y brifodl.
- 35 **llysyh** Llsg. B *llesych*. Dilynir John Davies yn llsg. D sy'n diwygio'n *llysyh*, sef 2 un.pres.dib. y f. *llysu* = 'gwrthod, ymwrthod â, nacáu, gwahardd', &c., gw. GPC 2276 d.g. *llysaf*¹. Ategir hyn efallai gan GDG³ 134 (50.23–4) *Edrych, er na llysyh les, / Ai dyn fwyn a'u danffones*.
- 36 **pum weli** Sef y pum clwyf a ddioddefodd Crist ar y groes, cf. R 1334.2–3 *Yr dy gyuodi gbedyr pum weli crist keli vyri o rbym maened* (Gruffudd ap Maredudd) a hefyd GDB 29.62–3 *Gorug dduw Gwener rhwydd-der rhadau, / Goddef pum harcholl o archollau* (Dafydd Benfras).
- 38 **erglyw'n cyfyng** Yn betrus deellir hwn yn gyfuniad o 'erglyw yn ein cyfyng'.
- 46 **pan** Cf. uchod ll. 31n.

4

Cymeriad ystrydebol yw Efa, gwrthrych y gerdd fawl hon, y delfryd o ran pryd a gwedd ac o ran ymddygiad. Ychydig a ddatgelir amdani ac eithrio'i henw (ll. 26), y ffaith ei bod yn hanfod o dras fonheddig a'i bod yn trigo ym Meirionnydd (llau. 28, 29). Tybed ai Efa ferch Gruffudd a briododd Ieuan ap Gruffudd, brawd Syr Hywel y Fwyall, ydyw?¹ Yr oedd y teulu hwn yn deulu pwysig iawn ar gyfrif ei nawdd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.²

Ceir elfen ddramatig yn y gerdd hon, y bardd yn dioddef o gariad at Efa, y ferch hardd ddisglair, a hithau'n ddigroeso a llugoer iawn ei hymateb i'w deimladau. Molir Efa am ei thegwch, ei haelioni a'i thras aruchel. Amlygir ei harddwch yn glir â throsiadau a bentyrir drwy'r gerdd; y mae o'r un ddisgleirdeb â'r haul (ll. 10), o'r un wedd â phlu'r gweunydd (ll. 12) ac o liw rhosod gwynion (ll. 27). Y mae'r bardd ar ei thrugaredd ac yn dioddef

¹ Ar Efa ferch Gruffudd, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Gollwyn' 5 lle y rhoddir c. 1330 yn ddyddiad geni ar ei chyfer.

² Canodd Iolo Goch foliant i Hywel y Fwyall (GIG cerdd II), a cheir dwy gerdd farwnad iddo, y naill gan Risierdyn (GSRh cerdd 6) a'r llall gan Ruffudd ap Maredudd (R 1327–8).

oherwydd ei diffyg ymateb iddo (llau. 3–4, 23, &c.). Defnyddia'r trosiadau arferol o fyd rhyfela i ddisgrifio'i hymddygiad tuag ato: y mae'n ei wanu â gwewyr serch (ll. 9) ac yn ei niweidio a'i lethu (llau. 3, 7, 8, 13). Er hynny, y mae yntau'n fwy na pharod i ddiodef ac erys yn amyneddgar, gan roi gwys iddi ar gân. Ond er iddo ei chanmol â'i awen, hiraeth a phoen meddwl a gaiff yn dâl am ei gân—syniad cyffredin yn y canu serch lle y chwaraeir ar y syniad o'r bardd yn cael tâl am ganu, ond yn hytrach na chael arian, neu ymateb i'w serch fel yn y cyswllt hwn, hiraeth a gofid yw ei wobr.

Ceir yma awdl o 32 llinell gyda'r 28 llinell cyntaf ar fesur rhupunt hir gydag englyn unodl union i gloi. Oherwydd rhagodlau dwbl y rhupunt hir, y mae tuedd weithiau i gerddi a genir ar y mesur hwn fod braidd yn glogyrnaidd,³ ond nid yw hyn yn wir am y gerdd hon.

- 6 **beilch ... feilch** Anarferol braidd yw cael yr un gair ddwywaith mewn ll. Deallir y ddau yn ll. *balch*, cf. G 49. Ond gellid deall yr enghraifft gyntaf (llsgr. B *veilch*) = 'weilch' yn ffurf dreigledig *gweilch* 'pendefigion', &c., gw. G 608. Mae'n bosibl hefyd y dylid darllen dau air cyfansawdd yma, *mwynfeilch* a *maenfeilch*.
- 14 **y'th ... y'th** Nid yw'n amhosibl fod yr y yn y ddau achos hyn i'w ddehongli yn ffurf amrywiol ar y rhagenw perthynol rhywiog *a*, gw. GMW 63.
- 15 **gwaith llwyddiannus** Efallai fod peth amwysedd yma: gallai *gwaith* gyfeirio'n syml at ganu'r bardd, neu at ymdrechion llwyddiannus Efa i wrthod ei serch.
- 16 **tygiannus** Ffurf amrywiol ar *tyciannus*, a tharddair o'r f. *tygio/tycio*. Am yr ystyr, cf. TR '*prosperous, successful*' am *tycciannus*.
- 17 **heais eiriau** Cyffredin yw'r syniad o fardd yn 'hau' clod neu foliant: cf. GLIL1 8.13–14 *Ytt heu uyg kert nac ef uid / Mal heu rac moch meryerid* a GDG³ 95 (34.13–14) *Heais mal orohïan / Ei chlod yng Ngwynedd achlân*; cf. hefyd uchod 1.33 *mawl heuedig*.
- 20 **gorwyd** Fe'i deallir yn ffurf 2 un.pres.myn. gyda grym perffaith y f. gyflawn *gorfod* 'gorchfygu, goresgyn, enmill, rhagori', gan ddilyn awgrym petrus G 564. Ond gellid hefyd ei deall yn f. anghyflawn, gan aralleirio *gorwyd hoywddydd* 'yr wyt yn rhagori ar ddydd disglair'.
- 22 **Luned** Llawforwyn yr Iarllles yn y rhamant 'Owain' neu 'Iarllles y Ffynnon', gw. CLC 354. Dyma un o'r cyfeiriadau cynharaf mewn barddoniaeth Gymraeg at yr arwres hon, gw. TYP² 345 ac *Owein*, ed. R.L. Thomson (Dublin, 1975), lxii–lxiv.

³ Ymhellach ar hyn, gw. J. Morris-Jones: CD 332.

gweddw Dosberthir yr enghraifft hon yn G 645 yn betrus dan yr ystyr ‘gwraig weddw’. Anodd gwybod a yw’r gair yn cyfeirio at Efa, ll. 26, neu at Iarlles y Ffynnon.

24 **llafuriais fy lleferydd** Digwydd yr un ymadrodd yng ngherdd Mab y Clochyddyn, isod 6.61.

26 **Efa** Dyma’r unig dro yr enwir y ferch yn yr awdl a chymerir bod y bardd yn cyfeirio at ferch benodol o Feirionnydd, gw. y nodyn cefndir uchod.

eilewydd Gair ansicr ei ystyr, gw. G 457, GPC 1191, CT 50 a P Tal 60–1. Cymerir mai ‘cân, cerdd’ yw ei ystyr yma.

30 **Gwynbryd nyf cyn datawdd** Cf. GSRh 1.13 (am Angharad) *Prif degwch dilwch eiry dolydd—cyn glaw*.

5

Y mae peth anhawster ynglŷn ag awduraeth y cywydd hwn. Derbyniwyd—nid yn gwbl ddibetrus—farn gadarn Ifor Williams mai Iorwerth ab y Cyriog a’i canodd,¹ er mai i Iolo Goch² neu i Ddafydd ap Gwilym yn unig y priodolir ef yn y llawysgrifau. Trafodir dadleuon Ifor Williams isod.

Diolch i ferch a wna’r bardd am *gae* arian ac ynddo faen gwerthfawr a dderbyniodd gan ei gariad.³ Ystyr sylfaenol y gair *cae* yw rhywbeth sy’n cau,⁴ ac nid hawdd yw penderfynu ar ei union ystyr bob tro. Dangosodd Ifor Williams fod y gair yn cael ei ddefnyddio gan feirdd y cyfnod hwn am wregys, coronbleth neu rwymyn, ond ar sail disgrifiadau’r gerdd hon daw i’r casgliad mai ‘*brooch*’ yw’r ystyr yma.⁵ Meddir:

Arwain aur a main y mae
Ar ungair mewn ariangae;
Ar ei ddwyfron, ar ddyfrys,
Erddo y bydd croeso crys (llau. 3–6).

Y mae’n amlwg, felly, mai rhyw fath o fwel neu glasb addurnedig ydoedd a wisgïd ar grys; *Aerwy gwydr yw ar gadach* meddir ymhellach, llinell 23, ac

¹ I. Williams, ‘Cywydd gan Iorwerth ab y Cyriog’, B i (1921–3), 50–3.

² Cyhoeddwyd ef yn gyntaf ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf fel gwaith Iolo Goch, gw. Charles Ashton, *Gweithiau Iolo Goch* (Croesoswallt, 1896), 465–8.

³ Sylwer mai diolch am fodrwy a wneir yn ôl teitlau rhai o’r llsgrau. Gwneir hyn, o bosibl, gan fod Dafydd ap Gwilym yn dweud bod Iorwerth wedi derbyn *tudded bys* gan ei gariad, GDG³ 88 (31.21–2), *Rhyw dudedd bys, rhoed iddaw / Rhod lân rhag rhydu ei law*.

⁴ Gw. GPC 382 lle y nodir ei fod yn tarddu o wreiddyn **kagh-* ‘amgáu’.

⁵ Gw. I. Williams, *art.cit.* 50–3 a cf. GDG³ 472. Gthg. GPC *l.c.* lle y rhestrir yr enghraifft o *cae* yn ll. 42 dan yr ystyr ‘rhwymyn, gwregys’, gan ddilyn barn ddiweddarach a gwahanol I. Williams yn IGE² 375.

fe'i gwisgid o bosibl i gydio dau hanner mantell ynghyd. Y mae'n dlws gwerthfawr wedi ei wneud o aur neu arian a maen gwerthfawr disglair yn ei ganol (llau. 3–4, 20, 34). Ond yn ogystal â bod yn werthfawr, y mae i'r maen rinweddau meddyginiaethol sy'n cadw'r bardd yn ddiogel rhag haint, yn rhwystro camdreuliad yn ogystal â gwaredu cryd cymalau:

Ni ohiriai, lle bai ben,
Gyhyrwayw gan gae hirwen (llau. 45–6),

a hynny yr un mor sicr â rhew neu eira'n toddi ar ddiwrnod heulog (llau. 47–8). Nid oes syndod felly nad yw'r bardd am ollwng ei afael arno a mell-tithia'r sawl a'i cais oddi arno (llau. 25–6).

Un o gredoau hynaf dynoliaeth oedd fod gemau prin yn meddu ar rinweddau hudol a llesol, ac yr oedd bri ar destunau yn trafod gemau yn yr Oesoedd Canol. Perthyn yr unig lapidari Cymraeg, fodd bynnag, i'r unfed ganrif ar bymtheg ac ynddi rhestrir rhinweddau dwy ar bymtheg ar hugain o gerrig gwerthfawr.⁶ Er nad oes yr un o'r meini a ddisgrifir yno yn cyfateb yn union i'r maen a dderbyniodd Iorwerth, gwelir bod nifer ohonynt yn rhannu'r un priodoledau.

Y mae'n fwy na thebygol mai cyfeiriad at y gerdd hon a geir gan Ddafydd ap Gwilym mewn cywydd i Fadog Benfras.⁷ Yno y mae Dafydd yn dweud i Fadog, fel Dafydd yntau, dderbyn cae bedw yn dâl am gerdd gan ei gariad a'i fod yn ei wisgo am ei ben yn feunyddiol. Ond dderbyniodd Iorwerth, ar y llaw arall, *dudded bys* (sef 'modrwy'), meddir, a chyhuddir ef o werthu ei gerdd, *Gwell gan Ierwerth gywerthydd / Ei wawd nog anrheg o wydd*.⁸ Fel Dafydd ei hun, nid yw Madog yn hawlio dim gan y ferch *namyn hi*, ond awgrymir mai prif ddiben Iorwerth wrth ganu i'w ferch ef yw hawlio aur a main ganddi, *A Mab y Cyriog ym Môn / A'u cais* (*sc.* yr aur a'r main) *er cywydd cyson*; ac ymhellach fe ddywed, *Maelier y gerdd a'i molawd / Yw Ierwerth a werth ei wawd*.⁹

Os yw'n ddilys, nid gormod fyddai dadlau mai hon yw cerdd bwysicaf Iorwerth ab y Cyriog oherwydd ei harwyddocâd yng nghyd-destun cerddi eraill y cyfnod a'r hyn a amlygwyd am Iorwerth o ganlyniad i hynny. Awgrymodd Ifor Williams fod Sefnyn yn ei farwnad i Iorwerth yn cyfeirio

⁶ Gw. David Greene, 'A Welsh Lapidary', *Celtica*, ii (1952), 96–111.

⁷ Gw. GDG³ 88–90 (cerdd 31), 472–3; awgrymodd I. Williams, *art.cit.* 53–4, y gallai'r cywydd hwn fod yn waith Ithel Ddu yn hytrach na Dafydd ap Gwilym, a hynny am fod Dafydd ab Edmwnd yn cymharu cae o fedw a gafodd ef â chae Ithel yn hytrach na chae Iorwerth, *cae ierwerth vab y kyriawc / kyfiriw hwnn nis kaf y rawc*, DE 11 (VI.37–8). Yr awgrym felly yw mai Ithel Ddu ac nid Dafydd ap Gwilym a fu'n ceryddu Iorwerth. Fodd bynnag, cynhwyswyd y cywydd yn betrus gan Thomas Parry fel gwaith dilys Dafydd, gw. GDG³ 471–3.

⁸ GDG³ 31.17–18.

⁹ *Ib.* 31.37–8, 57–8.

ato fel prydydd a oedd yn gyfarwydd ag ymryson,¹⁰ ac y mae'n bosibl fod sylwadau Dafydd amdano wedi esgor ar ymryson sydd bellach ar ddifancoll:

Da gerddwr, hawlwr haelion,—a guddiwyd,
Gwyddiad ffyrf amryson
Dafodiog beirdd difudion,
Didlawd traws fwynwawd tros Fôn.¹¹

Awgrymodd ymhellach y gallai Sefnyn fod yn cyfeirio at union eiriau cywydd Iorwerth (llau. 11, 14) pan ganodd yn ei farwnad iddo:

Eurodd Iorwerth geinferth gân
Erllynedd, gwir gyfedd gwin,
Arawd teg o orau tôn
O rodd Duw a eurodd dyn.¹²

O ran cynganeddiad y cywydd hwn, y mae'n drawiadol iawn y nifer uchel o gynganeddion cytsain sydd ynddo (dros 80%), o'u cymharu â'r gynghanedd sain. Am y rheswm hwn, ni ellir derbyn y cywydd yn gwbl ddibetrus i ganon y bardd.¹³

- 8 **cae** 'Clasb', gw. y nodyn ar y cefndir uchod.
- 13 **nawnyf** Gair cyfansawdd o *naw* + *nyf* ('eira') yn golygu 'naw cawod o eira'; h.y. y mae pryd y ferch cyn wynnedd â naw cawod o eira, a chymryd bod pob cawod yn wynnach na'r un flaenorol.
- 15 **Euron hil** Deallir *Euron* yma'n e.p. gan ddilyn G 499, a'r cyfuniad i olygu '[un o] deulu Euron'. Ni wyddys at bwy y cyfeirir.
- 18 **urael** Gw. HG Cref 252, GDG³ 457. Dengys yr enghreifftiau o'r canu ei fod yn ddefnydd main a gwerthfawr a wisgid yn aml gan ferched, cf. R 1318.31–2 *dyn eur avu yndwyn vrael* (Gruffudd ap Maredudd i Wenhwyfar), *ib.* 1320.29 (eto); ac er mwyn pwysleisio dinodedd geni Crist dywed Madog ap Gwallter, GBF 32.15 *nyt vryael gbynn y gynhynneu*.
- 27 **aur Arafia** Sef aur Arabia, gw. GDG³ 452 (ar *aur Afia*) a GPC 237 dan y cyfuniad *aur Arafia*.

¹⁰ Gw. IGE² lxxxiv.

¹¹ Gw. GSRh 2.72–4.

¹² *Ib.* 2.51–4.

¹³ GDG xcvi–xcviii, 'os yw cyfartaledd y cynganeddion Sain mewn cywydd arbennig yn is na 25%, yna nid i'r 14g y mae'n perthyn'.

36 **odidog** Y ffurf wreiddiol yw hon, sef a. o *odid*; cynrychiola'r ffurf *godidog* ddatblygiad diweddarach, gw. GPC 1421.

39–40 **Meddyg ... Myddfai** Cyfeiriad at un o feddygon enwog Myddfai yn sir Gaerfyrddin (WATU 161), sef Rhiwallon a'i feibion, yn y 13g. Dyma'r cyfeiriad cynharaf mewn llenyddiaeth Gymraeg at un o'r meddygon hyn, a dengys fod eu bri eisoes wedi lledu i Fôn. Cysylltir Rhiwallon a'i dri mab â thraddodiad o ysgrifennu testunau meddygol, gw. CLC 398, Morfydd E. Owen, 'A Preliminary Survey of some Medieval Medical Writing in Welsh', SC x/xi (1975–6), 210–33 a DrOC 133–52.

Atodiad i

Diogelwyd y gerdd hon mewn dwy lawysgrif yn unig, y naill o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg a'r llall o'r ddeunawfed ganrif. Yn ôl teitlau'r gerdd yn y ddwy lawysgrif, marwnad ydyw i Einion ap Seisyll, ac ategir hynny gan ei chynnwys. Enwir Einion ynddi (llau. 7, 25, 39, 57 a 65) a disgrifir ef fel *Aer Seisyllt* (ll. 21); cyfeirir yn ogystal at ei fab Gronw (ll. 63) ac at arfbais Einion, [I]lew du (ll. 22). Cysylltir ef ymhellach â Mathafarn (ll. 29), glannau Dyfi (ll. 31), Llanwrin (llau. 33, 52) ac â Machynlleth (ll. 37) a dywedir iddo gael ei ladd ym mis Awst yn ystod brwydro rhwng gwŷr Cyfeiliog a gwŷr Arwystli: *Awst y llas 'y nghastell i ... / Pan fu ymgyrchu gorchest ... / Rhwng Cyfeiliog, enwog oedd, / Ac Arwystli ...* (llau. 1, 3, 5–6) a hynny, y mae'n debyg, drwy fradwriaeth (llau. 15–16).

Y mae'r wybodaeth hon yn cyfateb yn burion i'r hyn a wyddom am Einion ap Seisyll, arglwydd a drigai yn Rhwng Dyfi a Dulas yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif ac a hanai o linach 'Seisyll' ym Meirionnydd. Yr oedd ganddo fab o'r enw Gronw, neu Gronwy Cyfeiliog,¹ yr aelod cyntaf o'r teulu a gysylltwyd â Mathafarn yn Llanwrin, yn ôl yr achau, er bod y gerdd hon yn awgrymu bod Einion yntau yn byw yno. (Yr oedd yr uchelwr o fardd Dafydd Llwyd o Fathafarn (*fl.* 1447–97) yn ddisgynydd uniongyrchol iddo.²) Arfbais y teulu oedd llew du ar gefndir arian rhwng tri *fleur-de-lis gules*.³

Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gyfoes am Einion ap Seisyll, ond, mewn ymholiad a gynhaliwyd o flaen Wmffre Dug Caerloyw yn y Bala yn

¹ Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Seisyll' 1. Y mae'n bosibl fod Goronwy yn cael ei enwi fel tyst yn rhai o siarteri Ystrad Marchell yn y blynyddoedd 1185, 1189 a 1201, gw. E.D. Jones, 'Some Fifteenth Century Welsh Poetry relating to Montgomeryshire', *Mont Coll liii* (1953–4), 7; Colin A. Gresham, 'Changes to the Boundary of Cyfeiliog with Meirionnydd and Mawddwy', *Cylchg LIGC*, xxiv (1985–6), 288.

² Gw. GDL1 12, 14 a cf. disgrifiad Ieuan Dyfi o Ddafydd, *ib.* 183 (94.27), fel *aer Seisyllt*.

³ Gw. M. Siddons, *The Development of Welsh Heraldry*, vol. ii (Aberystwyth, 1993), 523.

1427,⁴ dywedwyd ei fod yn dal Rhwng Dyfi a Dulas, sef plwyf Llanwrin, yn amser Llywelyn ab Iorwerth (*ob.* 1240) a'i fod yn dal y tir hwnnw o dan yr arglwyddi Llywelyn Fawr a Llywelyn Fychan, meibion Maredudd ap Cynan, yn rhan o arglwyddiaeth Meirionnydd yng nghwmwd Ystumanner. Ond, meddir, yn sgil anghydfod rhyngddo a'r ddau arglwydd, trosglwyddodd Einion ei deyrngarwch a'i wrogaeth i Owain Cyfeiliog (*ob.* 1197) a thrwy hynny fe aeth Rhwng Dyfi a Dulas trwy gam yn rhan o Gyfeiliog.

Y mae J.E. Lloyd yn amheus iawn o'r hanesyn, yn bennaf gan fod lle cryf i gredu bod Rhwng Dyfi a Dulas wedi bod yn rhan o Gyfeiliog ers dechrau'r ddeuddegfed ganrif o leiaf,⁵ a hefyd am fod Owain Cyfeiliog wedi marw cyn i'r ddau Lywelyn ddod i feddiant o'u tiroedd;⁶ '... it is obvious that the Einion ap Seisyll story, whatever its origin, is extremely hard to reconcile with the known facts', meddai.

Y mae cryn ansicrwydd, felly, a fu Rhwng Dyfi a Dulas unwaith yn rhan o Feirionnydd, ynteu a fu'n rhan o Gyfeiliog erioed, ond y mae'n sicr fod nodweddiadau daeryddol wedi peri cymhlethdodau wrth beri ffiniau'r ardal hon, a chan hynny nid yw'r dystiolaeth yn glir.⁷ Fodd bynnag, credai Melville Richards fod Rhwng Dyfi a Dulas wedi bod unwaith yn rhan o Ystumanner yn ne Meirionnydd, a derbyniwyd ei farn ef gan Gresham.⁸

Ni cheir unrhyw oleuni pellach ar y dirgelwch o'r gerdd hon. Er na ddywedir yn benodol, yr awgrym yw mai gyda Chyfeiliog yr oedd Einion yn brwydro (ll. 5) ac y mae hynny'n ategu honiad yr ymholiad yn y Bala mai gyda Phowys yr oedd yn ochri ar ddiwedd ei oes. Y gerdd hon yw'r unig ffynhonnell sy'n honni i Einion fod yn brwydro dros Gyfeiliog yn erbyn Arwystli pan gollodd ei fywyd drwy fradwriaeth, ac er na ellir darganfod mwy am y frwydr honno, gwyddys i Arwystli fod yng nghanol sawl ymrafael gwaedlyd yn y ddeuddegfed ganrif, weithiau yn erbyn Cyfeiliog.⁹

Y mae'r cefndir hanesyddol, felly, yn ddyrws ac yn llawn anghysonderau, ond gan ei bod hi'n sicr nad cywydd wedi ei gyfansoddi yn y ddeuddegfed

⁴ Gw. J.E. Lloyd, 'Edward the First's Commission of Enquiry of 1280-1: An Examination of its Origin and Purpose', *Cy* xxv (1915), 11-12; R. Morgan, 'The Territorial Divisions of Medieval Montgomeryshire', *Mont Coll lxx* (1982), 26; Colin A. Gresham, *art.cit.* 286-8 *et passim*. Am y ddogfen ei hun, gw. HPF i, 98-9.

⁵ Dyma a awgryma'r dystiolaeth eglwysig, sef bod Rhwng Dyfi a Dulas wedi mynd yn rhan o Gyfeiliog cyn blynyddoedd cynnar y 12g., pan osodwyd y ffiniau esgobaethol, oherwydd yr oedd Meirionnydd yn esgobaeth Bangor, tra oedd plwyf Llanwrin yn esgobaeth Llanellwyr, gw. Gresham, *art.cit.* 288-9.

⁶ Gw. J.E. Lloyd, *art.cit.* 12-13 ac ymhellach E.D. Jones, *art.cit.* 6-7.

⁷ Trafodir y pwnc yn fanwl gan Colin A. Gresham, *art.cit.* 281-5.

⁸ Gw. WATU d.g. Cyfeiliog, a Colin A. Gresham, *art.cit.* 285.

⁹ R. Morgan, *art.cit.* 31.

ganrif mo hwn,¹⁰ y mae'n rhaid gofyn pam y byddai bardd diweddarach yn cyfansoddi marwnad ffug i Einion, gan gymryd arno fod hwnnw wedi bod yn noddwr iddo (e.e. llau. 1, 47–8), gan ddatgan ei ofid personol yn sgil ei farwolaeth ac, yn rhyfeddach byth, gan ddymuno oes hir i'w fab Gronwy, fel petai ar dir y byw? Gwyddys bod yr hanes am Einion ap Seisyll yn dal yn fyw yn y bymthegfed ganrif, ond anodd yw ceisio esbonio cymhelliad cyfansoddi'r cywydd hwn. Tybed ai'r nod oedd moli'r teulu mewn cyfnod diweddarach, gan esgus canu marwnad i un o'i gyndeidiau enwog? Ond ai moli'n unig oedd y bwriad, neu tybed a oedd rhyw gymhelliad gwleidyddol dros gofio am yr anghyfiawnder a wnaethpwyd i Einion yn y gorffennol?¹¹

Problem bellach yw priodoliad y cywydd. Fe'i priodolir yn y ddwy lawysgrif i *Iorwerth/Ierth Cyriog, fardd Cadeiriog*. Nid oes sicrwydd, wrth reswm, mai Iorwerth ab y Cyriog yw hwn, ond yr oedd Iorwerth, y mae'n debyg, yn bencerdd, ac felly'n fardd cadeiriog.¹² Y mae'r priodoliad ei hun yn ddichonadwy: y mae'r ffaith i Iorwerth ganu awdl i Efa o Feirionnydd yn awgrymu cyswllt â'r ardal honno.¹³ Ond eto, y mae'n anodd dyfalu pam y byddai ef am gyfansoddi cerdd o'r fath. Gan mai teulu Mathafarn oedd prif dirfeddianwyr Rhwng Dyfi a Dulas, teg gofyn tybed ai'r bardd Dafydd Llwyd ei hun a'i lluniodd i gofio am firwydro dewr ei gyn-daidd.¹⁴

O ran dyddiad y cywydd, er bod ambell ffurf hynafol ynddo megis *llas* (llau. 1, 38) a *rhaith* (ll. 42), y mae naws diweddar i nifer o eiriau sy'n awgrymu cyfnod cyfansoddi tipyn yn ddiweddarach na'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Cynhwysir, er enghraifft, nifer o eiriau y mae'r esiamplau cynharaf ohonynt, yn ôl tystiolaeth GPC, yn perthyn i'r bymthegfed ganrif, yr unfed ganrif ar bymtheg neu'n ddiweddarach, megis ll. 9 *catben* (1597),¹⁵ ll. 19 *cwrdd* (1722), ll. 36 *gofalfyd* (15g.), ll. 45 *credens* (16g.), ll. 46 *ffens* (1480–1525), ll. 59 *irwyh* (1480–1525), ll. 63 *power* (15–16g.). O ran cynganeddiad y cywydd, gwelir mai'r gynghanedd groes sydd flaenaf yma (tua

¹⁰ Yn ogystal â'r ffaith amlwg nad oes tystiolaeth ddarvoud canu cywyddau yn y 12g., y mae iethwedd ac arddull y cywydd, fel y nodir isod, yn awgrymu ei ganu yn y 15g. neu'r 16g., os nad yn ddiweddarach.

¹¹ Diddorol yn y cyswllt hwn yw darllen sylwadau Enid P. Roberts ar gywyddau marwnad Rhisiart Miltwn (*ob.* 1577) a gyfansoddwyd c. 1592, 'Credaf nad marwnadau i Risiart Miltwn mohonynt mewn gwirionedd, ond yn hytrach gywyddau mawl i'r teulu ... a bod achlysur arbennig wedi digwydd a oedd yn rhoi cyfle i ganu cywydd o'r fath dan bennawd marwnad'. Gw. YB ii (1966), 241–7, yn arbennig 244. Awgryma ymhellach y gall mai codi cofeb i Risiart Miltwn yn Eglwys Wen, Dinbych, oedd yr achlysur hwnnw.

¹² Gw. y Rhagymadrodd uchod, td. 36.

¹³ Gw. cerdd 4 uchod; hefyd y mae'r cywydd dychan i Ddrws-y-nant ger Brithdir, a briodolwyd iddo ar gam (gw. isod), yn awgrymu bod rhai copïwyr diweddarach wedi ystyried bod cyswllt rhyngddo a'r ardal honno.

¹⁴ Ar ddisgynyddion Einion, gw. E.D. Jones, *art.cit.* 5–6 *et passim*; yr oedd y bardd Dafydd Llwyd o Fathafarn yn ddisgynydd uniongyrchol i Einion, fel y dengys y disgrifiad hwn ohono gan Ruffudd Llwyd, *Da'i rinwedd, dewr o Einion ... / Aer Seisyllt a roes Iesu*, IGE² 131–3 (XLIV.15, 17). Ymhellach ar waith Dafydd Llwyd o Fathafarn, gw. GDLL.

¹⁵ Gw. GPC 421 d.g. *captan*.

62% o'r llinellau), ac mai cymharol isel felly yw cyfartaledd y gynghanedd sain (tua 24% o'r llinellau), awgrym efallai mai i'r ganrif ddilynol yn hytrach nag i'r bymthegfed y perthyn.¹⁶

Y mae'n ddi-ddorol sylwi bod i'r cywydd hwn yr un llinell agoriadol â moliant Guto'r Glyn i Syr Rosier Cinaston o'r Cnwcin, ger Croesoswallt,¹⁷ a bod ynddo hefyd linell sy'n digwydd ym marwnad Guto i Hywel ab Owain ab Ifan Llwyd o Lanbryn-mair yn ardal Machynlleth.¹⁸

- 2 **Dyfi** Afon yng nghanolbarth Cymru sy'n tarddu yng Nghreiglyn Dyfi ger Aran Fawddwy ac yn llifo heibio i Lanymawddwy, Dinas Mawddwy, Mallwyd, Aberangell, Glantwymyn, Llanwrin a Machynlleth ac i'r môr yn Aberdyfi, gw. EANC 139. Y mae'r afon yn nodi ffin ddeheuol yr ardal Rhwng Dyfi a Dulas, sef tiriogaeth Einion ap Seisyll, gw. Colin A. Gresham, 'Changes to the Boundary of Cyfeiliog with Meirionnydd and Mawddwy', Cylchg LIGC, xxiv (1985-6), 282, 284-5.
- 5 **Cyfeiliog** Cantref yng ngorllewin Powys, gw. J.E. Lloyd: HW³ 249-50, WATU 54, R. Morgan, 'The Territorial Divisions of Medieval Montgomeryshire', *Mont Coll* lxx, (1982), 22-8, 38, Colin A. Gresham, *art.cit.* 281-9. Dichon mai ymladd ar ochr Cyfeiliog yr oedd Einion pan gollodd ei fywyd, gw. ymhellach y nodyn cefndir uchod.
- 6 **Arwystli** Cantref ym Mhowys Wenwynwyn yn cynnwys rhannau uchaf Dyffryn Hafren. Bu'r anghydfod rhwng llywodraethwyr Gwynedd a Phowys ynglŷn â'r ardal hon yn un o'r ffactorau a arweiniodd at ddirywiad yn y berthynas rhwng Llywelyn ap Gruffudd a Choron Lloegr rhwng 1277 a 1282. Ymhellach, gw. J.E. Lloyd: HW³ 249-50, J.B. Smith: LlaG 137, 216, 260, 335-43, WATU 7, 239, R. Morgan, *art.cit.* 28-32, 39.
- 7-8 ... a **enynnodd / At un fu y tân o'i fodd** Cymerir mai cyfeirio a wneir at frwydro garw Einion yn erbyn ei elyn. Sonnir ymhellach am losgi'r gelyn, isod ll. 62.
- 10 **pen-cyfarch** Deellir *cyfarch* yma yn golygu 'cais, ymholiad', &c., gw. G 201, GPC 680; ond nid amhosibl yr ystyr 'ymholwr, hawliwr', &c. a roddir yn y ddau le (ond gyda gofynnod yn GPC) yn ddisgrifiad o Einion fel un sy'n 'ben-hawliwr' y beirdd, sef eu prif noddwr.
- 17 **Efrog** Tad Peredur, arwr y rhamant o'r un enw. Gw. hefyd G 445, TYP² 489.

¹⁶ Ond gw. y nodyn ar gefndir cerdd 5 uchod.

¹⁷ GGI² 147-9 (cerdd LV).

¹⁸ *Ib.* 71-2 (cerdd XXVI), cf., e.e., *ib.* ll. 27 *Machynllaith*, am ei chanllaw a ll. 37 uchod *Machynlleth am ei chanllaw*.

- 18 **fry dwedynt** Awgrym mai ar lafar y clywodd y bardd yr hanes am Einion ap Seisyll.
- 20 **Câr i'r Iarll fu'n curo'r og** Tybed a oes yma gyfeiriad at yr Iarll Owain o chwedl 'Iarllles y Ffynnon'? Yn ôl yr hanes, cafodd Owain ei ddal rhwng porthgwllis a phorth y castell, ond dihangodd. Disgrifir ef gan Dudur Aled fel *Iarll yr Iâ, a'r Llew a'r Ôg* (TA 75 (XIII.71)). Ystyr *og* yma, felly, yw 'porthgwllis', gw. GPC 2638 d.g. *og*¹ (c) lle y rhoddir rhagor o enghreifftiau o waith y Cywyddwyr. Gw. hefyd drafodaeth M. Burdett-Jones yn YB xviii (1992), 162–3, lle y cesglir, 'nad yw'r gair "og" yn digwydd yn yr ystyr "porthcwllis" ond yng ngyd-destun y rhamant "Owain" neu "Iarllles y Ffynnon"'.
- 21 **aer Seisyllt** Cyfeiriad at Einion fel etifedd i'w dad, Seisyll.
siasoedd Ll. *sias*, sef benthyciad o'r S.C. *chase*, gw. GIG 193 ac EEW 85, 226.
- 22 **llew du** Cyfeiriad at arfbais y teulu, sef llew du ar gefndir arian rhwng tri *fleur-de-lis gules*, gw. y nodyn cefndir uchod.
- 23 **gŵr march** '*Cavalry-man, horse-soldier, horseman*', GPC 1695.
- 29 **Mathafarn** Fferm a phlasty ym mhlwyf Llanwrin. Dyma oedd cartref Dafydd Llwyd o Fathafarn (y bardd) a theulu Pughe, disgynyddion Einion ap Seisyll, cyn iddo gael ei losgi gan ddilynwyr Cromwell yn 1644, gw. E. Davies, *Rhestr o Enwau Lleoedd*, gol. E. Davies (Caerdydd, 1967), 79 a R. Haslam, *Powys* (Harmondsworth, 1979), 153–4. Yn ôl tystiolaeth yr achau, Goronwy fab Einion oedd y cyntaf a gysylltwyd â chartref Mathafarn, ond awgrymir yn y gerdd hon fod Einion yntau yn trigo yno.
- 32 **y deg ynys** Ceir amryw o ystyron i *ynys*. Un posibilrwydd yw 'talaith, gwlad, teyrnas', cf. GGI² 12 (IV.50), 376 a gw. Thomas Jones, 'Teir ynys Prydein a'e their rac ynys', B xvii (1956–8), 268–9. Gelwir Gwynedd yn *hoyw ynys* yn GO i, 83 (XI.11) a cf. *deunaw ynys*, isod ll. 39. Gelwir hefyd dir gwastad ar fin afon yn ynys, DN 26 ac I. Williams: ELL 29, a cheir llu o enghreifftiau o ynysoedd yng nghanol gwlad.
- 33 **Llanwrin** Plwyf, a adwaenid gynt fel Rhwng Dyfi a Dulas, i'r gogledd o Fachynlleth yng nghwmwd Cyfeiliog, gw. WATU 142, a mapiau C.A. Gresham, *art.cit.* 282, 283.
- 34 Odl fewnol yn unig a geir yn y ll. hon.
- 35 **chwe llan** Cyfeiriad at chwe phlwyf cwmwd Cyfeiliog—Cemais, Darowen, Llanbryn-mair, Llanwrin, Machynlleth a Phenegoes, gw. WATU 54 a cf. GGI² 71 (XXVI.26) *A cholli nerth chwe llan oedd* (marwnad Hywel ab Owain ab Ifan Llwyd o Lanbryn-mair).
- 41 **Gwalchmai** Gwalchmai fab Gwyar, arwr traddodiadol ac un o farchogion Arthur. Yn chwedl 'Culhwch ac Olwen' fe'i disgrifir fel nai i

Arthur. Ystyrir ef yn filwr dewr a oedd yn batrwm o gwртеisi ac yn y Trioedd rhestrir ef yn un o'r *Tri Dyn Goreu vrth Ysp a Phellenigyon Ymys Prydein*, TYP² 195, 369–75, CLC 240.

- 42 **rhaith** Am drafodaeth ar y gair hwn, gw. WLW 64. Fe'i deallir yma i olygu 'cyfiawnder'.

cyfraith milwyr Deallir y cyfuniad yn wrthych i *cawsai* y ll. flaenorol. Hynny yw, pe cawsai Einion fyw a marw yn ôl defodau milwyr, trwy deg, ni fyddai wedi cael ei ladd. Yr ergyd yw mai trwy frad y trengodd, cf. ll. 18 uchod.

- 47 **Ei fardd, oeddwn, fwrdd ...** Cymerir bod trychiad yma a bod *bardd bwrdd* yn gyfuniad sy'n awgrymu perthynas furfiol rhwng y bardd a'r noddwr (gthg. *brawd maeth* y ll. ganlynol sy'n awgrymu cyfeillgarwch).

- 48 **brawd maeth** Ni wyddys beth yn union yw arwyddocâd y cyfeiriad hwn. Ymddengys fod y bardd yn honni bod yn frawd maeth i Einion ac efallai mai'r byrdwn yw eu bod ill dau yn gyfeillion, neu eu bod wedi cael magwraeth ynghyd yn y grefft farddol—awgrymir yn ll. 55 isod fod Einion am fod yn fardd (gw. y nodyn ar y ll.).

... maeth, a'i air draeth draw Llsgrau. AB *maeth air draeth draw*. Diwygiwyd gan fod y ll. fel y saif yn y llsgrau. sillaf yn rhy fyr.

- 55 **nid â yn fardd** Tybed a oedd cof am Einion fel bardd? Fel y nodwyd yn y nodyn cefndir uchod, yr oedd yr uchelwr o fardd Dafydd Llwyd o Fathafarn yn ddisgynnydd uniongyrchol iddo.

Ceir *nt* yma'n ateb *n.d.*; ond tybed a ddylid diwygio'n *nid da'n fardd*, hynny yw, nid peth da yw bod yn fardd bellach ac Einion wedi marw.

- 56 **tyfod** Amrywiad ar *tywod*.

- 60 **yr hych** Deallir *hych* yma'n ll. *hwch*, er gwaethaf y ffaith fod GPC 1928 yn amau mai ar ôl rhif yn unig y digwydd y ffurf l. arbennig hon. Yn ôl GPC 2620 d.g. *oed*, mae *oed mochyn* yn golygu blynyddoedd mawr. Efallai, serch hynny, y dylid darllen y *rhych*, fel a geir yn llsgr. B, neu hyd yn oed yr (*h*)*ych* gyda'r anadliad caled *h* sydd yn tueddu i ragflaenu llafariaid ar ddechrau geiriau mewn rhai tafodieithoedd (cf. *henw*, *hól*, &c.). Ond ni chafwyd tystiolaeth i awgrymu bod hirhoedledd yn nodwedd ar ychen. Posibilrwydd arall fyddai newid yr atalnodi a darllen, 'Doed ar hwn dau oed, yr hych'.

- 63 **Gronw** Sef mab Einion ap Seisyll, arno gw. y nodyn cefndir uchod. Nid peth anghyffredin yw troi at foli'r disgynnydd ar ddiwedd marwnad, gan gynnig nodyn cadarnhaol wrth ddatgan ffydd ym mharhad y llinach.

- 66 **yno fwy rhan** Nid amhosibl yw'r darlenniad *yn ofwy rhan* a geir yn llsgr. B; ar amryfal ystyron *gofwy*, gw. G 547, GPC 1432–3.

Atodiad ii

Priodolir y gerdd hon i Ithel ap Rhys yn hytrach nag i Iorwerth ab y Cyriog yn y mwyafrif o'r llawysgrifau;¹ ni wyddys dim am Ithel ac ni phriodolir unrhyw gerdd arall iddo.² Cynhwysir golygiad o'r cywydd yma'n atodiad i waith Iorwerth ab y Cyriog, gan gydnabod ei bod yn annhebygol iawn mai ei waith dilys ef ydyw.

Ar wahân i'r tri chwpled cyntaf, lle yr esbonnir amgylchiadau'r canu, ceir disgrifiad tra grymus a byw o dŷ ac o'r ardal lle y lleolwyd ef, sef ardal Drws-y-nant. Ymddengys fod y bardd, ar ôl dilyn cyngor gŵr eglwysig, wedi cyrraedd llannerch ac o'i flaen yr oedd llethr serth a thŵr y tu ôl i ryw adeilad. Manteisia i'r eithaf ar synau cras yr iaith i gyfleu ei atgasedd at y lle. Yn ogystal â bod yn oer ei groeso—nid oes yno na bwyd na diod (ll. 38)—y mae'r adeilad wedi ei leoli mewn man llwm a digalon. Gwrthgyferbynnir asbri'r haf â'i awyrgylch rhylllyd wedi'i lethu gan yr oerfel, boed hynny ar ffurf eira, rhaeadrau oerllyd, iâ neu farrug. Y mae'n llecyn tywyll nad yw'r haul byth yn ei gyrraedd, y creigiau wedi eu gorchuddio â chen a phydredd, a'r tŷ fel petai'n ymestyniad o'r graig ddiflas ei hun. Yn gartref unwaith i ddraig (ll. 24), bellach nadroedd a geifr sy'n trigo yno.

Nid enwir y tŷ ond cesglir ei fod ger Drws-y-nant, sydd heddiw'n enw ar fwch rhwng Llanuwchllyn a Dolgellau, ar hen orsaf reilffordd yno, ac ar fferm a elwir Drws-y-nant Uchaf a leolir heb fod ymhell o'r briffordd A494 tua thair milltir a hanner i'r de-orllewin o Lanuwchllyn.³ Y mae Craig Cywarch, y cyfeirir ati yn llinell 14, tua dwy filltir a hanner i'r de-ddwyrain o Ryd-y-main ac y mae mynyddoedd yr Aran (ll. 17) yn agos.

Tybed ai ymweld â chastell Carndochan a wnaeth y bardd, castell Cymreig a godwyd yn y drydedd neu'r bedwaredd ganrif ar ddeg, ac a leolir tua 3km i'r gogledd o Ddrws-y-nant? Y mae'r castell yn adfail erbyn hyn, ond y mae'n debygol nad oedd yn adfail erbyn 1522.⁴ Yn argraffiad yr esgob Gibson o *Britannica* Camden, y mae Edward Lhuyd yn disgrifio'r castell gyda thyllau uchel a llethrau serth yn codi o'i gwmpas (cf. llau. 1–2 uchod):⁵

... it is seated on the top of a very steep rock, at the bottom of a pleasant valley. It shews the ruins of a wall, and within that of three turrets, a square, a round, and an oval one, which is the largest. The mortar was

¹ Mewn chwech o'r wyth testun enwir Ithel ap Rhys fel awdur, gw. uchod.

² Gw. *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978), Elizabeth J. Louise Jones a Henry Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1928), a MCF (Ionawr, 1997).

³ Gw. *Rhestr o Enwau Lleoedd*, gol. E. Davies (Caerdydd, 1967), 40.

⁴ Gw. RCAHM (Merioneth) 140.

⁵ Codwyd y dyfyniad o *ib.*, a gw. ymhellach 138–40 am ddisgrifiad manwl o'r adfeilion a leolir, meddir, ar 'a bleak and wind-swept crag'.

mixt with cockle-shells, which must have been brought hither by land carriage, about 14 miles.

Erys amryw o gyfeiriadau yn y gerdd na lwyddwyd i'w hesbonio; yn ogystal y mae'r gystrawen yn astrus ar brydiau sy'n peri bod y traethiad yn aneglur. Pwy yw *f'ewythr 'r esgob*, llinell 6? Beth yw arwyddocâd y cyfeiriad at Idris, llinell 13, a pham y torrwyd pen Tomos yn y tân, llinell 26? Ai Gwylliaid Cochion Mawddwy a ddisgrifir yn llinell 10 fel *deucant lleidr*? O gofio mai yn ardaloedd Mawddwy a Chwm Dugoed, ychydig filltiroedd dros fynyddoedd yr Aran o Ddrws-y-nant, yr oeddynt yn byw ar herw, nid yw hynny'n amhosibl, ond cofier hefyd mai i'r unfed ganrif ar bymtheg yr oeddynt hwy yn perthyn.⁶ Dirgelwch llwyr hefyd yw arwyddocâd y cyfeiriad at longau ar lan *traethwyst*, llinell 16. Ai cyfeiriad at longau yn teithio ar hyd Afon Wnion gerllaw ydyw? Ond dichon mai cyfeiriad at Aber Mawddach rai milltiroedd i'r gorllewin ydyw, gan mai mewn dŵr heli y disgwyliid canfod wystrys.

Y mae arddull a natur y gerdd hon yn drawiadol wahanol i eiddo'r cerddi a dderbyniwyd fel gwaith dilys Iorwerth ab y Cyriog. Credir hefyd fod ei hieithwedd yn perthyn i gyfnod diweddarach na'r bedwaredd ganrif ar ddeg,⁷ o bosibl i'r bymthegfed neu'r unfed ganrif ar bymtheg, ac oni bai am y ffurf *llas* (ll. 26), ni cheir ynddi nemor ddim ffurfiau hynafol.

Fel yn achos y gerdd flaenorol, nid yw ei chynganeddiad yn llawer o gymorth inni ei dyddio. Ceir ynddi ganran uchel (dros 60%) o gynghanedd sain (ond nid rhai pengoll), a fyddai'n cefnogi dyddiad yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Yr unig beth y gellir ei ddweud i sicrwydd ynglŷn â'r gerdd yw iddi gael ei chyfansoddi cyn 1573, gan mai dyna yw dyddiad y llawysgrif gynharaf y digwydd ynddi, sef Peniarth 78 (llaw anhysbys);⁸ at hynny, gellid dweud nad ydyw, o ran ei harddull, ei naws, na'i hieithwedd, yn nodweddiadol o gerddi Iorwerth ab y Cyriog nac o gerddi'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn gyffredinol.

- 1 **twred** Ar yr e. hwn, gw. GDG³ 460–1; fel y nodwyd uchod, y mae'n bosibl fod y bardd yma'n cyfeirio'n benodol at un o dyrau castell Carndochan.
- 2 **plas** Fe'i deellir yma'n e. yn golygu 'lle, man', gw. uchod 1.30n.

⁶ Gw. y nodyn ar y ll. isod.

⁷ Ceir yn y gerdd rai geiriau nad yw'r enghraifft gynharaf ohonynt yn ymddangos tan yr 16g. yn ôl tystiolaeth GPC: e.e. ll. 33 *crecs* (diwedd yr 16g.), ll. 34 *cocsud* (16/17g.), ll. 41 *anlladus* (1567).

⁸ Gellir nodi bod Wiliam Llŷn (c. 1565) yn dyfynnu cwplod o'r gerdd hon yn ei Eirfa, gw. y nodyn isod ar lau. 33–4.

- 4 **Ffrainc** Ll. *Ffranc* = ‘Ffrancwr, Norman’, gw. G 510, GPC 1310. Ond ni wyddys beth yw arwyddocâd y cyfeiriad at Normaniaid yn Nrws-y-nant.
- 6 **rysgyw** Benthyciad o’r S. *rescue*, yn golygu ‘achubiaeth, swcwr’ neu ‘loches’ yma. Ceir y ffurf amrywiol *resgyw* gan Ieuan ap Rhydderch, *Ac o’r resgyw goresgyn / Lloegr ...*, IGE² 235 (llau. 9–10), 421. Deellir *Faith rysgyw* yma’n wrthrych i *Yn aros*, ll. 3.
- f’ewythr ’r esgob** Ni wyddys at bwy y cyfeirir. Y mae’n bosibl mai cellweirus yw’r cyfeiriad at yr esgob fel ewythr, ac fe all mai at offeiriad y cyfeirir.
- 7 **lle waeth** Cymerir bod *gwaeth* yma’n treiglo fel a. ‘dibeniad’, gw. Treigladau 66–7; ond ceir hefyd enghreifftiau o *lle* yn eb., gw. GPC 2121.
- 10 **Drws Nant** Am leoliad Drws-y-nant, gw. y nodyn cefndir uchod.
- deucant lleidr** Dwg y cyfeiriad hwn i’r cof Wylliaid Cochion Mawddwy a drigai yn yr 16g. yn ardaloedd Mawddwy a Chwm Dugoed ychydig filltiroedd dros fynyddoedd yr Aran, gw. CLC 252.
- 13 **ail Idris boen** Ni wyddys yn union yr ystyr yma; tybed a ddylid dehongli *ail* yn e., sef bôn *adeilad*, a’i ddeall i olygu ‘preswylfa’ (gw. GPC 70)?
- Idris** Ai Brenin Meirionnydd a fu farw c. 630 ac a roddodd ei enw ar Gadair Idris, mynydd rhwng Mawddach a Dysynni tua deng milltir i’r de o Ddrws-y-nant? Dywedir y byddai unrhyw un a dreuliai noson ar y copa ar ei ben ei hun yn gwallgofi, yn colli’i olwg neu’n ennill doniau barddol. Y mae’n ddigon posibl, felly, mai awgrym sydd yma y byddai’r un peth yn digwydd i un a dreuliai noson yn Nrws-y-nant. Ar y llaw arall, efallai fod y bardd yn cymharu bwlch Drws-y-nant ag ardal fynyddig Cadair Idris. (Ar Gadair Idris, gw. J.E. Lloyd HW³ 251, CLC 62.)
- 14 **ysglaig** Yn betrus cymerir mai cywasgiad o *ysgolhaig* ydyw. Posibl-rwydd arall fyddai ffurf yn cynnwys *claig*, bôn y f. *cleigio* ‘trochi, trwytho; taro, bwrw’, gw. GPC 496.
- ysglaig ... iyrchgroen** Cesglir bod y bardd yn gwisgo croen iwrch amdano am ei bod mor oer yn Nrws-y-nant. Ceid traddodiad hefyd fod beirdd yn mynd i gysgu ar grwyn er mwyn cael ysbrydoliaeth, cf. y disgrifiad o Ronabwy yn *mynet ar groen y dinawet melyn y’r parth y gysgu*, BRh 13 (llau. 23–4), ac eto BD 13–14 lle y disgrifir Brutus yn cael gweledigaeth wrth orwedd ar groen ewig, sydd, fel iwrch, yn fath o garw.
- Cywarchgraig** Craig Cywarch ym mhlwyf Llanymawddwy, Meirionnydd, tua dwy filltir a hanner i’r de-ddwyrain o Ryd-y-main.

15 **rhwyf** Fe'i deellir yn 3 un.pres.myn. *rhwyfo*, er y gellid hefyd ei ddeall yn e. yn golygu 'arglwydd, arweinydd; balchder, rhyseidd' neu'n a., yn ffurf amrywiol ar *rhwy* 'gormod', gw. CA 246, IGE² 422, GDG³ 458.

16 **trothau** Ffurf amrywiol ar *trothwy* (cf. *asau* / *aswy*, GPC 223), cf. LII 22 (ll. 15).

traethwystr Gair cyfansawdd o *traeth* a *wystr*, sydd yn hen ffurf ar *wystrys*, gw. J. Lloyd-Jones, 'wystr', B xi (1941–4), 124 lle y cyfeirir at enghraifft arall o'r ffurf gan Ieuan ap Rhydderch yn IGE² 231 (llau. 23–4) *Torri ar ergyd dirwystr / Gragen deg ...* Disgwylid wystrys mewn dŵr heli ac eto nid yw Aber Mawddach yn agos o gwbl i Ddrws-y-nant. Tybed a oedd modd gweld cyn belled â hynny o Graig Cywarch?

17 **mars** Gall olygu yn gyffredinol dir ar ffin yn ogystal â chyfeirio yn benodol at y tir ar y ffin rhwng Lloegr a Chymru, gw. GPC 2362.

18 **oersygn** Ar *sygn* 'cylch y cyser, y sêr', gw. GDG³ 520, 601 ac ymhellach EEW 43.

19 **hywedd** Ffurf amrywiol ar *hywaith*, gw. GPC 1987, 1989.

20 **rhwd** Ceir iddo'n gynnar yr ystyron 'llaid, aflendid', &c., cf. R 1330.10–11 *uffern rew viginwern rôt* (anh.).

caregnwd Y mae ansicrwydd ynglŷn â'r darlleniad, fel y gwelir uchod. Derbynnir darlleniad llsgr. F a'i ddeall yn gyfansawdd o *carreg* + *cnwd*, er y byddid yn disgwyl calediad.

creignai Yr ystyr debygol yw 'nai y graig', sef bod y tŷ yn ddisgynydd (i.e. o'r un natur) neu'n rhan o'r graig ei hun.

21 **tyrnas tyrn** Deellir y ddau air yn amrywiadau ar *teyrnas* a *teyrn* (cf., e.e. *dwyrn*, PKM 6 (ll. 14)). Ceir y ffurfiau *ternas* a *turn* yn y llsgrau. eraill. Cymerir yr ymadrodd *cwthr tyrnas tyrn* yn ddisgrifiad difriol o'r man fel safle dibwys yn nheyrnas y brenin. Nid addas yma fyddai *Tyrn*, amrywiad ar *Tern*, enw afon y ceir enghraifft ohono yn GLIL1 20.40 (gw. *ib.n.*); ond gellid ystyried *tyrn*, benthyciad o'r S. *turn*, neu galediad o *dyrn*, sef ffurf l. *dwrn*.

22 **mudfyrn** Fe'i deellir yn a. cyfansawdd o *mud* + *byrn*, sef hen ffurf l. *bwrn* 'baich, bwndel ... pwys, syrffed ... poen, blinder', &c., gw. GPC 357. Ceir y terfyniad *-furn* yn llsgrau. D ac E sy'n awgrymu'r e. *murn* 'twyll, dichell', &c., *ib.* 2504.

26 **pen Tomas ... yn tân** Deellir yn *tân* yn gywasgiad o *yn y tân*, gw. Treigladau 389 a P.W. Thomas, *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd, 1996), 361[ch]. Ni wyddys pwy yw'r Tomas y cyfeirir ato. Ceir y darlleniad *benn Thomas* yn llsgr. H, a chan na ddisgwylir treigladau ar ôl y ferf amhersonol *llas*, tybed a ddylid darllen *Ben Tomas*? Ond o ddeall *Ben* yn dalfyriad ar yr e.p. Benjamin, rhaid cofio y perthyn yr enw hwnnw i ganrifoedd diweddarach na'r 16g., sef pan gopiwyd y testunau

cynharaf o'r cywydd. Diweddar hefyd yw'r defnydd o gyfenwau. Felly, yr unig beth y gellir ei awgrymu yw fod brwydr wedi bod yn y llecyn hwn a bod arweinydd anhysbys o'r enw Tomas wedi ei ladd yno.

- 33 **crothgro** Un o'r ystyron a roddir i *croth* yn GPC 612 yw 'rhan gnawdiog yng nghefn y goes tu isaf i'r pen-glin: *calf (of leg)*', ac fe'i deellir yma i olygu 'chwydd' neu '*bulge*'. Deellir y cyfuniad i olygu 'chwydd o ro'. Dyfynnir y cwpled hwn (llau. 33–4) ddwywaith yng ngeirfa Wiliam Llŷn (c. 1565) o dan *Lleipr* 'kvlwac' lle y ceir *lleipr sindro greithgro grothgreks / lle hagrfdv kann koksvd keks* ac o dan y gair *Kroks* 'karegoc' lle y ceir *lleipr sindro greithgro grothgreks / lle hagsud kan kokvd [sic] keks* (gw. Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983), Atodiad, d.g); ac yng ngeiriadur Thomas Wiliems d.g. *discolor (lleipr sindro grechgro grothgreks)* a d.g. *scoria (lleipr sondro greithgro grothgreks lle hagsud can cocsud cecs)*.
- 34 **cocsud** Sef ffurf amrywiol ar *cocsut*, sydd yn fenthyciad o'r S. *cockshyt*, amrywiad ar *cockshoot* '*corner into which cocks were driven and caught*', gw. GPC 525 lle y rhoddir yr ystyr 'man agored neu lannerch mewn coed' i'r ffurf Gymraeg.
- 35 Cywesgir *lle mae ym* yn ddeusill er mwyn hyd y ll. Sylwer hefyd fod dwy *m* yn ateb un yma.
- 36 **uwchben gwair gwestl** Ceir y darlleniadau *uwch bedd a gwair heb gwestl* yn rhai o'r llsgrau., sy'n dwyn i gof y cymeriad anh. Gwair ap Gwestl; arno gw. G 649 a TYP² 377 (d.g. *Gweir*¹). Tybed a oedd traddodiad iddo gael ei gladdu yn yr ardal hon?
- 37 **bardenglwyd** Cymerwyd mai cyfuniad o *bar* 'rhwyrstr' + *deg* + *chwyd* sydd yma, er ei bod yn anodd esbonio'r treigladd.

Mynegai

- aelaw:** aelawedd 3.6n
aer At.i.21n
aerwy 5.23
afraid 5.29
ais 5.44
amcanu: amcana 3.5
amgyfred At.ii.27
amherawdr 3.10
amledd At.i.51
anlladus At.ii.41
arab At.i.59
araf 4.1
araul 5.48
ar ddiwanfa 3.14
ariangae 5.4
aros: ery 4.14
arwain 5.3
arwyrain 5.12
arwystl 5.22
asen: ‘sennau At.i.26
aur 5.27n
balch: beilch 4.6(2)n
barant 4.5
bardenglwyd At.ii.37n
bardd ... bwrdd At.i.47n
barniawdr 3.10n
barugles At.ii.28
bodd: o’i fodd At.i.8n
bolchwydd 5.31
braisg 3.5
brau At.i.25
brawd maeth At.i.48n
breiniol 3.3n
brig 3.2
brigleifr At.ii.28
bro: broydd 3.2n
bronfriwo 4.3
brwysg 3.17
brwysgedd 3.6
bwrdd At.i.47n
bychanigyn 5.24
cadeiriau 4.17
cae 5.8n, 42, 46
callestrgraig At.ii.23
campolaeth At.i.61
canllaw At.i.37
câr At.i.20n
caregnwd At.ii.20n
castell At.i.1
catben At.i.9
cawell 5.32
cecs At.ii.34
cerrynt At.i.13
cethr At.ii.1
claerglos At.ii.3
clai At.i.34
cocsud At.ii.34n
coethi At.i.24
cofiad 3.9
coffa 3.15
côr 3.13
crair: creiriau 4.18
credens At.i.45
creignai At.ii.20n
creir 3.34
creithgreics At.ii.33
crothgro At.ii.33n
croywrydd 4.18
crynfa 3.18n
crys 5.6
curiais 4.23
curo At.i.20n
cwthr At.ii.1, 21
cwynoch At.i.32
cydgymanfa 3.29
cydwedd At.i.29

cyfa 3.9
cyfleu: cyflea 3.37
cyflwydd 3.37
cyfraith At.i.42n
cyfyng 3.38n
cyhyrwayw 5.46
cylla 5.32
cywyd 3.7
chwe llan At.i.35n
damuned 4.21
datawdd 4.30n
deucant At.ii.10n
dictraul At.ii.31
dictroch At.ii.31
diddestl At.ii.35
digaeth 3.40
diliwo 4.4
dilysu: dilysa 3.16
dioer 3.33n
dioerwas 5.1
diorhëwg 5.17
dirdra 3.26
dirrwyn: dirwynaf 4.11
diweirddoeth 5.7
dôr 3.5
drysfa At.ii.12
dryswlch At.ii.12
duryn At.ii.30
dweud: dwedynt At.i.18n
dwywol 3.3
dwywolder 3.9
dyfod: doddyw 4.19
dyfrys 5.5
dyroddi: dyrydd 4.14
dyuno: dyuna 3.27n
Ebrëa 3.43
englynion 4.27
eidduned 4.21
eilewydd 4.26n
eilon At.i.2
eilwedd 4.22
eirfyd At.ii.4
eirsiars At.ii.18

eniwo 4.3
ennyn: enynnodd At.i.7n
erestlws 5.22
erglywed: erglyw 3.38
esgob At.ii.6n
etwa 3.4
eurgledd 3.39
euro: euraf 5.11, **eurwn** 5.14, 16
eurwr 5.27
euryrn 5.24, 26
ewythr At.ii.6n
fry At.i.18n
ffens At.i.46
ffest At.i.4
ffraeth 3.40, At.i.62
Ffrainc At.ii.4n
ffrom At.i.62
ffyrf At.i.46
gair At.i.48n; **geiriau** 4.17n
geir bron 3.34
gem 4.8, 5.20
gobeithfa 3.10
gobrwy 3.43
gofalfyd At.i.36
gofidfyd At.ii.22
goleulem 5.20
gordderch 5.9
gorf 5.44
gorfod: gorwyd 4.20n
goroen 5.12, 14
gorsin At.ii.11
gorthir 3.2
gwaeth At.ii.7n
gwair At.ii.36n
gwaith 4.15n
gwan: gweiniaid 3.14
gwanu: gwant 4.9
gwarant 4.5
gwarthaa: gwarthaa 3.8n
gwawd 5.14, 16
gwawn 4.12, 32
gwawrddydd 4.29
gweddgain 4.12

- gweddw** 4.22n
gweli 3.36n
gwellaau: gwella 3.24n
gwellygfa 3.17
gwestl At.ii.36n
gwindy: gwindai 4.10
gwneuthur: gwneddyw 4.19
gwrdd At.i.19
gŵr march At.i.23n
gŵyl 4.22
gwŷd 4.11, 31, At.ii.22
gwynbryd 4.30n
gwŷs 4.14
hagsud At.ii.34
hanfod: hanwyf 3.25 **hanwyd**
 3.27
heu: heais 4.17n
hirnwy' At.ii.8
hirwen 5.46
hoiwbryd At.ii.32
hoiwddydd 4.20
hoiwfardd At.i.56
hoiwles 3.42
hoiwliw 5.15
huan 4.10
hych At.i.60n
hyfawl 4.18
hywedd At.ii.19n
iarll At.i.20n
iawnboen 3.4
iôn 3.7
iôr 3.5, At.ii.5
irwych At.i.59
iyrchgroen At.ii.14n
luna 3.42
lladd: llas At.i.38, At.ii.26
llafurio: llafuriais 4.24n
llaid: lleidiau At.ii.39
lle At.ii.7n
lleasu 4.8
lleddf 4.27
lleferydd 4.24n
lleidr At.ii.10n
lleipr At.ii.33
llethr: llethri At.ii.17
llew du At.i.22n
llew-was At.i.38
llewychfa 3.13
lliwlasu 4.7
lliwloyw 5.20
lliwo: lliwa 3.6
llonydd 4.22
llosgwrn At.ii.23
lludw At.ii.39
lludd At.ii.19
llwybr 4.25
llwyd At.i.40
llwyddiannus 4.15n
llyfasu 4.7
llymdir At.ii.37
llysiant At.ii.24
llysu: llysyh 3.35n
mars At.ii.17n
marwar At.ii.29
mawrwerthawg 5.34
meddfaeth 5.40
meddyg ... Myddfai 5.39–40n
mên 3.32n
mersi At.ii.17
mudfyrn At.ii.22n
mwyl At.i.66n
myn Duw Lywydd 4.4
mynog 5.47
nawnyf 5.13n
nen 3.3
nêr 3.20, 23
nertháu: nertha 3.23
nwyfo: nwyf 4.29
nyf 4.30n
od 5.36
odid 5.33
odidog 5.36n
oedi: oeda 3.7
oer 5.10
oerfainc At.ii.4
oerfel 5.25

- oeria** At.i.33
oersygn At.ii.18
og At.i.20n
ornlethr At.ii.2
paun At.i.10
pen At.ii.26n
pen-cyfarch At.i.10n
penydio: penyiom 3.4
plas At.ii.2n
plethu: pletha 3.19
poen At.ii.13
power At.i.63
pum weli 3.36n
puredigfa 3.30
reisina 3.28n
rysgyw At.ii.6n
rhaeadr: rheidr At.ii.9
rhaith At.i.42
rhan At.i.66n
rhawg 5.33
rhên 3.32
rhiydd 4.10
rhos 4.27
rhuddaur 5.8
rhwd At.ii.20n
rhwth 5.32
rhwyf 4.2 (gw. hefyd **rhwyfo**)
rhwyfo: rhwyf At.ii.15n
rhynnu: rhyn At.ii.30
rhynoethi: rhynoetha 3.12
rhyoer At.ii.9
rhysemi: rhysemer 3.20
rhywneuthur: rhywnaetham
 3.12
sengl At.ii.37
sias: siasoedd At.i.21n
sindro At.ii.33
talyrnlas At.ii.2
tân At.i.8n, At.ii.26n
terra 3.2n
toddi: tawdd At.ii.39
torri At.i.6
traeth At.i.48n
traethwystr At.ii.16n
traha 3.31
traul 5.47
trigiant At.ii.24
troi: try At.ii.10
trothau At.ii.16n
trugar 3.13
trum At.ii.25
truman At.ii.25
twred At.ii.1n
tyfod At.i.56n
tygiannus 4.16n
tyrn At.ii.21n
tyrnas At.ii.21n
ungair 5.4
urael 5.18n
uthr 4.23
uwchben At.ii.36n
ŵyr 3.11n
yng 3.38
ymlid At.i.51
yn At.ii.26n
yno At.i.66n
ynys At.i.32n
ysglaig At.ii.14n
y'th ... y'th 4.14n

Enwau personau

Anna 3.11n	Gwalchmai At.i.41n
Celi 3.36	Idris At.ii.13n
Deus 3.48	Iesu 3.16
Dofydd 3.41	Ierwerth 5.1
Duw 4.4, At.i.40	Luned 4.22n
Efa ¹ 3.24	Mair 3.28
Efa ² 4.26n	Marïa 3.39
Efrog At.i.17n	O et Alpha 3.35
Einion At.i.7, 19, 25, 39, 57	Seisyllt At.i.21n
Euron 5.15n	Siob Job At.ii.5
Gronw At.i.63n	Tomas At.ii.26n

Enwau lleoedd

Arafia 5.27n	Dyfi At.i.2n, 31
Aran At.ii.17	Llanwrin At.i.33n, 52
Arwystli At.i.6n	Machynlleth At.i.37
Calfaria 3.34	Mathafarn At.i.29n
Cyfeiliog At.i.5n	Meirionnydd 4.28, 29
Cywarchgraig At.ii.14n	Myddfai 5.40n
Drws Nant At.ii.10n	

GWAITH MAB CLOCHYDDYN

golygwyd gan

W. DYFED ROWLANDS

ac

ANN PARRY OWEN

Rhagymadrodd

Dwy gerdd yn unig a briodolir i Fab Clochyddyn yn y llawysgrifau, ac y mae'r ddwy yn ei gysylltu â Môn. Awdl farwnad faith a hyfryd i Wenhwylfar, uchelwraig o Goedan yn Llanfechell, Talybolion, a gladdwyd yn nhŷ'r Brodyr Llwydion yn Llan-faes ger Biwmares, yw'r gyntaf. Credir i'r gerdd hon gael ei chanu yn gynnar yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn fras.¹ Dau englyn go wahanol yn dychanu ffalsiwr (*seudo*), bardd o bosibl, ac yn bygwth dial arno pe dychwelai i Fôn, yw'r ail. Y mae cwpled olaf yr ail gerdd yn adleisio cwpled olaf y gerdd gyntaf, ond prin y gellir dod i unrhyw gasgliadau pendant ynglŷn â hynny. Y mae natur wrthgyferbyniol y ddwy gerdd hyn yn tystio'n amlwg i'r mathau gwahanol iawn o gerddi y byddai beirdd y cyfnod yn eu canu, gan ddiybennu ar yr amgylchiadau a'r gynulleidfa, a rhaid cofio i rai o'r dychanwyr brasaf, megis Madog Dwygraig a'r Ustus Llwyd, ganu cerddi mawl neu farwnad hollol draddodiadol.

Ac eithrio'r cyswllt â Môn, a'r enw sy'n digwydd yn nheitlau'r ddwy gerdd yn Llyfr Coch Hergest, nid yw'r cerddi yn dweud dim rhagor wrthym am Fab Clochyddyn. Am yr epithet *clochyddyn* rhydd Geiriadur Prifysgol Cymru yr ystyron 'clochydd bach neu druenus'² a dichon mai cyfeirio a wna at dad y bardd. Tynnodd y Parchedig Ddr. Dafydd Wyn Wiliam ein sylw at dri chyfeiriad at ŵr o'r enw Dafydd ap Clochyddyn ym Môn ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg ac yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg: fe'i henwir yn Rholiau Llys Môn yn 1291–2;³ yn Peniarth 405, 423, dan y flwyddyn 1327, enwir *dd ap Cloghydyn ap[u]d Treuegoue* yn Nhalybolion a ghuddwyd o roi cweir i *Ricu Wodelef* (erys yr enw Tre'r gof ar fferm yn ardal Cemais); yng nghofnodion Twrn Mawr Llifon, 1347, cyfeirir at Angharad Fawr, wraig *Dafydd ap Cloghodyn*.⁴ Er ei bod yn debygol mai'r un cymeriad yw'r tri hyn, nid oes modd gwybod ai'r un ydynt â Mab Clochyddyn, y bardd y golygir ei waith isod.

Cadwyd dwy gerdd Mab Clochyddyn yn 'llaw Peniarth 32' yn Llyfr Coch Hergest, yn dilyn ei gilydd yng ngholofnau 1350–2.⁵ Y mae'r holl destunau eraill o'r cerddi hyn naill ai'n gopïau uniongyrchol neu'n gopïau anuniongyrchol o'r brif lawysgrif hon.

¹ Ymhellach ar Wenhwylfar, gw. y nodyn cefndir i gerdd 2 uchod.

² GPC 503 a G.P. Jones, 'A List of Epithets from Welsh Pedigrees', B iii (1926–7), 44.

³ Gw. *ib.*

⁴ Gw. AAST (1932), 49.

⁵ Gw. G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LIGC xxi (1979–80), 255.

Marwnad Gwenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan

- 4 Anfudd marwgudd, neud mawrgur,
Enid unrhwyf Wenhwyfar:
Anrhaith eilwaith a elwir
Yn nhroednoeth wyngoeth wingor.
- 8 Gwasgwyd côr o fynor faen,
Gwasgarai wyrdd, cyrdd a'i cwyn,
Gwasgawd gwawd gwindraul, haul hoen,
Gwisg ryoer uwch gwaisg riain.
- 12 Rhiain gain gynneddf, ddeddf ddoeth,
Rhyhoyw falchloyw o feilchlwyth;
Rhwol enwir o hiraeth
Rhoi meinwar mywn rhwym maenwaith.
- 16 Gwaith anhyfryd bryd a bron,
Gwythlawn dym্প am dwf gwym্প gwyn,
Gradd feinfaes greddfawl laes lan,
Grudd gwawr a gro llawr ei llen.
- 20 Llen a gudd deurudd dwyre
Llun haelaf geir llanw heli,
Llogawd gyfundawd faendy,
Lle ceidw saint eu braint a'u bro.
- 24 Denwyd geir bro ton gro greg
Dan llawr ael dyn llary olwg,
Dinam o aur, oedd dinag,
Deune haul, Dyno Helig.
- 28 Ael bro Helig tremyg trwm
A ddaw o nadlais, drais drom;
Hyloyw draws, hoywliw ei drem,
Haul a garai draul geir Drym.

32 Lloer Ddrym llary ddremyn gwalchaidd,
Llawrwisg a'i cudd, neud llwyrwaedd,
Llun balch hael llin beilch hylwydd,
Lliw llu anun, eiddun oedd.

36 Oedd gwawr geir llawr llary Fechyll,
Oedd gwael ei dwyn, gŵyn gynnull,
Gwan gain leddf, ddeddf ddiell,
Oedd gwingar wen, oedd gwen gall.

40 Call o'i phall ei phwyll oedd ddoe
Cyn colled, daered dirwy,
Cannwyll cain hoendwyll hundai,
Can aeth neud anrhaith, gwaith gwae.

44 Gwae fi ddodi (ddadl anfodd)
Gwaisg lwysfun mywn gwisg lasfedd,
Gwawr fawr fireinddysg, ffysg ffydd,
Gwŷd a'm ergyd o'i mawrgudd.

48 Lliaws ofalon i Fôn a fydd,
Lleufer haul ucher hyloyw echwydd,
Llafuriau, poenau peunydd—o ddarfod
Lliw gwiw gwypm gyfnod manod mynydd.

52 Llafar mor hwyrwar o'i marw herwydd!
Llawer deigr is gran oedran edrydd.
Llyw nefol dwyfol, Dofydd,—o'i dygiad
Lle yw ynn arnad girad gerydd.

56 Llathrwedd gwenwawr fawr fore hafddydd:
Llithro merch Fadog, ddeifnog ddefnydd,
Llaw roddfrys, o'i llys, lluosydd—edlid,
Llym dengyn ofid prid pob prydydd.

60 Llywy gymhenbwyll ddidwyll ddedwydd:
Llawen ei gwyngen, gwingar ufydd,
Llwrw eisiwed ced y'm cydfydd—galar
Llwyr ddwyn Gwenhwyfar, llun gwâr gwawdrydd.

64 Llefais, llafuriais fy lleferydd,
Llafurius groywiaith mal gwaith Gwenddydd;
Llwyr hiraeth arfaeth ni orfydd—cerddawr
Am wawr ddrem wylfawr o Ddrym elfydd.

68 Llun a roed dan llen, orffen eurffydd,
Yn llewychgor saint creifiant crefydd,
Llary enaid llathraid geir llethrydd—morfrig,
Llawr Tyno Helig, trig tragywydd.

72 Lledfryd can deryw i'm byw a'm bydd,
Lliw lloer pan ddwyre bre a broydd,
Llariaidd a lluniaidd: er llonydd—riain
Lluniais arwyrain, coelfain celfydd.

76 Llywiawdr, amherawdr môr a groydd,
Llywied ail Elen i lewenydd
Lle mae didlawd ffawd a ffydd,—ymgaru
Rhwng llu ni ddarfu ac ni dderfydd.

	Un ni dderfydd, Ener gwyρθau, Enw gogoniant, 80 Araf riain, Eirian gân gu Oedd ardderchog Oedd urddedig 84 Oedd urddasblaid A'm rhoes ganwaith, A'm rhoes edmyg A roes i fyrdd 88 A wnaeth boddiant O fywn ysgin Llathrferch Fadog, Llwyr oleune, 92 Llithr o'i darfod Aeth Gwenhwyfar Eigr un anian Yng nghôr crefydd 96 O gyfyngdwr Y mae rhiain Yn enw cyfiawn Yn rhieiniol, 100 Yn rhwy gariad,	iawn digerydd, a Thri gorau a gân foliant enaid-firain a ddug Iesu a hael enwog a hoen gwenyg, a rhyenaidd gwiwne glwysfaith, a phob rhyfyg ac aur a gwyrdd, aelaw ariant a maen gerwin llun balch fynog llary ddrem dwyre llefain hynod, i gaen daear o gawdd griddfan ei llun dedwydd, angau dreiswr, yn ei arwain yn ei hirddawn yn rhagorol, yn Naf wenwlad,	Iôn digaredd, â thrugaredd, a gorfoledd: Enid fawredd, o ddigasedd. a haul Wynedd, a henw gwnedd, ei rhianedd, gwin a glasfedd, a phob rheufedd, ac eiry ei gwedd i laweredd. y mae'n gorwedd, llin beilch fonedd, lloer Ddrym diredd. llif anhunedd. o gwyn dyedd, a gudd graddfedd: neud llan dydwedd. yng adrosedd, yn ei eurwedd yn ei harddedd yn nhrugaredd, yn nef winwledd.
--	--	---	--

104 Gwledig urddedig eirddidwyll—glaerdfw,
Eglurder eiry ystwyll,
Cyman y gellir cymwyll
Cymhendawd ei ffawd a'i phwyll.

Mygr bwyllog fynog fanon,—wan hoywfun,
 Wenhwyfar rudd ffion:
 Mawrddoeth dial gofalon
 Marw gwraig ofynaig i Fôn.

108

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 241^v B—Card 4.140, 659 C—J 111, 1350 D—LIGC 4973B, 346^r E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 54^v F—Llst 147, 257 (o'r cefn) G—Pen 118, 248

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 159–62.)

Darlleniadau'r llawysgrif

21 Dewyt. 29 g6alched. 55 etbit. 56 dygyn. 57 dedwyll. 59 essiwet. 64 wylwa6r. 83 g6yned.

Teitl

llyma heuyt eglynyon ac odleu agant mab clochydyn y 6enhwyuar wreic howel vab tudur vab gruffud.

Marwnad Gwenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan

- Colled yw cuddio'n farw (gofid mawr ydyw)
 Gwenhwyfar o harddwch Enid:
 Gelwir unwaith eto am [yr] anwylyd
 4 Yng nghanell win sanctaidd wych y [brodyr] troednoeth.
- Gwasgwyd cylch o faen marmor [amdani],
 (Gwasgarai ddillad gwyrdd, beirdd sy'n galaru amdani,
 Noddwraig barddoniaeth ddibrin ei gwin, [un o] sirioldeb [yr]
 haul,)
 8 Gwisg oer iawn [bellach sydd] dros ferch hardd.
- Merch wych [ei] defod, synhwyrol [ei] dull,
 [Un] hardd a disglair siriol iawn o lwyth rhai gwych;
 Trefn anfad o hiraeth
 12 Yw rhoi merch addfwyn fain mewn carchar o waith maen.
- Gorchwyl anhyfryd [y] meddwl a[r] galon,
 Amser [i.e. terfyn] chwerw ar dwf gwych gwynfydedig [merch],
 Mynwent [lawn] urddas [y] llan gadarn [a] gweddaidd,
 16 Grudd arglwyddes a gro'r llawr yn fantell iddi.
- Mantell a gudd ddeurudd [a'u lliw fel] toriad gwawr
 [Y] ffurf foneddicafer ger llanw môr,
 Anedd faen cynulliad [y] fynachlog,
 20 Lle y mae saint yn gwarchod eu rhagorfraint a'u bro.
- Hudwyd ger bro ton groch [ei] gro
 Dan ymyl [y] llawr ferch fwyn [ei] golygon,
 Di-feth ei haur, dinacâd oedd
 24 [Y ferch] ddwywaith disgleiriach na haul, i Dyno Helig.
- [I] gongl bro Helig y mae sarhad dwfn
 A ddaw o lais wylofain, creulon ei gormes [i.e. y fro];
 Yn ddisglair gadarn, harddliw ei gwedd,
 28 Haul [oedd hi] a garai dreulio[']i wres] ger Drym.
- Lloer Drym oedd yr un fwyn ei golwg bonheddig,
 Gwisg y llawr sydd yn ei gorchuddio, y mae gwaedd lawn
 [amdani],
 O ffurf hardd fonheddig llinach gwŷr balch tra llwyddiannus,
 32 O liw [gwelw] llu di-gwsg, deisyfadwy ydoedd.

Arglwyddes ydoedd ger bro Mechyll hael,
 Truenus oedd ei dwyn ymaith, cynulliad [llawn] gofid [ydym],
 36 Un ostyngedig wych dyner, hardd [ei] dull,
 Yr oedd yn un deg hoff o [rannu] gwin, yr oedd yn un deg gall.

Doeth ei synnwyr yn ei mantell oedd [hi] ddoe
 Cyn [y] golled, treth dirwy,
 40 Cannwyll wych [sy'n] frad afiaith ystafelloedd cysgu,
 Gan iddi fynd y mae dinistr, gwaith gwae.

Gwae fi ddodi (dyma gyfarfod anfodlon)
 Ferch hardd ddisglair yng ngwisg bedd newydd ffres,
 44 Tywysoges aruchel wych [ei] dysg, angerddol [ei] ffydd,
 Angerdd sydd yn f'erydio oherwydd ei maith gelu.

Mynych ofidiau a fydd i Fôn
 [Oherwydd] cilio ymaith [un o] oleuni haul disglair yr hwyr,
 [Bydd] pangau, poenau bob dydd oherwydd cilio ymaith
 48 [Un o] liw gwych tymor rhagorol eira mân y mynydd.

Mor araf a lleddf yw['r] lleferydd o achos ei marwolaeth!
 Y mae llawer deigryn [yn disgyn] islaw grudd [oherwydd ei
 myned i] drigfan henaint.
 52 Reolwr nefol [a] dwyfol, Arglwydd, oherwydd ei dwyn ymaith
 Achos sydd gennym [i gyfeirio] cwyn chwerw yn D'erbyn.

[Un o] wedd lachar gwawr ddisglair bore hafddydd maith:
 [Oherwydd] myned merch Madog, [ac iddo] sylwedd un â hawl
 i lywodraethu,
 [Gwenhwyfar a chanddi] law barod at roi, o'i llys, [y mae'n
 achos] hiraeth minteioedd,
 56 Llym yw gofid cyndyn costfawr pob prydydd.

Gwraig hardd synhwyrol, ddiffuant [a] ffortunus:
 Hoenus oedd ei sirioldeb, yr un ostyngedig hoff o [rannu] gwin,
 60 Ar lwybr diffyg rhodd y mae galar yn fy hebrwng
 [Oherwydd] dwyn ymaith yn llwyr Wenhwyfar, ffurf addfwyn a
 mawr ei chlod.

Bloeddiais allan, gweithiais yn ddygn â'm llais,
 Llef eglur ingol fel ymdrech Gwenddydd [gynt];
 Ni orchfyga bardd ymosodiad hiraeth cyflawn
 64 Am [un a chanddi] olwg arglwyddes dra thirion o ardal Drym.

- Rhoddwyd [ei] gwedd dan len, diwedd [ei] ffydd berffaith,
 Yng nghanell ddisglair [y] saint [y daw iddynt] faddeuant [y]
 bywyd crefyddol,
 68 Enaid hael [a] gloyw ger llechweddau [wrth] frig tonnau'r môr,
 Pridd Tyno Helig, arhosfan tragwyddol.
- Galar oherwydd darfod amdani a fydd imi trwy f'oes,
 [Un o] liw lleuad pan gyfyd [ar] fryn a broydd,
 [Un] hynaws a hardd: er mwyn y ferch dawel
 72 Lluniais gân fawl, anrheg gŵr wrth gerdd.
- Rheolwr [ac] arglwydd môr a marianau,
 Boed Iddo gyfeirio[’r un] megis Elen i lawenydd [nefol]
 Lle y mae bendith a ffyddlondeb yn ddibrin, caru’i gilydd
 76 Ymhlith y llu na ddarfu amdano ac ni dderfydd amdano byth.
- Un na dderfydd amdano [a chanddo] gyfiawnder di-feth, [yr]
 Arglwydd di-nam,
 Arglwydd gwyrthiau, [sydd hefyd yn] Dri gorau â thrugaredd,
 [Un y mae Iddo] anrhydedd gogoniant sy’n caru mawl a
 gorfoledd:
 80 Geneth dawel, hardd [ei] bywyd o fawredd Enid,
 Un annwyl wych [ei] chân a gymerodd Iesu ymaith o [fyd]
 atgasedd.
 Yr oedd yn odidog ac yn hael [ac] yn enwog a haul [i] Wynedd,
 Yr oedd yn anrhydeddus ac [megis] gloywder tonnau, ac yn
 anrhydedd urddas,
 84 Yr oedd yn uchel ei thras ac yn anwylyd hoffus [gan] ei
 morynion,
 A roddodd imi ganwaith, [yr un] hardd [a] bythol dirion, win a
 medd gloyw,
 A roddodd imi anrhydedd a phob rhwysg a phob cyfoeth,
 A roddodd i liaws nid yn unig aur ond hefyd ddillad gwyrdd,
 a[’r un a]’i gwedd fel eira
 88 A roddodd foddhad [drwy] amllder arian i laweroedd.
 O fewn mantell [h.y. amdo] a charreg arw y mae’n gorwedd,
 Merch ddisglair Madog, delw[’r] pendefig balch [o] linach cyff
 [y] beilchion,
 A chanddi wedd gwbl ddisglair, hynaws ei golwg [sydd] yn
 cyfodi [megis] lleuad [dros] diroedd Drym.
 92 Ymollwng oherwydd darfod amdani y mae wylofain amlwg [a]
 llifeiriant anhunedd.

- Aeth Gwenhwyfar dan orchudd y ddaear gyda chwynfan
 gresynus [amdani],
 [Hyhi] o'r un natur ag Eigr gyda thralod [ac] ochain a guddia
 beddrod dan risiau'r allor:
 Yng nghanell yr urdd grefyddol y mae ei chorff bendigaid, dan
 orchudd daear y llan.
- 96 O gaethiwed [y] treisiwr angau, gorthrech dirdynnol,
 Y mae morwyn yn ei ddioddef [i.e. angau] yn ei wedd
 ysblennydd
 Gyda chlod haeddiannol drwy ei bendith faith [ac] yn ei
 harddwch
- 100 Yn dywysogesaidd [a] chyda mawr rwysg mewn trugaredd,
 Mewn cariad cyflawn, ym mro ddedwydd [yr] Arglwydd, yng
 ngwledd ardderchog [y] nefoedd.
- Un hardd ei thyfiant [a] diffuant ei hymadrodd [yn tarddu o]
 bennaeth urddasol,
 [Un o] ddisgleirdeb eira [ar wyl] ystwyll,
 Yn gyflawn y gellir canmol
- 104 Gwedduster ei dedwyddwch a'i doethineb.
- Geneth fonheddig, ddoeth [a] hardd, merch hoenus [ond] eiddil,
 Gwenhwyfar [ac iddi] rudd [fel] rhosyn:
 Enfawr a dwys yw cystudd blinderau
- 108 [Oherwydd] marw gwraig [yr oedd llwyr] ymddiriedaeth [ynnddi]
 o Fôn.

I'r ffalsiwr

Cyfrwch cern sybwch corn sebon—Sudas
 Y seudo annhirion;
 Cyfran a baich gwŷr creichion,
 4 Cyhuddwr twyllffrom, som sôn.

Cornor wyd, cornwyd ceirnon,—cwd eli
 Cyd a ludd englynion;
 Dilys dial gofalon,
 8 Delw hoel, o daw dy foel Fôn!

Ffynonellau

A—BL Add 15001, 243^r B—J 111, 1352 C—LIGC 4973B, 348^r D—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 106^r E—Llst 133, 883^r F—Llst 147, 260 (o'r cefn) G—Pen 118, 249

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 159–62.)

Darlleniadau'r llawysgrif

3 B creithyon. 6 B kyt alut.

Priodoliad

B Mab clochydyn ae kant yr seudo.

I'r ffalsiwr

Cyfarfod asgwrn boch bwch [sydd megis] corn dal sebon Jiwdas
Y ffalsiwr ffaidd;

4 Cyfran a baich dynion cramennog,
Yw ei sôn dichellgar, [y] cyhuddwr llidiog ei dwyll.

Canwr corn wyt, yn bla o blorod, cwd eli

Ynghyd sy'n llesteirio englynion;

Dilys [fydd] dial am y boen [a achosi],

8 Yr un fath â hoelen, os daw dy [ben] moel i Fôn!

Nodiadau

6

Uwchben y gerdd yn Llyfr Coch Hergest ceir y teitl *llyma heuyt eglwynon ac odleu agant mab clochydyn y wenhŷyuar wreic howel vab tudur vab gruffud*, a dilyna gyfres englynion marwnad Gronw Gyriog i'r un wraig.¹ Gwelwyd eisoes fod Gwenhwyfar yn wraig uchel iawn ei statws, yn briod ag uchelwr o Goedan yn Llanfechell, Talybolion, Môn, ac, yn ôl pob tebyg, yn ferch i farwn grymus a drigai yn yr Hendwr yn Edeirnion, Powys. Fe'i claddwyd yng nghanell tŷ'r Brodyr Llwydion yn Llan-faes, man claddu poblogaidd i uchelwyr yr ynys a'u teuluoedd.

Yn fydryddol, y mae'r gerdd yn nodweddiadol o ddatblygiad yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, gyda'r bardd yn defnyddio sawl mydr yng nghorff ei awdl.² Ymranna'r gerdd hon yn bedair rhan:

1. llinellau 1–44 Agorir â chyfres o gyngogion, sef 11 englyn proest, pob un yn dalgrwn, ac eithrio'r ail a'r trydydd, lle y ceir odlau lleddf. Atebir gair olaf pob englyn yn hanner cyntaf llinell gyntaf yr englyn dilynol, ac mae diwedd y gyfres yn cyrchu ei dechrau, *marwgudd* (ll. 1) / *mawrgudd* (ll. 44). Ceir cymeriad llythrennol neu gynganeddol ym mhob englyn a newidir fesul englyn.

2. llinellau 45–76 Ceir yma gyfres o wyth gwawdodyn—cwpledi o gyhydedd naw ban yn cael eu dilyn gan doddeidiau—ar yr un odl *-ydd*. Cynhelir y cymeriad llythrennol *Ll-* ar ddechrau pob llinell ac eithrio yn ail linell y toddeidiau yn llinellau 64 a 76. Ni ddefnyddir unrhyw ddyfais fydryddol i gysylltu'r caniad hwn â'r gyfres englynion blaenorol, ond ceir cyrchgymeriad rhwng diwedd y rhan hon a dechrau'r rhan nesaf, trwy ailadrodd *ni dderfydd*.

3. llinellau 77–100 Rhupunt rheolaidd sydd yma, wedi ei ganu ar y brifodl *-edd*. Ceir cynghanedd groes gyflawn rhwng ail a thrydydd traean pob llinell a cheir defnydd cyson o gymeriad llythrennol a geiriol.

4. llinellau 101–8 Clöir â dau englyn unodl union, gyda'r llinell olaf, o bosibl, yn cyrchu dechrau'r awdl, sef ll. 45.

Tebyg iawn yw'r gyfres englynion agoriadol o ran ei chynnwys i gyfres englynion Gronw Gyriog ar yr un pwnc (cerdd 2 uchod). Fel yn y gerdd honno, molir Gwenhwyfar am ei harddwch, ei haelioni, ei thras a'i doeth-

¹ Gw. cerdd 2 uchod, lle y trafodir cysylltiadau teuluol Gwenhwyfar.

² Cf., e.e. awdl farwnad Rhisieryn i Hywel ap Gruffudd o Eifionydd, sydd hithau'n ymrannu'n bedair: 13 englyn, 20 toddaid, 18 llinell o rupunt, 1 englyn, GSRh cerdd 6.

ineb, ond manylir hefyd yn ingol ar leoliad ei bedd ger y môr ac ar y pridd bellach sy'n wisg am ei chorff (*Llawrwisg a'i cudd ...*, ll. 30). Y mae'r canu yn ddwysach yn yr ail a'r trydydd caniad, gyda'r bardd yn ymollwng i'w alar ac yn ymdroi o gylch ei golled bersonol a cholled gyffredinol y beirdd yn sgil ei marwolaeth. Terfyna'r trydydd caniad gan weld diwedd teilwng i Wenhwyfar yn y wledd sanctaidd derfynol yn y nefoedd. Clöir yr awdl â dau ddatganiad syml yn y ddau englyn olaf, yn pwysleisio'r golled yn ddwys.

- 1 **marwgudd** Sylwer bod diwedd y gyfres englynion yn cyrchu ei dechrau ac efallai y dylid diwygio *marwgudd* neu *mawrgudd* (ll. 44) fel fod y ddwy ffurf yn cyfateb.
- 2 **Enid** Cf. ll. 80 *Enid fawredd*. Cyfeirir at Enid ferch Yniwl Iarll, gwraig Geraint fab Erbin, y digwydd ei henw yn gyffredin yng ngweithiau beirdd o'r 14g. ymlaen (nid yw'n digwydd yng nghanu Beirdd y Tywysogion) fel safon o harddwch, gw. G 478, GDG³ 580 a TYP² 347–8.
- 3 **Anrhaith ... elwir** Petrus iawn yw'r dehongliad o'r ll. hon, a gellid deall *elwir* hefyd yn amhrs.pres.myn. y f. *elwa*. Sylwer bod G 31 yn dosbarthu'r enghraifft hon o *anrhaith* yn betrus fel 'anrhaith, ysbail'.
- 4 **troednoeth ... wingor** Ar *troednoeth*, a ddigwydd yn ffigurol am Frodyr Llwydion o'r urdd Ffransisgaid, gw. GLIBH 19.41n. Ar ei ddefnydd arbennig yma'n a. yn disgrifio sefydliad yn perthyn i'r brodyr hynny, cf. BT (RB) 234 ... *Ac o'e hanryded hi* [sef ei wraig Joan] *yd adeilawd Llywelin ap Ioruerth yno vanachloc Troetnoeth a elwir Llan Vaes yMon*. Ar ôl i Edward I symud y fwrdeistref Gymreig o Lan-faes i Niwbwrch ar ddiwedd y 13g., dim ond tŷ'r Brodyr Llwydion a oedd ar ôl erbyn dechrau'r 14g., ond parhaodd mynwent y tŷ hwnnw i fod yn fan claddu pwysig i uchelwyr o Fôn a Gwynedd yn y 14g. Gw. ymhellach y nodyn cefndir i gerdd 2 uchod.
- 6 **gwyrrdd** Sef dillad gwyrrdd. Gw. uchod 1.35n.
cyrrdd Fe'i deallir yn ll. *cerdd* 'bardd', gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Cerdd a phencerdd', LICy xvi (1989–91), 208–11, ond gellid hefyd ei ddeall yn ffurf l. *cerdd* yn yr ystyr arferol 'cerdd, darn o farddoniaeth', yn ogystal â ll. *cordd* 'mintai', &c.
- 7 **gwasgawd gwawd** Digwydd y cyfuniad hwn ddwywaith yng ngwaith Cynddelw yntau, GCBM i, 26.33 a GCBM ii, 6.102.
- 10 **o feilchlwyth** Ar dras uchel Gwenhwyfar, gw. y nodyn cefndir uchod.
- 15 **laes lan** Deallir *lan* yn ffurf dreigledig *llan*. Dichon fod yma chwarae ar yr enw Llan-faes: *feinfaes ... laes lan*.

- 17 **Llen a gudd (deurudd dwyre) ...** Am y cyfuniad *deurudd dwyre*, cf. GLIBH 3.47 *Claer orne ddwyre ddeurudd* (Llywelyn Brydydd Hoddnant). Anodd iawn yw gwybod sut orau i ddeall y gystrawen yma, yn enwedig gan na ddangosir treigladd *d* yn y llawysgrif. Deellir *deurudd* (ff. gysefin) yn wrthrych *cudd*—cf. GBF 56.1 *Gro a gut deurut dewrwas gbael—y barw* (Bleddyn Fardd); R 1206.39–40 *Llen gel dawel do. agud grud agro* (Gruffudd ap Maredudd); GDG³ 57 (20.45–6) *Cist a derw, cistaid irad, / A gudd gwalch ar gerdd falch fad*—ond os yw *dwyre* yn a., disgwylid iddo dreiglo'n feddal ar ôl e. deuol (gw. Treigladau 61–2), a byddai *d* wedyn yn ateb *dd* yn y gynghanedd sain. Ond y mae posibiliadau eraill: 1. gellid cymryd bod *dwyre* yma'n enidol (rhydd GPC 1110 yr ystyron 'toriad gwawr, codiad' fel e.), felly 'deurudd [a'u lliw fel] toriad gwawr'; 2. os a. yw *dwyre*, gellid cymryd *ddeurudd ddwyre* yn sangiad (h.y. y gystrawen fyddai *Llen a gudd ... / Llun haelaf ...*), gyda'r elfen gyntaf yn treiglo mewn sangiad, mewn cyfuniad cyfosodol. Mabwysiadwyd y posibilrwydd cyntaf yn y golygiad.
- 19 **llogawd ... faendy** Deellir *maendy* yma'n ffigurol am y bedd, cf. R 1319.23 *meinir dōf is mynor dy* (Gruffudd ap Maredudd), a *llogawd* yn yr ystyr 'mynachdy, eglwys' neu o bosibl 'cangell' (GPC 2202–3), yn gyfeiriad at dŷ'r Brodyr Llwydion. Am enghreifftiau pellach o *llogawd* am eglwys, &c., cf. GLIF 1.139, 177 (Llywelyn Fardd I am eglwys Cadfan Sant), 26.103 (Gwynfardd Brycheiniog am eglwys Dewi); GCBM i, 3.148, 159 (Cynddelw Brydydd Mawr am eglwys Tysilio ym Meifod). Fodd bynnag, rhydd GPC *l.c.* yn betrus yr ystyron ychwanegol '?lle, mangre' i *llogawd*, ac i *maendy*, eto'n betrus, *ib.* 2309, yr ystyr ychwanegol '?tŷ crefydd'. Felly gellid deall 'Tŷ crefydd [sydd mewn] cyfundeb â[r] fangre'.
- 21 **denwyd** Llsgr. C *Dewyt*. Diwygiwyd, gan ddilyn awgrym G 323, er mwyn yr ystyr ac er mwyn cynnal y cymeriad *d..n*.
- 22 Er mwyn aceniad y llinell, cymerir bod *ael* yma'n dibynnu ar *llawr*; ond gellid ei gystrawennu gyda *dyn*, ac aralleirio 'Dan lawr [y mae] ael merch hael [ei] gwedd'.
- 24 **deune haul** Cf. R 1318.32 *deune heul wed. heilved hael* (Gruffudd ap Maredudd); DGG² 32 (XX.49).
- Tyno Helig** Cf. isod ll. 68. Lleolid tŷ'r Brodyr Llwydion yn Llan-faes ar arfordir deheuol Môn, ychydig i'r dwyrain o Fiwmares, yn wynebu mordir y cyfeirid ato'n gyffredinol fel *Tyno Helig*. Ar *Tyno Helig*, gw. uchod 1.31n.
- 28 **Drym** Ceir lle o'r enw Drym ym mhlwyf Llanbadrig, sy'n ffinio â phlwyf Llanfechell lle yr oedd cartref Gwenhwfar. Ceir cyfeiriadau pellach ato isod llau. 29, 64, 91. (Cododd y Parchedig Ddr. Dafydd Wyn Wiliam yr enghreifftiau canlynol o Bapurau'r Dreth Dir yn Archifdy

Môn: *Trum*, 1744, *Drum*, 1760, *Drŷm*, 1768.) Gwrthodir, felly, awgrym petrus G 389 i ddeall y ffurf yn ll. *drem* ‘golwg, llygad’.

- 33 **geir llawr ... Fechyll** Mechyll oedd ffurf wreiddiol enw'r sant a gysylltir â Llanfechell yn Nhalybolion, Môn, tua 2 km i'r de o Gemais, gw. WATU 119, M. Richards, *Atlas Môn* (Llangefni, 1972), 38; ymhellach ar y sant, gw. LBS iii, 411–34 (dan *Malo*), yn arbennig 433–4. Yr oedd cartref Gwenhwyfar yng Nghoedan yn Llanfechell.
- 37 **o'i phall** Fe'i dehonglir yn amrywiad ar *i'w phall* ‘yn ei mantell’; ond gellid hefyd aralleirio ‘oherwydd ei phallu’ neu ‘gan iddi farw’, ond ni roddai hynny gystal ystyr.
- 38–40 **dirwy ... anrhaith** Tybed a adleisir yma'r ddihareb *gwell yw'r ddirwy na'r anrhaith* a restrir gan John Davies yn D.
- 39 **hundai** Fe'i deallir yma'n llythrennol am ‘ystafelloedd cysgu, ystafelloedd gwely’, ond digwydd hefyd yn ffigurol am y bedd, gw. GPC 1923 a cf. yn enwedig uchod 2.12–13 *Hael hoendeg liw haul hundy. / Dyhir hundy gwedy gwedd ...*
- 42 **glasfedd** Y mae'n bosibl mai ‘bedd cynamserol’ yw'r ystyr yma, gw. GPC 1403 d.g. *glasfedd*¹.
- 46 **echwydd** Derbynnir awgrym G 436 d.g. *echwŷydd* mai *echwydd* ‘llifo, llifo ymaith ... pallu, bod yn eisiau, cilio ymaith (i.e. marw)’, &c., yw'r ffurf (i odli â *fydd* / *peunydd* / *mynydd*), yn hytrach nag *echwŷydd* ‘canol dydd’, &c.
- 49 **herwydd** Yma defnyddir *herwydd* yn enwol yn golygu ‘achos, rheswm’, gw. GPC 1860.
- 52 **lle** Dosberthir yr enghraifft hon yn GPC fel a. ‘prudd, trwm, trist’, ac er nad amhosibl ei dehongli felly, ceir *gwell* synnwyr o'i deall yn e. ‘rheswm, achos’, gw. GPC 2121–2 d.g. *lle*¹ a *lle*².
- 54 **deifniog ddefnydd** Dehonglir *deifniog* fel a. yn golygu ‘cymwys i reoli, â hawl i lywodraethu’, &c., gw. TYP² 8–9 a GMB 3.105n (Meilyr Brydydd), 7.47 (Gwalchmai ap Meilyr); GBF 24.107 (Llygad Gŵr); fe'i deallir yn enwol am Fadog, tad Gwenhwyfar, fel un sy'n hanfod o lwyth tywysogaidd. (Ymhellach ar ach Madog, a oedd yn ddisgynydd uniongyrchol i deulu brenhinol Powys, gw. y nodyn cefndir uchod.) Am enghreifftiau pellach o gyfosod *deifniog* a *defnydd*, cf. yn arbennig GBF 30.40 *Gorffwyllabŷc enwabŷc deifnŷabŷc defnydd* (Iorwerth Fychan), a hefyd GCBM i, 12.5, GCBM ii, 11.20.
- 54–5 Cymerir mai'r gystawen yma yw *Llithro merch Fadog ... / ... o'i llys*.
- 55 **edlid** Llsg. C *etbit*, a rhydd GPC 1252 yr *etbit* hwn fel bai am *etlit*. Diwygiwyd o'r herwydd, gw. hefyd G 493, 494.

- 56 **dengyn** Llsg. C *dygyn*. Er mwyn hyd y ll. derbyniwyd awgrym petrus G 417 ynglŷn â'r diwygiad. Posibilrwydd arall, fodd bynnag, fyddai cadw darlleniad y llsg., a deall *dygyn* yn ffurf 3 ll.pres.myn. y f. *dwyn* (gydag odl lafar), 'Yn llym y dygent, bob prydydd, ofid cyndyn'.
- 57 **llywy** Gair sy'n digwydd yn dra chyffredin yng nghanu serch y Gogynfeirdd. Dilynir GPC 2291 (er na nodir yr enghraifft hon yno) a'i ddeall yn e.c.; ond y mae'n bosibl hefyd, fel y nodir yno, y digwydd weithiau fel e.p., yn gyfeiriad at ryw ferch, anhysbys bellach, a goffeid am ei harddwch. Am enghreifftiau pellach o'r ffurf, cf. GMB 9.41 (Gwalchmai ap Meilyr), GLIL1 14.30, 22.30; GCBM i, 5.29; GBF 30.11 (Iorwerth Fychan); GDG³ 253 (92.35).
- 58 **gwyngen** Am enghreifftiau pellach o'r ffurf hon, gw. GDG³ 527.
- 59 **eisiwed ced** Cf. GCBM ii, 18.69 *Nid eisiwed ced man y cefais*.
- 61 **llafuriais fy lleferydd** Cf. uchod 4.23–4 *Uthr ddoluriais, o'th serch curiais, / Y llafuriais fy lleferydd* (Iorwerth ab y Cyriog).
- 62 **Gwenddydd** Awgrymir yma fod unwaith gerdd serch i Wenddydd, ac o gofio awgrym Iorwerth Fychan fod Myrddin wedi canu serch i Wenddydd,—GBF 30.59–61 *Ys mwy gan y beird heird bop hyrddydd / No fan gant Myrddin mawrddydd Gwenddydd, / Meith arôirein kein kynedwyd—Gorwyn—dichon mai cyfeirio at gyfansoddiad Myrddin a wna Mab Clochyddyn yntau. Ymhellach ar Wenddydd, chwaer neu gariad Myrddin, gw. G 659, TYP² 470 a cf. GSRh 1.27n.*
- 64 **gwylfawr** Llsg. C *wylwa6r*. Dilynwyd awgrym G 736–7 a'i ddiwygio'n *wylfawr* er mwyn y gynghanedd.
Drym Gw. uchod ll. 28n.
- 68 **Tyno Helig** Gw. uchod ll. 24n.
- 72 **celfydd** Fel e. y dehonglwyd *celfydd* yma, ond nid amhosibl ei ddeall yn a. = 'celfydd, cywrain', gw. G 126, GPC 456–7.
- 74 **Elen** Gw. G 466 d.g. *Elen*¹. Dichon mai cyfeiriad sydd yma at Elen o Droea, Elen Fannawg, a enwir yn y Trioedd fel un o'r *Teir Gvraged a gauas pryt Eva*, gw. TYP² 129–30, a cf. GDG³ 372 (141.1–2) *Doe'r oeddwn dan oreuddail / Yn aros gwen, Elen ail, a hefyd ib. 137 (51.11–14).*
- 80 **Enid** Gw. uchod ll. 2n.
- 81 **eirian** Dilynwyd G 461 sy'n dosbarthu'r enghraifft hon fel a. yn golygu 'disglair, gwych, hardd, teg', tra bo GPC 1196 yn dehongli'r gair fel e. yn golygu 'un ddisglair, merch deg; disgleirbeth'.
- 82 **haul Wynedd** Defnyddir yr epithet gan Ruffudd ap Maredudd yntau yn ei farwnad i Wenhwyfar o Bentraeth, R 1318.27 *Hevl wyned neut bed*

nyt byb vnbenes, a chan Ddafydd ap Gwilym wrth ddisgrifio merch anhysbys o Fôn, GDG³ 340 (128.5) *Yno 'dd oedd, haul Wynedd yw*.

- 83 **gwnedd** Llsgr. *gbyned*. Diwygiwyd am y rheswm fod *Gwynedd* yn digwydd yn safle'r brifodl yn y ll. flaenorol, gan gymryd bod llygaid y copïydd wedi llithro. Am wahanol ystyron *gwnedd*, gw. G 694 a GPC 1690.
- 84 **urddasblaid** Ymhellach ar uchel dras Gwenhwyfar, gw. y nodyn cefndir uchod, a cf. isod ll. 101.
- 87 **gwyrdd** Cf. uchod ll. 6 a gw. 1.35n.
- 94 **Eigr** Eigr ferch Amlawdd Wledig, a mam y Brenin Arthur. Hi ydoedd y wraig brydferthaf ym Mhrydain yn ôl BD 136. Digwydd cyfeiriadau yn fynych ati o'r 14g. (nis enwir gan Feirdd y Tywysogion) fel safon prydfferthwch, cf., e.e., GDG³ 579 *et passim*.
- graddfedd** Diffinnir yr enghraifft hon yn betrus yn GPC 1520 fel 'beddrod dan risiau'r allor'.
- 97 **ei arwain** Gan na cheir anadliad caled yn *arwain* ar ôl y rh., dichon na ellir deall rhediad y frawddeg yn gyfeiriad at Wenhwyfar yn cael ei chludo i'r nefoedd. Yn betrus, felly, cymerir mai cyfeirio at *angau dreiswr* a wneir yma, a bod Gwenhwyfar yn 'dwyn' neu'n 'dioddef' ei marwolaeth fel tywysoges ac yn llawn rhwysg (ll. 98).
- 106 **grudd ffion** Am hoffter y beirdd o gymharu gruddiau merch â ffion, gw. y nodyn cynhwysfawr yn GBF 22.3n a cf. isod 8.24n.

7

Annelwig a thywyll yw ystyr ac arwyddocâd y ddau englyn unodl union hyn. Ymddengys fod y bardd yn gwneud hwyl am ben ffalsiwr salw sy'n tarfu ar ei englynion persain; y tebyg yw mai bardd arall yw'r gwrthrych. Ar ôl ei ddychanu, bygythir ef, gan ddweud y byddid yn dial arno am y poenau a achosai pe bai'n dychwelyd i Fôn.

- 1 **sybwch** Unig enghraifft. Fe'i deallir yn gyfuniad yn cynnwys *bwch*, gan ddilyn G 84.
- corn sebon** Cf. R 1278.42–4 *Pan golles llawes lliwyon gwyw gimwch gogymeint corn sebon*. Diffinnir y ddwy enghraifft yn GPC 562 yn betrus fel '?a horn for holding soap'. O gofio'r ystyron ffigurol megis 'gweniaith, geiriau teg' a roddir i *sebon* weithiau (yn ôl proflenni Geiriadur Prifysgol Cymru), tybed ai cyfeirio'n ddychanol at fardd fel 'corn o weniaith' a wna?
- 2 **Sudas** Un o'r amrywiol ffurfiau mewn Cymraeg Canol ar Jiwdas; cf. IGE² 306 (ll. 1) *Cafas heb Sudas adwyth*. O ran orgraff y gair yn y Llyfr

Coch, *sudas*, byddai ‘Suddas’ hefyd yn ddarlleniad posibl, cf. ar *seudo* isod, ac am enghreifftiau pellach o *suddas*, gw. GSRh 12.125n.

seudo Cymerir mai *d* ac nid *dd* sydd yn y gair, er y gallai orgraff y gair yn y Llyfr Coch, *seudo*, hefyd gynrychioli ‘seuddo’. Cymerir mai benthyciad dysgedig ydyw o *pseudo*, yn yr ystyr ‘*a false person, a pretender*’, OED d.g.

3 **creichion** Llsg. B *creithyon*. Diwygiwyd er mwyn y gynghanedd, gan ddilyn awgrym G 168.

7–8 **Dilys dial gofalon, / Delw hoel, o daw dy foel Fôn!** Cf. 6.107–8 *Mawrddoeth dial gofalon / Marw gwraig ofynaig i Fôn*. Tybed ai ffurf ar Hywel yw *Hoel*, ac a enwir y *seudo* neu’r ffalsiwr yma, sef *Hoel ... Foel?* Dichon fod y Gogynfardd Hywel Foel ap Griffri, a ganai yn nhrydydd chwarter y 13g., yn rhy gynnar (gw. GBF 179–203), ac ni wyddys am unrhyw fardd arall yn dwyn yr enw yn yr un cyfnod.

Mynegai

- adrosedd** 6.96
ael 6.22, 25
aelaw 6.88
amherawdr 6.73
anfudd 6.1
anhunedd 6.92
annhirion 7.2
anrhaith 6.3n, 40n
anun 6.32
arfaeth 6.63
arwain 6.97n
arwyrain 6.72
balchloyw 6.10
beilchlwyth 6.10n
boddiant 6.88
bre 6.70
carn: ceirnion 7.5
ced 6.59n
celfydd 6.72n
cerdd: cyrdd 6.6n
claerdfw 6.101
coelfain 6.72
côr 6.95
corn sebon 7.1n
cornor 7.5
cornwyd 7.5
crach: creichion 7.3n
creiffaint 6.66
croywiaith 6.62
cryg: creg 6.21
cuddio: cudd 6.17n
cwd 7.5
cydfod: cydfydd 6.59
cyfundawd 6.19
cyfyngdwr 6.96
cymhenbyll 6.57
cymhendawd 6.104
cymwyll 6.103
cyrdd gw. cordd
daered 6.38
defnydd 6.54n
dengyn 6.56n
deifniog 6.54n
denu: denwyd 6.21n
deune 6.24n
deurudd 6.17n
dial gofalon 7.7n
diell 6.35
digaredd 6.77
digerydd 6.77
dirwy 6.38n
drem 6.27, 64, 91
dremyn 6.29
dwyrain: dwyre 6.70
dwyre 6.17n, 91
dyedd 6.93
echwydd 6.46n
edlid 6.55n
edmyg 6.86
edrydd 6.50
ei 6.97n
eiddun 6.32
eilwaith 6.3n
eirian 6.81n
eisiwed 6.59n
elfydd 6.64
enaid-firain 6.80
ener 6.78
eurffydd 6.65
eurwedd 6.97
ffion 6.106n
ffysg 6.43
geir 6.18, 21, 33, 67
geirddidwyll 6.101
gelwir 6.3n
girad 6.52

- glasfedd** 6.42n, 85
glwysfaith 6.85
glwysfun 6.42
gofal: gofalon 7.7n
gofynaig 6.108
goleune 6.91
graddfedd 6.94n
gran 6.50
greddfawl 6.15
gro: groydd 6.73
grudd 6.106n
gwaisg 6.8
gwalchaidd 6.29
gwaneg: gwenyg 6.83
gwasgawd 6.7n
gwawd 6.7n
gwawdrydd 6.60
gwenwawr 6.53
gwenwlad 6.100
gwindraul 6.7
gwingar 6.36, 58
gwingor 6.4n
gwinwledd 6.100
gwnedd 6.83n
gwylfawr 6.64n
gwymp 6.14
gwyngen 6.58n
gwyngoeth 6.4
gwyrrd 6.6n, 87n
gwythlawn 6.14
harddedd 6.98
haul 6.7, 24n
henw 6.83
herwydd 6.49n
hoel 7.8
hoen 6.7
hoywfun 6.105
hoywliw 6.27
hundy: hundai 6.39n
hwyrwar 6.49
hyloyw 6.27, 46
hylwydd 6.31
llaes 6.15n
llafuriais 6.61n
llafurius 6.62
llan 6.15n
llathrferch 6.90
llathrwedd 6.53
llawr 6.33n
llawrwisg 6.30
lle 6.52n
lledfryd 6.69
lleferydd 6.61n
llen 6.17n
llethr: llethrydd 6.67
llewychgor 6.66
llithro 6.54–5n
lloer 6.29, 91
llogawd 6.19n
llonydd 6.71
llwyrwaedd 6.30
llywy 6.57n
maendy 6.19n
maenfaes 6.15
maenwaith 6.12
manod 6.48
manon 6.105
marwgudd 6.1n
mawrddoeth 6.107
mawrgudd 6.44
meinwar 6.12
mireinddysg 6.43
moel 7.8
morfrig 6.67
mynog 6.90, 105
mynor 6.5
nadlais 6.26
naf 6.100
pall 6.37n
peunydd 6.47
prid 6.56
pwyll 6.104
pwyllog 6.105
rheufedd 6.86
rhieiniol 6.99
rhoddfrys 6.55

rhwol 6.11
rhyenaïd 6.84
rhyfyg 6.86
rhyhoÿw 6.10
rhyoer 6.8
sebon gw. corn sebon
seudo 7.2n
som 7.4
sybwch 7.1n
tir: tiredd 6.91
tremyg 6.25
troednoeth 6.4n

twf 6.14
twyllffrom 7.4
t ymp 6.14
ucher 6.46
ufydd 6.58
unrhwyf 6.2
urddasblaid 6.84
urddedig 6.83, 101
ymgaru 6.75
ysgin 6.89
ystwyll 6.102

*Enwau personau***Dofydd** 6.51**Eigr** 6.94n**Elen** 6.74n**Enid** 6.2n, 80n**Gwenddydd** 6.62n**Gwenhwyfar** 6.2, 60, 106**Helig** 6.25 (gw. hefyd **Tyno****Helig**)**Iesu** 6.81**Madog** 6.54**Mechyll** 6.33n**Sudas** 7.1n**Tri** 6.78*Enwau lleoedd***Drym** 6.28n, 29, 64, 91**Gwynedd** 6.82n**Môn** 6.45, 108, 7.8n**Tyno Helig** 6.24n, 68n

GWAITH GRUFFUDD AP
TUDUR GOCH

golygwyd gan

RHIANNON IFANS

Rhagymadrodd

Dyma'r unig gerdd sydd wedi goroesi o waith Gruffudd ap Tudur Goch, ac un copi llawysgrif ohoni sydd, sef testun Peniarth 126, 61–2, yn dyddio o'r cyfnod wedi 1505. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn 1929,¹ ac yna yn 1997.²

Digwydd enw Gruffudd ap Tudur Goch ap Gronwy yn yr achau.³ Gŵr o'r Cae Mawr, Llanwnda, yng nghwmwd Uwch Gwyrfaei yn sir Gaernarfon⁴ ydoedd (ond a oedd, o bosibl, yn dal tir ym Môn, gw. ll. 27), ac yn achau P.C. Bartrum awgrymir c. 1330 yn ddyddiad geni iddo. Un o ddisgynyddion Cilmin Droetu oedd y bardd ac o'r herwydd yr oedd yn aelod o deulu blaenllaw o wŷr cyfraith. Yr oedd hefyd yn deulu barddol gan fod enw Einion ap Madog ap Rhahawd, bardd a oedd yn geifn i Ruffudd ab yr Ynad Coch,⁵ yn digwydd yn yr un ach ganrif ynghynt.⁶ Nid oes cyfeiriad hanesyddol yn y gerdd y gellir ei ddefnyddio ar gyfer na lleoli na dyddio'n fanylach, ond dichon y byddai ei dyddio i ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg, a'i lleoli yng nghylch Eryri, yn gweddu i ysbryd ac arddull y gerdd.

Gŵr hyddysg yng ngwaith beirdd a rhyddieithwyr yr Oesoedd Canol oedd Gruffudd ap Tudur Goch, yn manteisio yn fwyaf arbennig yn y gerdd hon ar chwedlau 'Breuddwyd Macsen' ac 'Iarlles y Ffynnon' am ei ysbrydoliaeth. Ond cyfeiria hefyd at Wydion fab Dôn ddwywaith (llau. 2, 59), at Riannon (ll. 30) ac at Fodron (ll. 60), cyfeiriadau sy'n dangos iddo gael hyfforddiant trylwyr yn hanes y chwedlau gan mai yn anfynych, os o gwbl, y digwydd unrhyw sôn am Fodron 'Culhwch ac Olwen' na Rhiannon 'Pedair Cainc y Mabinogi' yn y farddoniaeth. Yr oedd hefyd yn gyfarwydd â 'Thrioedd Ynys Prydain' gan mai yno y crybwyllir serch Cynon fab Clydno Eidin am Forfudd ferch Urien Rheged (gw. isod llau. 38–40), ac â gwaith Cynddelw Brydydd Mawr (ll. 45) a Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch' (ll. 47). Gwyddai am Ddaniel yr Hen Destament fel proffwyd, ac nid fel dehonglwr breuddwydion yn unig; awgryma T. Gwynn Jones fod yma gyfeiriad at yr

¹ T. Gwynn Jones, 'Cerdd Freuddwyd Gymraeg', yn *Britannica: Max Förster zum sechzigsten Geburtstag* (Leipzig, 1929), 139–44; yma cyhoeddwyd y gerdd dan enw Dafydd ap Gruffudd Goch, *ib.* 140.

² Am sylwadau ar gerddi breuddwyd, gw. Rhiannon Ifans, 'Cerdd freuddwyd', YB xxii (1997), 143–60.

³ Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Cilmin' 5.

⁴ Gw. WATU 141.

⁵ Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Cilmin' 4. Canodd Einion ap Madog ap Rhahawd gerdd fawl i Ruffudd ap Llywelyn, gw. GDB cerdd 23.

⁶ Gw. GBF cerddi 36–43 a'r Rhagymadrodd i'r gwaith; gw. hefyd sylwadau'r Athro G.A. Williams yn GDB 327.

Interpretationes seu Somnia Danielis prophete,⁷ ond go brin mai awdur o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, fel y dywed T. Gwynn Jones, yw'r *Daniel ... / Broffwyd* a grybwyllir yn y gerdd (llau. 57–8).⁸

Dewis fesur Gruffudd ap Tudur Goch yw'r gwawdodyn, sef dwy linell o gyhydedd naw ban am yn ail â thoddaid, er y gall fod un amrywiad: y mae llinellau 9–10 yn wyth sillaf yr un ac yn llinellau tri churiad, ond tybed ai fel llinellau o gyhydedd fer y'u bwriadwyd? Y mae cryn amrywio ynglŷn â'r nifer o sillafau a geir yn ei llinellau ac er diwygio yma ac acw fe erys llinellau anghyson eu hyd: llinell 26 sy'n 7 sillaf ei hyd, llinell 33 sy'n 8 sillaf, llinell 43 sy'n 9 sillaf a llinell 52 sy'n 10 sillaf.

Cynhelir yn weddol gyson gymeriad llythrennol *A-* a *G-*, ac weithiau gymeriad geiriol a chynganeddol i glymu llinellau. Y mae'r defnydd helaeth o'r cysylltair *a* yn sicrhau symudiad pwyllog i'r gerdd, a'r elfen bentyrrol yn pwysleisio digonolrwydd a moethusrwydd elfennau'r breuddwyd. Brawddeggu sangiadol a geir yma, i weddu i astrusrwydd synhwyrus y weledigaeth. Cynganeddir pob llinell o'r awdl, y rhan fwyaf o ddigon yn gynganeddion sain: y mae un o'r rheini yn sain deirodl (ll. 17) ac un yn sain gadwynog (ll. 36). Fel y nododd T. Gwynn Jones, ceidw'r bardd at safonau'r 'to olaf o'r Beirdd Llys'.⁹

Y mae dwy ran i'r gerdd. Disgrifio'r breuddwyd a wneir yn yr adran gyntaf (llau. 1–36): ysblander y dyffryn, y gaer deg, a'r ferch ddelfrydol sy'n byw yno. Yn yr ail ran fe gân y bardd fawl serchog i ferch ei freuddwyd, a hynny yn null Cynddelw Brydydd Mawr a Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'. Yn llinellau olaf y gerdd y mae Gruffudd ap Tudur Goch yn ymddiried y dasg o ddehongli breuddwydion sant diwair i'r Hollalluog.

⁷ T. Gwynn Jones, *art.cit.* 144.

⁸ *Ib.* 140.

⁹ *Ib.* 141.

Awdl y breuddwyd

- 4 Gwelwn drwy fy hun, nid Rhun, nid Rhôn,
 Golwg hoed addug o hud Wyddion,
Gloyw ddyffrynt lluchynt llawch feirddion—gychwyn
 Uwch llyn ffriw ewyn a phrif afon.
- 8 A phrifgoed, addoed i eiddigion,
 A phrifdir a ffrydiau gowelwon,
A phrif wengaer daer ar dirion—dolydd
 Oddis prif fynydd glwyswydd gleision.
- 12 A phebyll, a phawb yn gyson,
 A phabir, a phobl forynion,
A phall, o'm dyall, i'm deon—oedd gwiw,
 O dri rhyw eurlliw rhwyllwaith daenion.
- 16 A phefrddyn, gelyn gŵyl atebion,
 A phefrlen laeswen, las odreon,
A phorffor rhagor anrhegion—urddas,
 A phlasfawr addas ei harwyddion.
- 20 Ac ar befrlun bun gyfun gofion,
 Lloer gwyngnawd lliw blawd blodau meillion,
A thâl prid arial, pryd aeron—ystwyll;
 Prifdeg gannwyll pwyll pellenigion.
- 24 Ac uwch gloyw naw llaw llygaid duon,
 Bonheddig eilig aelïau meinion
Mewn golau wyneb mal galon—ymladd
 Mewn gwisg eurnadd, gradd gruddïau fffion.
- 28 A pharabl digabl, dogn o ganon
 Am ddannedd gwanwedd, gwynion;
Ef a'm cwyn gwŷr mwyn ym Môn—o'm collir
 Am ddyn mynyglir, meinir, manon.

32 A thwf cymedrol, ddwysol, ddison,
Gwawdudd, rhieinaidd mal Rhiannon,
A bysedd hwyrwedd, hirion,—a'i gwynnedd
Mal y bydd bunedd boneddigion.

36 Am gaer fy chwaer, chwerw gur linon,
Rhif y sŷr o wŷr yn ymryson
Gan fawrdwrf cynnwrf cynafon—gorwlad
Rhuad meirch hygad a marchogion.

40 Pan ddeffroais, trais traserchogion,
Oeddw'n ail Gynog, neu ail Gynon
Am Forfudd hyludd holion—edduned,
Merch Urien Rheged, meirch anrhegion.

44 Gwyliaur dolur a fydd d'alon,
Goludog glodrydd a rydd roddion;
Golawddaf, traethaf traethion—parawd
Goleugerdd dafawd arawd Aron.

48 Goluddlu Cynddelw, cynnelw ceinion,
Golyma addysg dysg disgyblion;
Goleubarch Llywarch, llif Ddaron,—pan gant
Moliant Gwenlliant o Gaerllion.

52 Gŵyl arfeddyd bryd yw breuddwydion.
Gwelais mal gwyddau, cylchau ceilchion,
Â'm gwyniaid lygaid olygon,—meddwaint
A gywaint gofeiliaint a gofalon.

56 Gwedi a wnaethoedd gwydn annoethion
Eithr fy hun o boen, gwae! hoen hinon,
Gwae! bryd ewyn llyn, llanw afon—ynial,
Rhag gofal dial Duw a dynion.

60 Pe byw Daniel syw, o'm dyniol sôn,
Broffwyd, a ddysgwyd i addysgion
Pell ddehongliad gwlad Gwydion—a allai,
Pe llai, ni medrai mwy no Modron.

64 Poed Ef, Arglwydd nef, Naf gweryddon,
Penadur, Awdur mydr a chanon,
Pêr Greawdr, Rhoddiawdr rhoddion—llawenydd,
A fo dehonglydd gwerydd gwirion.

Ffynhonnell

Pen 126, 61

Darlleniadau'r llawysgrif

3 ddyfryn klychyn. 4 friwy. 5 edigion. 6 gwelwon. 8 pri vynydd glwys. 11 oid. 12 aurr lliw rallwaith (*neu o bosibl* rullwaith) deinon. 14 odeon. 16 i arwddion. 18 lloer gwngynawd blawd. 20 kanwyllbwyll. 21 ddvon. 22 aliav. 26 gwangwedd. 29 ddwssawl. 30 gwowdudd rrieniadd. 32 mal i. 35 vwrdrwrf kynwrwf. 36 y gad. 37 ddyffrois trois trasserchgion. 38 ne. 39 wrvydd hylwydd. 40 rryget. 41 gwiliawdur. 43 golwddaf treithiaf. 44 arwy. 45 kynddelw keinon. 46 ddisgyblion. 47 kanet. 49 arveddvyd. 50 kylchiav kelchion. 51 gwniaid; olygion. 53 naithodd gwyddyn a noythion. 59 ddyhongwld *neu o bosibl* ddyhungwld. 60 mw no medron. 61 gwryddon. 63 llywenydd. 64 dihonglydd gwerydd gwrrion.

Teitl

Owdwl. *Ar ymyl y ddalen ceir* Owdwl y breudd *gydag* -wyd *wedi ei ychwanegu gan law ddiweddarach.*

Priodoliad

Gruff ap Tudu goch.

Awdl y breuddwyd

Gwelwn yn fy nghwsg/mewn breuddwyd, nid Rhun, nid Rhôn,
 Olygfa [o w'r ar] gyrch hiraeth o hud Gwydion,
 Dyffryn disglair rhuthr ffyrnig cychwyn[iad] beirdd [yn derbyn]
 nawdd

4 Uwch llyn [a'i] wyneb [o] ewyn ac afon fawr.

A choed mawr, achos marwolaeth i rai awchus,
 A phrifdir a llifeiriaint tra golau,
 A chaer ragorol [ac] ysblennydd, eofn, ar feysydd mwynion
 8 Islaw mynydd mawr [y] gwych goedydd gleision.

A phafiliwn, a phawb yn gytûn,
 A chanhwyllau, a morynion bobl,
 A phafiliwn i'm gwyrda, yn ôl fy neall, a oedd yn wych,
 12 O dri rhyw liw ysblennydd haenau [fel] delltwaith.

A merch hardd, [yn] elyn gwylaidd [i] atebion,
 A mantell deg laeswen, las [ei] godreon,
 Ac anrhegion urddas [o] wisgoedd porffor amgenach,
 16 A [merch] helaeth ei phlas ac addas ei baneri yw [hi].

Ac ar ffurf hardd merch gytunol [ei] meddyliau,
 Lloer gwyn ei chnawd [o] liw[r] blawd [a] blodau[r] meillion,
 A thalcen gwerthfawr hoenus, [un o] bryd aeron ystwyll;
 20 [Y] gannwyll orau ei thegwch [i] estroniaid yw pwyll/doethineb.

Ac uwchlaw awdurdod cyflawn [a] gloyw [ei] llygaid duon,
 Nwyfiant bonheddig aelïau meinion
 Mewn wyneb disglair fel [wyneb] gelynion [mewn] brwydr
 24 [Ac] mewn [pen]wisg wedi ei gweithio ag aur, teilyngdod
 gruddïau [o liw'r] ffion.

Ac ymadrodd difai, o ddysg yn llawn fesur
 O gwmpas dannedd mân eu gwedd [a] gwynion;
 Bydd gwŷr bonheddig ym Môn yn galaru amdanaf os collir fi
 [o'r bywyd hwn]
 28 Oherwydd merch hir ei gwddf, [merch] fain a thal, brenhines.

A thwf cymesur, cadarn, tawel,
 Arglwydd[es] cân, rhieinaidd fel Rhiannon,
 A bysedd tyner, hirion, a'i gwynder
 32 Fel y bydd [gwynder] merched pendefigion.

- 36 O amgylch caer fy anwylyd, gwaywffon [â] phoen chwerw,
[Yr oedd] rhif y sêr o wŷr yn ymrafael
Gyda dadwrdd mawr terfysg disgynyddion gwlad elynol
[A] bugunad meirch parod i ryfel a marchogion.
- 40 Pan ddeffroais, [dan] orthrwm gwŷr tra serchog,
Yr oeddwn yn debyg i Gynog, neu'n debyg i Gynon
Oherwydd Morfudd mawr ei rhwystr [i] geisiadau trachwant,
Merch Urien Rheged, [a'i] roddion [o] feirch.
- 44 Un yn sylwi [ar] boen fydd dy elyn,
Gŵr mawr ei glod [a] chyfoethog sy'n rhoi rhoddion;
Canmolaf, traethaf ddatganiadau chwim
Cerdd ddisglair [o] draethiad tafod Aron.
- 48 Mintai flinedig Cynddelw, amddiffynnwr pethau dillyn,
Grymusa addysg dysg [ei] ddisgyblion;
Disglair ei anrhydedd fu Llywarch, llifeiriant [fel Afon] Daron
[o ran ei ysbrydoliaeth], pan ganodd
Foliant Gwenllïan o Gaerllïon.
- 52 Arfaeth wylaidd [y] meddwl yw breuddwydion.
Gwelais [yn symud] fel gwyddau, cylchoedd o galch,
Â golygon fy llygaid [mawr fel] eogiaid ifainc, wŷr meddw
Sydd yn casglu poen a phryderon.
- 56 Ar ôl yr hyn a wnaethai rhai annoeth, creulon
O boen y tu allan i'm cwsg, och! [yr un o] bryd [yr] haf,
Och! [yr un o] bryd ewyn llyn, [un sydd fel] llanw afon enfawr,
Am boen dial Duw a dynion.
- 60 Pe byddai Daniel ddoeth yn fyw, yn ôl fy meidrol
ymadrodd/barabliad,
Broffwyd, [yr hwn] a ddysgwyd i ysgolheigion
Fe fedrai arfer dehongliad maith [o] wlad Gwydion [sef
Gwynedd],
Pe bai [un] llai [na Daniel], ni fedrai fwy na Modron.
- 64 Bydded Ef, Arglwydd nef, Brenin gwryfon,
Pennaeth, Awdur barddoniaeth a dysg,
Creawdr hyfryd, Rhoddwr rhoddion gorfoledd,
[Yr Un] a fyddo'n ddehonglwr ystyr [breuddwydion] sant
diwair.

Nodiadau

8

- 1 **trwy fy hun** Ymadrodd cyffredin mewn Cym.C. (gw., e.e., BrM 4 (llau. 14–16) *A phan deffroes, hoedel, nac einyoes, na bywyt nyt oed ida6 am y vorbyn ry welsei tr6y y hun*; YCM² 133 (llau. 22–4) *a thrwy y hun y dangosset idaw distrywedigaeth y wyr*). Ei ystyr yw ‘yn fy nghwsg’, ‘mewn breuddwyd’, gw. GPC 1911 d.g. *hun*¹.

Rhun Ni ddigwydd *rhun* yn e.c. yn GPC (i’w gyhoeddi) ac felly rhaid tybio mai e.p. sydd yma. Digwydd enw Rhun yn fynych yn y farddoniaeth ond nid oes modd deddfu at ba gymeriad y cyfeirir oni nodir ach. Gan mai cerdd o Wynedd yw hon gall mai cyfeiriad at Run ap Beli sydd yma (gw. TYP² 500–1) neu Run ap Maelgwn Gwynedd (gw. TYP² 501–3) y gellid enwi’r naill neu’r llall yn gyndad i hil Gwynedd. Eithr tebycach mai cyfeiriad at Run Rhyfeddfawr yw hwn, a enwir yn un o feibion Urien Rheged yn Pen 131, 114 *Plant vrien ap kynnvarch ywain ap vrien rrvn ap vrien*. Cyfeirir yn y gerdd hon at Forfudd, merch Urien Rheged (gw. isod llau. 39–40), ac efallai fod yma gyfeiriad at aelod arall o’r un teulu. Ar Run Rhyfeddfawr, gw. TYP² 503–4, CLIH 16 (III.33a–c), a’r cyfeiriad ato yn GLILl 26.49–50 *Un llysenw a Run, nyd ryuet—uy mod / Yn muda6 am reuet!* Ond tybed nad oes yma gyfeiriad at Run ap Nwython, enw a welir ar restr o wŷr llys y Brenin Arthur? Byddai hynny’n gyson â’r cyfeiriad at Rôn, gwaywffon Arthur, gw. y nodyn isod. Ar Run ap Nwython, gw. CO² 91.

Rhôn Gellid cymryd *rhôn* yn e.c. fel yn GLILl 4.39 *Ef oreu rieu, nyd ron—y gynna*. Y mae T.J. Morgan o’r farn mai ‘nid byw’ yw ei ystyr, gw. J. Lloyd-Jones, ‘rôn’, B xv (1952–4), 200 (ystyr a weddai yma i gyfleu natur ddychmygol y breuddwyd yn hytrach na’i realaeth fyw), a J. Lloyd-Jones o’r farn mai ‘nid oes waywffon gystal â’r eiddo ef’ yw’r ystyr (gw. *ib.*), a dyna a ddilynwyd yn GLILl 4.39. Yma, fodd bynnag, cymerir Rhôn yn e.p., gan ddeall cyfeiriad at waywffon Arthur; cf. BD 148 (llau. 27–8) *Gleif a rodet yn y lav, yr hon a elwit Ron*, ac *ib.* 269. Pwysleisir nad breuddwydio am gampau rhyfel y mae’r bardd, ond yn hytrach am ei gariad.

- 2 **golwg** Y mae i’r olygfa a gyflwynir yn y cerddi breuddwyd elfennau cyson, sy’n rhan o gonfensiwn llenyddol seiliedig ar batrymau clasurol a beiblaidd, gw. A.C. Spearing, *Medieval Dream-Poetry* (Cambridge, 1976), 17–18.

addug Dilynir yma GPC 34 sy'n rhoi'r ystyr '?cyrch, camp', gw. R 1274.35–6 *maβr aduc neithwyr ll6yr y llewes* (Madog Dwygraig). Ymhellach, gw. J.E. Caerwyn Williams, '*Gwen wrth Lawen yd welas neithwyr ...*', B xxi (1964–6), 26–7. Gthg. awgrym T. Gwynn Jones, '*adwg, cyfansawdd o od [sic] a gwg*', yn T. Gwynn Jones, '*Cerdd Freuddwyd Gymraeg*', *Britannica: Max Förster zum sechzigsten Geburtstag* (Leipzig, 1929), 141. Posibilrwydd arall yw darllen *Golwg hoed adug*, a deall yma ffurf 3 un.grff.myn. y f. *adwyn* 'dwyn' a roddai'r ystyr 'Golwg tristwch a ddug'. O wneud hynny mynnai'r gynghanedd y ffurf *Wyddion* (yn hytrach na *Wyddion* y llsg.) a fyddai'n gyson â'r ffurf yn ll. 59.

hud Wyddion Sef Gwydion fab Dôn, y storïwr gorau yn y byd, a dewin nerthol iawn y cyfeirir ato, nid yn unig yn chwedl 'Math fab Mathonwy', y bedwaredd gainc o'r Mabinogi, ond hefyd mewn nifer o gerddi cynnar megis 'Cadair Ceridwen' a 'Cad Goddau' sy'n awgrymu bod traddodiad ehangach o chwedlau amdano nag a gadwyd, gw. TYP² lxxxiii–lxxxiv, 400–2, CLC 250–1, D.H. Evans, 'Blodeuwedd', YB xx (1995), 79–89. Enwir Gwydion hefyd yn ll. 59 isod, *gwlad Gwydion*. Yma, fodd bynnag, y mae'r gynghanedd yn mynnu'r ffurf orgraffyddol *Gwyddion* a'r treigladd meddal i'r enw priod yn y cyflwr genidol ar ôl eb. (ond gw. y nodyn blaenorol).

- 3 **dyffrynt** Llsg. *ddyfryn*, un o sawl enghraifft o gofnodi 'ff' â *f* mewn testun lle y mae cryn anwadalwch orgraffyddol: arwydd efallai o gopiyydd llai profiadol. Eithr gellid hefyd *dyffrynt* o *dwfr* + *hynt*.

dyffrynt lluchynt Llsg. *ddyfryn klychyn*. Gofyn y gynghanedd am *ll* yma, ond gthg. awgrym petrus T. Gwynn Jones, *l.c.*, *lluchwyn* neu *llechwyn*. Diwygiwyd yn hytrach yn *dyffrynt lluchynt*.

lluchynt llawch Am enghraifft arall o gyfosod *lluchynt* a *llawch*, gw. GGD 10.25 *Ac mal cynt lluchynt llawch anogiad* (Trahaearn Brydydd Mawr).

- 4 **ffriw** Llsg. *friwy*. Deellir *ffriw* yma i olygu 'wyneb ...; weithiau ... pen', gw. G 511, GCBM i, 25.6 a GCBM ii, 4.170.

ewyn ... a fon Yn y ll. hon y mae *w* gytsain yn ateb *f* led-lafarog, gw. J. Morris-Jones: CD 199–200.

a phrif Llsg. *af friff*. Sylwer ar ddefnydd y copïydd o *ff* am 'ph' ac *ff* am 'f' ond nid oes cysondeb drwy'r gerdd yn hynny o beth. Ystyr *prif* yma yw 'o gryn faintioli, mawr'. Sylwer ar ddefnydd cyson y bardd o'r a. mewn cyfansoddair ac yn air unigol, isod llau. 5, 6, 7, 8, 20, a cf. yr un nodwedd ar freuddwyd arall (mewn rhyddiaith), gw. BrM 2 (llau. 5–8) *ef a doeth y aber prif auon v6yhaf or a welsei neb; a phrif dinas a welei yn aber yr auon, a phrif gaer yn y dinas, a phrif dyroed amyl amlwa6c a welei ar y gaer*.

5 **addoed** Gellid hefyd, ar lun *addoer* yn golygu ‘oer iawn’, *add-* + *oed* yn golygu ‘mawr[le] cyfarfod’, neu *add-* + *hoed* yn golygu ‘hiraeth mawr’.

eiddigion Llsgr. *edigion*. Fe’i deellir yma i olygu ‘rhai awchus’ neu ‘rai angerddol’, er y gellid hefyd ffurf l. *eiddig*, y gŵr eiddigeddus y gwneir cymaint sylw ohono gan y Cywyddwyr, ac a ddefnyddir yn aml gan Ddafydd ap Gwilym am ŵr Morfudd, gw. R. Bromwich yn *A Guide to Welsh Literature*, ii, gol. A.O.H. Jarman a G.R. Hughes (Swansea, 1979), 132 a GDG³ 294 (111.14), 528. Trewir nodyn y *fabliaux* cyfandirol yma, sef y storïau serch a leolir yn aml mewn deildy yn y goedwig, ac yng nghyd-destun delfrydol y dyffryn hardd a ddisgrifir yma byddai eiddigedd diarhebol gŵr y gariadferch yn angau iddo.

6 **gowelwon** Llsgr. *gwelwon*. Er mwyn cynnal hyd y ll. diwygiwyd yn *gowelwon* yn golygu ‘tra golau’ nad oes tystiolaeth i’r ffurf yn y farddoniaeth. Ar *go-*, gw. CT 29 d.g. *gohoyw*.

7 **gwengaer** Cf., e.e., GLIF 6.80 *Gwenglaer uch gwengaer yt ym daerhabd* (Hywel ab Owain Gwynedd); GDG³ 424 (II.5) *Pensaer y wengaer wingerdd*; IGE² 305 (ll. 30) *Gwengaer o lathrfur gwyngalch* (Rhys Goch Eryri) ac ar yr arfer gyffredin o wyngalchu tai, gw. I.C. Peate, *The Welsh House: A Study in Folk Culture* (Liverpool, 1944), 29. Y mae *caer* yn fotiff cyffredin yn y canu serch, gw. ‘Caer rhag Cenfigen’, GDG³ 370 (cerdd 140).

tirion Cyfosodir *Môn* (ll. 27), *meillion* (ll. 18) a *tirion* (fel e. neu fel a. yn golygu ‘mwyn’) mewn sawl man, gw. GCBM i, 3.138n.

dolydd Ar *-n dd-* yn caledu yn *-n d-*, gw. Treigladau 26–7.

8 **glwyswydd** Llsgr. *glwys*; diwygiwyd er mwyn hyd y ll., er mwyn y gynghanedd, ac er mwyn cyfiawnhau’r ffurf l. *gleision*.

9–10 Y mae’r llau. hyn sillaf yn fyr ac yn llau. tair acen, ond go brin y ceir yma ddwy l. o gyhydedd fer, gw. J. Morris-Jones: CD 334.

9 **pebyll** Ffurf un. oedd *pebyll* yn wreiddiol (ll. *pebylleu*), gw. CLIH 88 a GPC 2662–3, a cf. R 1365.28 *hi avu yn bebyll y hen babo* (Yr Ustus Llwyd). Cyfosodir *pebyll(eu)* a *pall(eu)* yn PKM 34 (ll. 4) a GCBM i, 16.134.

11 **pall** Ar *pall* yn golygu ‘mantell’ yn y farddoniaeth, gw. GCBM i, 5.22 *Gordaŵc pall euraŵc ...*, *ib.* 16.134 *Y bebyll, y byll, y ball coch*. Ar gyfodod *pebyll(eu)* a *pall(eu)*, gw. y nodyn uchod.

i’r deon Am y syniad fod pencerdd yn teithio gyda gosgordd o rai dan ei awdurdod ac yn rhoi tâl neu roddion i’r disgyblion hynny, gw. D. Jenkins, ‘Pencerdd a Bardd Teilu’, YB xiv (1988), 37. Eithr cf. defnydd Bleddyn Ddu o’r gair *deon*, GBDd 4.3 *Preswylwr daear deon blannawd*, sef preswylwyr y ddaear wedi cwmp Adda ac Efa, gw. *ib.n.* Ar yr un patrwm gallai olygu yma ‘cyd-ddaeorion’.

- 12 **rhyw** Fe'i deellir yn rh. ansoddeiriol yn golygu 'rhyw, cyfryw', gw. GMW 90, er y gellid ohono yr ystyr 'arferol', gw. GBF 4.26n. Arno'n odli ag *eurlliw* dan ddylanwad *dri*, gw. J. Morris-Jones: CD 248–9.

rhwyllwaith daenion Llsgr. *rallwaith deinon* neu o bosibl *rullwaith deinon*. Gthg. T. Gwynn Jones, *l.c.*, sy'n awgrymu diwygio'r ll. yn *o du rhiw eurlliw iarllwaith deinon*. Deellir *deinon* y llsgr. yn e.ll. yn golygu 'haenau'. Rhestrir *rwyllweith* yn G 651 d.g. *gweith*¹ a chyplysir yr enghraifft hon o'r gair â'r ddwy enghraifft a drafodir yn GCBM i, 13.41n er yr ymddengys mai sôn am gerddi disglair y bardd a wneir yno. Os deellir *rhwyl* i olygu 'llys, plas', gw. GBF 26.25 *Rwyl Carrecoua!* (Llygad Gŵr) a GDG³ 599, yna gellid yr ystyr 'llyswaith', term o glod am wneuthuriad y pafiliwn.

- 13 **pefrddyn** Am hoffter y bardd o lunio cyfansoddeiriau yn cynnwys *pefr* yn golygu 'hardd, teg', gw. llau. 13, 14, 17.

gelyn gŵyl atebion Gellid hefyd aralleirio 'gelyn gwylaidd [ei] hatebion' neu 'gelyn [i] atebion gwylaidd'.

- 15 **porffor** Fe'i deellir yma gyda grym enwol i olygu 'dillad porffor', sef arwydd o statws brenhinol, gw. CA 233, GCBM i, 16.144n a GPC 2852. 'Merch borffor ei gwisg' oedd cariadferch Gwalchmai, gw. GMB 9.64 *Gbeilgig porfor*, yn ogystal â Hywel ab Owain Gwynedd, gw. GLIF 8.2 *Hirwenn yn y llenn lliβ ehoec*.

rhagor Am yr ystyr 'rhagoriaeth', gw. GCBM ii, 2.50 *beirt am ragor*, *ib.* 12.11 *Rybytei ueu ueith ragor*.

anrhegion—urddas Ar y cyfuniad *anrec*, / *Anrydet*, gw. GCBM i, 11.25–6. Dywed Cynddelw Brydydd Mawr yn yr englyn hwn mai'r anrhegion anrhydeddus a roddir gan arweinydd brenhinol i filwyr ffyrnig yw aur, hebog a chorn yfed, ac mewn man arall (GCBM ii, 4.118) 'gwartheg gwerthfawr' yw'r anrheg anrhydeddus. Yma, y gwisgoedd porffor, ynghyd â'u harwyddocâd, yw'r rhoddion.

- 16 **arwyddion** Llsgr. *arwddion*. Gellid deall yma 'argoelion' neu 'wedigaethau' ar lun rhagfynegiad, neu freuddwyd, ond deellir yma gyfeiriad at faneri ar dyrau'r gaer, cf. PKM 30 (llau. 2–3) *Arwydon tec, guedus, arwreid o bali oed arnunt* (am longau Matholwch).

- 18 **lloer gwyngnawd lliw blawd** Llsgr. *lloer gwngynawd blawd*. Dilyniir awgrym T. Gwynn Jones, *art.cit.* 142, ynglŷn â'r diwygiad er mwyn cysoni hyd y ll. Yn nhraddodiad delfrydu'r ferch, defnyddir *lloer* yn drosiadol am ferch nodedig am ei harddwch, gw. GPC 2198. Yr oedd cnawd gwelw yn arwydd o warineb, a chnawd tywyll yn arwydd o dlodi, cf. GLIBH 4.159 *llu gwelw difas* gan Ddafydd ap Gwilym am drigolion Seisnig Caerfyrddin.

- meillion** Arwydd o ffrwythlonedd a llawnder yw meillion, yng nghyd-destun tir (GLIF 26.96 *Hyfaes y meillyon* (Gwynfardd Brycheiniog)) ac yng nghyd-destun dynoliaeth; y mae hefyd, fel yma, yn cynrychioli cariad angerddol a gwylaidd at fodau daearol ac ysbrydol, gw. Ad de Vries, *Dictionary of Symbols and Imagery* (London, 1974), 103. Trewir yr un nodyn yn y disgrifiad o Olwen, gw. CO 18 (llau. 496–8) *Y sawl a’ e gwelei kyflawn uydei o’ e serch. Pedeir meillonon gwynnyon a dyuei yn y hol myn yd elhei*. Ar y cyfuniad *tirion, Môn, meillion*, gw. ll. 7n d.g. *tirion*.
- 19 **tâl** Deallir yma dalcen y ferch, sef rhan yn dynodi’r cyfan.
- aeron—ystwyll** Dethlir Gŵyl yr Ystwyll ar 6 Ionawr i goffâu ymddangosiad Crist i’r Doethion a ddaeth o’r Dwyrain. Yr ergyd yma yw fod pryd a gwedd y ferch yn hardd a siriol fel lliw aeron ar yr Ystwyll, sef yn nhrymder gaeaf, cf. DGG² 66 (XL.50) *Aeron rhyllon y rhewloer*.
- 20 **Prifdeg gannwyll pwyll pellenigion** Llsgr. *kanwyllbwyll*. Dilynr awgrym T. Gwynn Jones, *l.c.*, i ddarllen *pwyll*, a deallir yma frawddeg enwol yn chwarae ar ddwy ddihareb ‘Gorau cannwyll, pwyll i ddyn’ a ‘Gorau cannwyll, goleuni pwyll’, gw. W. Hay, *Diarhebbion Cymru* (Lerpwl, 1956), 109. Cf. GGDT 10.11 *Teg a gannwyll pwyll pell ynad—i ddyn* (Trahaearn Brydydd Mawr). Ar y diffyg treigladd meddal i *cannwyll* yn y llsgr., gw. Treigladdau 25–6. Y bardd a’i gwmni yw’r teithwyr o bell, a rhoi cyngor iddo’i hun a wna i bwylllo wrth ymwneud â merch ddieithr. Posibilrwydd arall yw mai dau ymadrodd yn disgrifio’r ferch sydd yma, sef *Prifdeg gannwyll* ‘[y] disgleirdeb harddaf’, a *pwyll pellenigion* ‘doethineb [y] rhai sy’n dod o bell’.
- 21 **uwch gloyw naw llaw** Gwrthodir awgrym T. Gwynn Jones, *l.c.*, i ddiwygio yn *uwch gloynneu lleu* a fyddai’n gwneud y ll. yn rhy hir.
- naw** Arfer gyffredin gan y beirdd oedd cynnwys rhifau arwyddocaol yn eu cerddi, yn fwyaf arbennig *tri, pum, saith, a naw*. ‘Cyflawnder’ yw arwyddocâd *naw*, gw. M.E. Owen, ‘Y Trioedd Arbennig’, B xxiv (1970–2), 444, 449–50, ac fe’i defnyddir, e.e., i gyfeirio at y *nab torof* sef y naw llu o angylion y nefoedd (gw. GCBM ii, 16.58n) ac i gyfeirio at y nawyr teilwng (gw. Dafydd Ifans, ‘Nawwyr Teilwng Plas Bodwrda’, Cylchg LIGC xviii (1973–4), 181–6) y cân Dafydd Nanmor amdanynt yn y 15g., gw. DN 70 (XXIV.7–8) *Un dyn yw a dyn dan iau, / Un gweryl â’r naw gorau*.
- llaw** Yma deallir *llaw* i olygu ‘awdurdod, ... gwarchodaeth’, gw. GPC 2104, a cf. T 18 (llau. 4–5) *o vynað hyt lydað yn eu llað yt vyd*; GCBM i, 3.154 *llað barch y berchenn*.
- 23 **ymladd** Fe’i deallir yma yn e., cf. GMB 27.82 *Gwedy llid ymlid yn ymlateu* (Einion ap Gwalchmai). Gthg. T. Gwynn Jones, *l.c.*, sy’n cynnig dau ddiwygiad, *i’ m lladd* ac *ym mhlaid*.

- 24 **eurnadd, gradd** Ysgrifennwyd *evrnaf* i ddechrau ac yna ei gywiro yn *evrnadd*. Gthg. T. Gwynn Jones, *l.c.*, sy'n cynnig darllen *eurnaid graid* pe diwygid *ymladd* y ll. flaenorol yn *ym mhlaid*, gw. y nodyn blaenorol.
- ffion** Trosiad cyfarwydd gan y beirdd a'r rhyddieithwyr am ruddiau merch, cf. uchod 6.106 a gw. DGG² 166 (LXXXVIII.69) *Dyred ffion ei deurudd* (Llywelyn Goch ap Meurig Hen) a'r disgrifiad o Olwen yn CO 18 (ll. 496) *Oed kochach y deu rud no'r fion*. Eithr nis cyfyngid i ruddiau merch: coch oedd gruddiau arwr o filwr hefyd, gw. y disgrifiad o Owain ap Gruffudd, GBF 22.3 *Debr Ewein, deurutliw fion* (Hywel Foel).
- 25 **canon** E. yn golygu 'dysg' yma, cf. GLILI 4.11 *o'r Trioeth treit canon*. Gan fod dysg yn nodwedd ar foneddigeiddrwydd yr oedd yn rhan o'r fformwla i ddisgrifio merched yn ddoeth a dysgedig, gw. GP 16 (ll. 16) *Gwreicda a uolir o doethineb*. Erbyn y 14g. yr oedd moli merched am eu dysg hefyd yn adlewyrchu eu pwysigrwydd cynyddol ym mywyd y llys, gw. A. Matonis, 'Traditions of panegyric in Welsh poetry: the heroic and the chivalric', *Speculum*, liii (1976), 667–87.
- 26 **Am ddannedd gwanwedd, gwynion** Llsgr. ... *gwangwedd* ...; diwygiwyd er mwyn y gynghanedd. Y mae'r ll. hon ddwy sillaf yn brin fel y saif. Os bwriadwyd yr ail odl ar y bumed sillaf fel sy'n arferol, yna dylid lleoli'r ddwy sillaf goll rhwng *gwangwedd* a *gwynion*. Gellid yma *gwan-* yn a. yn golygu 'mân' neu 'eiddil', neu'n e. yn golygu 'brathiad', ond dannedd tyner o gwmpas lleferydd tyner yw'r delfryd barddol a dilynir hynny yma. Ail ystyr y gellid, o bosibl, ei hychwanegu yma yw'r un a fabwysiadwyd yn GLIF 26.24 *diwyl y deint* (Gwynfardd Brycheiniog) ac a aralleiriwyd 'haerllug ei harferion' gan ddilyn J. Vendryes, 'Irlandais *dét*, m. gallois *deint* "manières, dispositions, tempérament, caractère"', RC xlvi (1929), 252–4.
- 27 **Môn** Awgryma'r ll. gyswllt agos rhwng Gruffudd ap Tudur Goch a gwŷr bonheddig Môn. Tybed ai merch benodol o'r ynys honno oedd gwrthrych ei serch, ai merch o Arfon, ai merch o'i ddychymyg? Y mae'n ddiddorol fod cysylltiad rhwng gwrthrych serch gorhoffedd Gwalchmai a'r ynys (gw. GMB 9.13), er bod y bardd ei hun ymhell o'i gynefin. Ar y cyfuniad *tirion, Môn, meillion*, gw. ll. 7n d.g. *tirion*.
- 30 **gwawdudd** Awgryma T. Gwynn Jones, *l.c.*, ddiwygio yn *gweddeidd rhieineidd* er mwyn y gynghanedd. Gellid hefyd ddiwygio yn *gwawdrydd*, gyda'r ystyr 'rhugl ei chanu' neu 'hael ei moliant'.
- Rhiannon** Un o brif gymeriadau'r gainc gyntaf a'r drydedd o'r Mabinogi. Cysylltir hi â'r dduwies Geltaidd Rigantona, y frenhines-dduwies, a hefyd ag Epona, duwies y ceffylau, a cheir atgof o hynny yng ngheinciau'r Mabinogi. Yr oedd gan Riannon, yn ôl CO 24 (llau. 632–3), dri aderyn, *y rei a duhun y marw ac a hun a byw*, a mynnai Ysbaddaden Bencawr hwy i'w ddiddanu yn neithior Olwen. Gwefreidd-

iwyd gwŷr Bendigeidfran â'u cân hefyd, gw. PKM 46 (ll. 15) *ac oc a glywssynt o gerd, diuwyn oed pob un iwrthi hi*. Gw. ymhellach W.J. Gruffudd, *Rhiannon* (Caerdydd, 1953) a cf. uchod 2.15 lle y cyfeirir ati fel rhoddwraig hael.

- 31 **hirion**,—**a'i gwynnedd** Gthg. awgrym T. Gwynn Jones, *l.c.*, *hirion ewinedd*. Dilynir yma G 747 (er nad yw'n crybwyll yr enghraifft hon) a deall yr ystyr 'gwynder' a fyddai'n gyson â rhediad y disgrifiadau o welwder cnawd y ferch, cf. DGG² 138 (LXXV.65) *Cwys o wynnedd Caswennan*. Yr oedd y darlun o ewinedd hirion yn anghydnaws â'r darlun o'r ferch brydferth, cf. y darlun o'r *henwrach* yn 'Araith Wgon', AP 9 (llau. 1–4) *a thair modvedd o hyd ymhob ewin i grafu dy gefn, a dynnai dynniad o gnwch dy wegil, i rygnedd dy din oni vai y giau ar gwythau gyda phob bys*; yn hytrach ewinedd byr, crwn oedd y delfryd, gw. 'Breuddwyd Gruffydd ap Adda ap Dafydd' yn *ib.* 21 (llau. 1–2) *a dwylo hir wynion, abysedd hirveinion, ac ywinedd krynion*.
- 32 Nid oes cynghanedd gyflawn yn y ll. hon ond y mae'n ffurfio cyng-hanedd sain â'r gair cyrch.
- bunedd** *Hapax legomenon*. Fe'i deellir yn ffurf l. *bun* er na nodir ll. yn G 83 na GPC 348. Neu a ellid yma e. haniaethol yn golygu 'tiriondeb, delicacy'?
- 33 Y mae'r ll. hon sillaf yn fyr fel y saif; awgryma T. Gwynn Jones, *l.c.*, ddarllen *Ac am gaer ... a byddai hynny yn cynnal y cymeriad a geir* (er nad yn gwbl gyson) o l. 5 ymlaen.
- caer** Gw. uchod ll. 7n.
- chwaer** Am *chwaer* yn golygu 'cariadferch', gw. GLIF 6.65 *Lleucu glaer, uy chwaer, yn chwerthin* (Hywel ab Owain Gwynedd); GDG³ 473, 573.
- cur** Gthg. darlleniad T. Gwynn Jones, *l.c.*, *gof*.
- 34 **Rhif y sŷr o wŷr yn ymryson** Yn y llsgr. cywirwyd y ll. hon yn *rrif y syrr o wyrr yn ymrysson*, ond y mae'r darlleniad gwreiddiol yn aneglur, gthg. T. Gwynn Jones, *l.c.* Cyflea *rhif y sŷr* helaethrwydd mawr; am adleisiau cyfatebol yng ngwaith Beirdd y Tywysogion, gw., e.e., GLIF 25.17 *Seithwyr ser gyfnifer* (Gwynfardd Brycheiniog); GCBM i, 16.192 *dyrann rad rif ser!*; GDB 3.8 *Dev kymeint rif seithrif ser!* (Einion Wan); GBF 11.5 *Gwyr rif syr yssyt yn y gad* (Y Prydydd Bychan).
- ymryson** Gellid yma yr ystyr 'brwydro', ond ystyrier hefyd yr ystyr 'ymryson [mewn twrnameint]'.
- 36 **hygad** Llsgr. *y gad*. Dilynir yma awgrym T. Gwynn Jones, *art.cit.* 143, i ddarllen *hygad* er mwyn yr ystyr, a chan fod bannod yn anghyffredin.
- 37 **deffroais** Llsgr. *ddyffrois*. Oni ddiwygir yn *deffroais* gyda T. Gwynn Jones, *l.c.*, collir yr odl fewnol â *trais* ac y mae'r ll. sillaf yn fyr.

- 38 **Cynog** O bosibl Cynog Sant, mab hynaf Brychan Brycheiniog o Banadlwedd (gw. EWGT 15), a ddaeth yn frenin yn Iwerddon ac a roddodd y gorau i'r frenhiniaeth i fynd yn sant; ymhellach, gw. LBS ii, 264–71 a TWS 178–84. Ond, at ei gilydd, fe gysylltir Cynog â rhannau o Frycheiniog megis Merthyr Cynog, a hefyd â Llansteffan, Llawhaden a Llangynog, gw. LWS 151n, 174n, 204 ac y mae'n anodd gweld beth yw arwyddocâd y cyfeiriad hwn ato yng nghyd-destun Môn ac Arfon, nac yng nghyd-destun carwriaeth.

neu Llsgr. *ne*. Sylwer yma ar un o nifer o ffurfiau llafar a geir yn y gerdd.

Cynon Enwir Cynon fab Clydno Eidin droeon yn 'Y Gododdin' fel arwr ac awgryma I. Williams mai'r unig un i oroesi profiad Catraeth ydoedd ef, gw. CA lviii. Enwir Cynon yn y Trioedd fel un o 'Dri Serchog Ynys Prydain': [*Cynon*] *mab Klydno (am Forwyd ferch Uryen)*, gw. TYP² 189, 323–4 a thystir i'w gariad at Forfudd hefyd yn y testun 'Breuddwyd Llywelyn Goch ap Meurig Hen', gw. AP 65. Yr oedd Morfudd ferch Urien Rheged (a enwir isod llau. 39–40) a Chynon fab Clydno Eidin yn gyfoeswyr yn ail hanner y 6g. Cofier hefyd mai ei stori ef a ysbrydolodd Owain i fynd ar drywydd y dyffryn, y gaer, a'r ferch hardd yn chwedl 'Iarlles y Ffynnon', gw. *Owein*, ed. R.L. Thomson (Dublin, 1975), 2 (llau. 35–41). Ymhellach ar Gynon, gw. AH 151–64.

- 39 **Morfudd** Llsgr. *wrydd*. Gellid yma yr a. *gwrwydd* yn golygu 'yn parhau'n hir, hirhoedlog, maith', gw. G 708, eithr dilynir awgrym T. Gwynn Jones, *l.c.*, i ddarllen *Morfudd*. Hi oedd merch Urien Rheged, gw. isod ll. 40.

hyludd Llsgr. *hylwydd*. Derbynnir awgrym T. Gwynn Jones, *l.c.*, sy'n cynnig darllen *hyludd* er mwyn y gynghanedd.

- 40 **Urien Rheged** Brenin Rheged yn yr Hen Ogledd, gw. TYP² 516–20.

meirch anrhegion Ar rodd o feirch (ynghyd â gwisgoedd), gw. GBF 53.23–4 *O'e wreiscbeirch maeth fraeth frwythlaðn / A'e wiscoet y'm dotoet dabn* (Bleddyn Fardd).

- 42 **goludog glodrydd** Cf. R 1039.33 *vryen geiryabc glotryd*. Ymhellach, gw. CT 40.

a rydd roddion Llsgr. *arryd rroddion*. Gellid deall yma frawddeg enwol, *a rhydd rhoddion*, gyda *rhydd* yn a., a dyna ail gynnig T. Gwynn Jones, *l.c.*

- 43 Y mae'r ll. fel y saif sillaf yn fyr ac awgryma T. Gwynn Jones, *l.c.*, ddarllen *fal Rhahawd* yn lle *parrawd*. Yr oedd Rhahawd yn un o 'Dri Oferfeirdd Ynys Prydain', gw. TYP² 21, 497–8.

- 44 **arawd Aron** Llsgr. *arwy aron*. Dilynwyd awgrym T. Gwynn Jones, *l.c.*, i ddiwygio yn *arawd* er mwyn y gynghanedd a'i ddeall i olygu

‘ymadrodd’, gw. GPC 177. Aron oedd brawd Moses yn yr Hen Destament, gŵr a gymeradwyir gan Dduw am ei ddawn llefaru, gw. Exodus iv.14 *mi a wn y medr efe lefaru yn groyw*, a chan fod Moses yn dafotglwm, Aron oedd yn llefaru ar ei ran, yn union fel y gwna yma ar ran y bardd. Sylwer ar y nodyn, TYP² 273, mai Aron gydag -o- fer yw’r Aron Beiblaidd a lle y’i ceir yn ffurf ar *Arawn*, ffurf ddiweddar ydyw.

- 45 **Goluddlu ... ceinion** Awgryma T. Gwynn Jones, *l.c.*, y darlleniad *gofuddehw* gan fod y ll. ddwy sillaf yn fyr yn y llsg., ond ni roddai hynny y nifer disgwylidig o sillafau i’r ll., a byddai’n amharu ar y cymeriad. Awgrymir yn betrus ddiwygio yn *Goluddlu Cynddelw cynnelw ceinion*, cf. GGD^T 8.14 *Da arddelw cynnelw Cynddelw ceinddawn* (Gwilym Ddu o Arfon).

Cynddelw Cynddelw Brydydd Mawr, y pwysicaf a’r mwyaf cynhyrchiol o holl Feirdd y Tywysogion. Y tebyg yw fod Cynddelw yn cael ei gyfarch yma yn benodol fel awdur ‘Rhieingerdd Efa ferch Madog ap Maredudd’, gw. y Rhagymadrodd i GCBM i, xxxii. Sylwer hefyd mai Efa oedd enw gwraig Gruffudd ap Tudur Goch, gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Cilmin’ 4.

ceinion Sylwer mai ‘diod anrhydeddus’ yw ei ystyr yn ddieithriad yng nghanu Cynddelw Brydydd Mawr, gw. GCBM i, 3.234 a GCBM ii, 6.141, 238.

- 46 Â’r ll., cf. GCBM i, 21.187 *As gwtant yn dysc yn disgyblon!*
 47 **Llywarch** Llywarch ap Llywelyn ‘Prydydd y Moch’, ymhlith y mwyaf o feirdd llys y Tywysogion, gw. GLILl xxi–xxxviii a CLC 380.

Daron Afon Daron ym Mhen Llŷn, gw. ELISG 97, ond gellid cyplysu’r enw â *Daronwy* ym Môn, gw. TYP² 325–6. Y mae’r epithet *llif Ddaron* am Lywarch ap Llywelyn yn un tra diddorol. Ai atgof am gysylltiad Prydydd y Moch â Phen Llŷn sydd yma, ai ‘trosiad hwylus am lifeiriant ei ysbrydoliaeth’ (gw. GLILl xxvi)?

cant Llsg. *kanet*. Er mwyn yr odl â *Gwenlliant* yn y ll. nesaf, dilynir yma awgrym T. Gwynn Jones, *l.c.*, ynglŷn â diwygio.

- 48 Cyfeirir yma at gerdd Llywarch ap Llywelyn ‘Mawl Gwenllian ferch Hywel o Wynllŵg’, gw. GLILl cerdd 14. Ynddi, geilw’r bardd ar i’w farch, y llatai serch, fynd ag ef i ymweld â Gwenllian yng Ngwynllŵg, cantref yng Ngwent. Yr oedd hi’n or-nith i Rodri a Dafydd ab Owain Gwynedd, dau o noddwyr pwysig Llywarch ap Llywelyn.

- 50 **gwyddau** Tybed a yw cyplysu *gwyddau* a *llygaid* yn awgrymu’r englynion hynny yn LIDC sy’n adrodd chwedl ddigrif am ŵydd yn tynnu llygad Wallog? Gw. LIDC lxiii, 70 a AH 309–11. Yr oedd gweld gwyddau ar lyn yn y nos yn arwydd drwg, ac fe’u cysylltid â gwrachod, gw. A. Ross, *Pagan Celtic Britain* (Llundain, 1967), 343.

- cylchau ceilchion** Llsgr. *kylchiav kelchion*. Derbynnir awgrym T. Gwynn Jones, *l.c.*, ynglŷn â diwygio *kelchion*, gan ddeall gydag ef mai ffurf l. ar yr a. *calch* yw *ceilchion* ar lun *balch/beilchion*.
- 51 **gwyniaid** Llsgr. *gwniaid*. Gthg. awgrym T. Gwynn Jones, *l.c.*, i ddiwygio yn *gweiniaid*. Deellir yn hytrach y ffurf l. ar yr eg. *gwyniad* ‘gleisiad ifanc’, gw. GPC 1776, gan gofio bod eog yn frenin ar fyd y pysgod.
- 52 **cywaint** Fe’i deellir yn amrywiad ar *cywain*, gthg. T. Gwynn Jones, *l.c.*
- 53 **gwnaethoedd** Llsgr. *naihodd*. Gw. WG 361 am y ffurf 3 un.grb.myn.
- 54 **hun ... hoen** Ar gyfod y ddau air, gw. GLIL 23.184 *Ny cheif hoen na hun ar amrant* a CLIH 109–10.
- 55 **ewyn llyn, llanw afon** Cf. â ll. 4 uchod. Cyfeirir yma at y llanw a thrai yn aber yr afon ac y mae’n drosiad hwylus i’r bardd am natur ansefydlog serchiadau gwrthrych ei serch. Ar y llaw arall, gellid cymryd *llanw* i olygu ‘llif’, gw. GPC 2096, a’i gyplysu â *llif Ddaron* ll. 47.
- ynial** Gellid hefyd *ynial* yn golygu ‘gwyich’, gw. IGE² 425.
- 57–8 **Daniel ... Broffwyd** Awgryma T. Gwynn Jones, *art.cit.* 144, fod yma gyfeiriad at *Interpretationes seu Somnia Danielis prophete ...* a argraffwyd droeon ar y Cyfandir yn y 15g. ac y ceir cyfieithiad Cymraeg ohono mewn nifer o lawysgrifau megis Llst 27 ff. 153^v–156^v c. 1400, Pen 26, 73–81 c. 1456, Card 2.83, 21–4 c. 1550, a Pen 172, 253–65 c. 1558. Cyhoeddwyd testun Llst 27C yn Max Förster, ‘Das älteste kymrische Traumbuch’, ZCP xiii (1919–21), 55–92. Testun Lladin Canol o ddeongliadau Daniel, un o arwyr yr Hen Destament, yw hwn, gw. *id.*, ‘Beiträge zur mittelalterlichen Volkskunde V’, *Archiv*, cxxvii (1911), 31–84 a Curt F. Bühler, ‘Two Middle English Texts of the *Somnia Danielis*’, *Anglia*, lxxx (1962), 264–73. Yr oedd Daniel yn ddehonglwr breuddwydion yn llys brenin Babilon yn ystod y gaethglud. Er nad yw’r Iddewon yn ei gyfrif ymhlith y proffwydi am iddo fyw bywyd gŵr llys, cyfeirir ato gan y Crist fel proffwyd, gw. Math xxiv.15, a chafodd fagwraeth y Caldeaid a oedd yn enwog am eu dawn fel gweledyddion a dewinwyr, gw. Thomas Charles, *Geiriadur Ysgrythyrol* (Wrecsam, 1892), 139.
- 57 **syw** Am yr ystyr ‘gwyich, rhagorol’, gw. GDG³ 601, ac am yr ystyr ‘sywedydd, gweledydd’, gw. GLIL 4.14. Ar *syw* yn golygu ‘doeth’, gw. CA 131 *mab Sywno*.
- dyniol** A allai hwn sefyll am *doniol* yn golygu ‘dawnus’?
- 58 **addysgion** *Hapax legomenon* a ddeellir i olygu ‘rhai sydd â dysg ganddynt’.
- 59 **dehongliad** Llsgr. *ddyhongwld* neu o bosibl *ddyhungwld*; diwygiwyd er mwyn y gynghanedd a’r ystyr. Cyplysir enw Daniel ag enw Gwydion

fab Dôn, y dewin pwerus a gafodd yr addysg orau, gw. ‘Cadair Ceridwen’ (T 36 (ll. 5)) *kan bu ida6 disgoreu*; ymhellach arno, gw. uchod ll. 2. Adleisir yma gyfeiriad at Dduw yn ll. 64 yn ddehonglwr breuddwydion y diwair, ac ar Dduw yn Weledydd, gw. GBF 40.56 y *Dewin doethaf* (Gruffudd ab yr Ynad Coch). Ar y syniad fod gan y bardd ei hunan bwerau goruwchnaturiol ‘oblegid ei fod ar un adeg yn swynwr, yn weledydd ac yn broffwyd’, gw. B. Owen Huws, ‘Rhai o swyddogaethau Beirdd yr Uchelwyr’, Traeth (1995), 228.

gwlad Gwydion Â Gwynedd y cysylltir Gwydion fab Dôn. Eryri, fe ymddengys, yw [g]wlat *wytyon*, gw. T 68 (llau. 11–12) ac ar yr esboniad ‘country between Gwrvei and the Llyvni’, gw. *ib.* 117. Am ddehongliad ehangach ar wlad Gwydion, gw. TYP² 402, ac ar Wydion fab Dôn, gw. *ib.* 400–2, y nodyn uchod, ac uchod ll. 2n. Cadwyd y ffurf *Gwydion* yn ddidreigladd fel y’i ceir yn y llsgr. er mwyn y gynghanedd, ond cf. ll. 2.

- 60 **ni medrai** Ar y diffyg treigladd meddal i *b-* a *m-* yn dilyn y negydd *ni*, gw. WG 423, Treigladdau 355–6 a GMW 61–2. Eithr ceir nifer o enghreifftiau o *ni* + *m-* ac o *ni* + ffurf dreigledig, yn dibynnu ar anghenion y gynghanedd, gw. GLIBH 4.62n.

Modron Derbynnir awgrym T. Gwynn Jones, *l.c.*, mai cyfeiriad at Fodron, mam Mabon, sydd yma gan fod ‘Englynion y Beddau’ yn lleoli bedd Mabon yn Nantlle, Gwynedd (gw. PKM 291), a’i bod yn bosibl fod chwedl wedi tyfu fod y dduwies Modron ac Urien Rheged yn gariadon (gw. ll. 40), ac mai Owain ab Urien oedd ffrwyth yr uniad, gw. TYP² 460. Ar Fodron ferch Afallach, gw. *ib.* 458–63, ac ar ddiplaniad Mabon yn dair noswaith oed oddi wrth ei fam, gw. CO 26 (llau. 685–7), 33 (llau. 921–8); yr ergyd yma yw na wyddai Modron ddim oll o hanes ei mab, *na pheth yw, ai byw ae marw*.

- 62 **mydr** Am yr ystyr ‘barddoniaeth’, cf. GP 46 (llau. 10, 12) *Mydyr neu brydyat yw kyuansodyat ymadrodyon perfeith kyuyawn ... ar gerd dauawd ganmoledic*.

canon Gw. uchod ll. 25n.

- 64 **gwerydd gwirion** Am y cyfuniad hwn, lle y deallir *gwerydd* i olygu ‘sant’, cf. GMB 31.12 *Gberydon gbiryon* (Meilyr ap Gwalchmai).

Mynegai

- addoed** 5n
addug 2n
addysg 46n
addysgydd: addysgion 58n
aeron ystwyll 19n
afon 4, 55n
anrheg: anrhegion 15n, 40n
arawd 44n
arfeddyd 49
arial 19
arwydd: arwyddion 16n
blawd 18n
bryd 49
bun 17; *ll.* **bunedd** 32n
caer 7n, 33n
cain: ceinion 45n
calch: ceilchion 50n
cannwyll 20n
canon 25n, 62n
canu: cant 47n
cenau: cynafon 35
clodrydd 42n
cof: cofion 17
cur 33n
cychwyn 3
cyfun 17
cylch: cylchau 50n
cynnelw 45n
cyson 9
cywaint 52n
chwaer 33n
dant: dannedd 26n
deffro: deffroais 37n
dehongliad 59n
deon 11n
disgybl: disgyblion 46
dôl: dolydd 7n
dwysol 29
dyall 11
dyffrynt 3n
dyn 28
dyniol 57n
dysg 46
eiddig: eiddigion 5n
eithr 54
euradd 24n
ewyn 4, 55n
ffion 24n
ffriw 4n
ffrwd: ffrydiau 6
gâl: galon 23, 41
gallu: gallai 59n
geilig 22
glwyswydd 8n
gofeiliaint 52n
golawddu: golawddaf 43
goleubarch 47
goleugerdd 44
goludog 42n
goluddlu 45n
golwg 2
golyma 46
gowelw: gowelwon 6n
gradd 24n
gwanwedd 26n
gwawdudd 30n
gwengaer 7n
gwerydd 64n
gwirion 64n
gwlad Gwydion 59n
gwneuthur: gwnaethoedd 53n
gŵr: gwŷr 34n
gwyn: gwynion 26n
gwyngnawd 18n
gwyniad: gwyniaid 51n
gwynnedd 31n

- hawl: holion** 39
hir: hirion 31n
hoed 2
hoen 54n
hud 2n
hun 54n (gw. hefyd **trwy fy hun**)
hwyrwedd 31
hygad 36n
hyludd 39n
llaeswen 14
llanw 55n
llaw 21n
llawch 3n
llinon 33
lliw 18n
lloer 18n
lluchynt 3n
llyn 4, 55n
mal 30, 32, 50
manon 28
march: meirch 40n
mawr 16
mawrdwrf 35
medru: medrai 60n
meillion 18n
meinir 28
morwyn: morynion gw. **pobl**
forynion
mydr 62n
mynyglir 28
naf 61
naw 21n
neu 38n
ni 60n
no 60
oddis 8
oed 2n
- pabir** 10
pall 11n
pebyll 9n
pefrddyn 13n
pefrlen 14
pefrlun 17
pell 59
pellennig: pellenigion 20n
penadur 62
plafawr 16
pobl forynion 10
porffor 15n
prid 19
prif 4n, 7, 8
prifdeg 20n
prifdir 6
prifgoed 5
pwyll 20n
rhagor 15n
rhif 34n
rhodd: rhoddion 42n
rhoddi: rhydd 42n
rhwyllwaith 12n
rhyw 12n
sŷr 34n
syw 57n
taenion 12n
taer 7
tâl 19n
tirion 7n
trwy fy hun 1n
urddas 15n
ymladd 23
ymryson 34n
ynial 55n
ystwyll 19n

Enwau personau

- Aron** 44n
Cynddelw [Brydydd Mawr] 45n
Cynog [Sant] 38n
Cynon [fab Clydno Eidin] 38n
Daniel ... / Broffwyd 57–8n
Duw 56
Gwenlliant [ferch Hywel o
 Wynllwŷg] 48n
Gwyddion [fab Dôn] 2n
Gwydion [fab Dôn] 59n
Llywarch [ap Llywelyn,
 ‘Prydydd y Moch’] 47n
Modron [ferch Afallach] 60n
Morfudd ... / Merch Urien
Rheged 39–40n
Rhiannon 30n
Rhôn 1n
Rhun [ap Nwython] 1n
Urien Rheged 40n

Enwau lleoedd

- Caerllion** 48
Daron [Afon] Daron 47n
Môn 27n

GWAITH ITHEL DDU

golygwyd gan

ERWAIN HAF RHEINALLT

Rhagymadrodd

‘Cywydd y Celffaint’ yw’r unig gerdd o waith Ithel Ddu sydd wedi goroesi,¹ ac ni cheir ynddi unrhyw wybodaeth fywgraffyddol am y bardd. Fodd bynnag canodd Iolo Goch ffugfarwnad i Ithel a chyfeiriodd ato hefyd mewn dwy gerdd ddychan, y naill i Herstin Hogl a’r llall i’r Gwyddelyn.² Ar sail llinell gyntaf y farwnad, *Dihir i fro Feilir frych*, tyfodd y gred mai brodor o Fôn ydoedd Ithel,³ ond dadleuodd yr Athro Dafydd Johnston mai at Wynedd yn gyffredinol y cyfeiriai [b]ro *Feilir* a dangosodd fod sail i gredu mai gŵr o Lŷn ydoedd Ithel mewn gwirionedd.⁴ Ategir ei ddadl gan ddisgrifiad Thomas Wiliems ohono yn llawysgrif Peniarth 94, 242, fel *Ithel dhu o Lelyn*.

Ceir cyfeiriad posibl at Ithel gan Rys Goch Eryri yn ei farwnad i Lywelyn ab y Moel. Yno sonnir am y beirdd a genfydd Llywelyn ym mharadwys, gan gysylltu enw Ithel yn sicr â chywyddwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg:⁵

Ac yno’n ddioganair,
Ym mysg archangylion Mair,
Y gwyl Ddafydd ap Gwilym,
A Madog Benfras, gras grym;
A Gruffudd Gryg, diblyg daith,
Deilwng o waed y dalaith;
Rhys uchod, loywglood liwglaer,
Fab Dafydd Llwyd, ysgwyd aer,
A fu yn, gofwy annerch,
Bob amser drysorser serch;
A Iolo wych athro hael,
Gyweithas, a gwiw Ithael.

¹ Ceir golygiadau o’r gerdd gan H. Lewis, ‘Cywydd gan Ithel Ddu’, B iii (1925–7), 123–5, Bl B XIV 147–9, 188, a chydä chyfieithiad Ffr. gan E. Bachellery yn ‘Deux poèmes gallois du xiv^e siècle’, *Études* v (1950–1), 129–47.

² Gw. GIG 98–100 (cerdd XXIII), *ib.* 161 (XXXVI.1), *ib.* 167 (XXXVII.42).

³ Cf. BL Add 14866, 530 *Ithel ddy y Bardd o fôn a gladdwyd yn Enlli* (llawysgrif David Johns, diwedd y 16g.).

⁴ Gw. GIG 314 a cf. *ib.* 98 (llau. 19–20), *Deryw’r gerdd, aeth yn dir gwydd / Uwch yr Eifl—och o’r aflwydd!*, ac eto *ib.* 99 (llau. 43–4) *Pwy oedd orau, doniau dyn, / Darlleawdr ar dir Llëyn?*, *ib.* 161 (XXXVI.3–6) *Athro’r gerdd y’th roir ar gant, / Etholwalch beirdd y’th alwant, / A thra da wyd, ni thry dyn, / A theuluwr iaith Lëyn*, a hefyd *ib.* 167 (XXXVII.39–42).

⁵ IGE² 325 (llau. 23–34).

Diddorol hefyd yw'r ffaith i Ddafydd ab Edmwnd gymharu'r cae bedw a dderbyniodd gan ei gariad ag un Ithel:⁶

kae ir yw hwnn kari hael
kyweithas val kae ithael.

Y mae'r cwpled hwn yn awgrymu i Ithel Ddu yntau dderbyn cae gan ei gariad ac iddo ganu cerdd iddi i ddiolch amdano; ysywaeth, fel y gweddill o'i waith, y mae wedi diflannu.

O'r cyfeiriadau hyn gallwn amcanu'n fras ynglŷn â natur cynnyrch Ithel. Yn ogystal â 'Chwydd y Celffaint' dichon iddo fod yn canu cerddi serch ac yn ymrysona'n frwd â chylch o feirdd eraill hefyd, gan gynnwys Iolo Goch. Ceir lled-awgrym o hynny yn agoriad dychan Iolo Goch i Herstin Hogl, gan ei bod yn ymddangos mai ar gais Ithel y canodd Iolo'r cywydd hwnnw:⁷

Ithel Ddu i'th alw ydd wyf,
Athrodwr beirdd uthr ydwyf ...
Erchaist i feirdd orchest fawr,
Arch afraid cyn eiry Chwefrawr,
Goffáu y gïau ffiaidd,
Gythwraig, ymddanheddwraig haidd,
Hersdin Hogl a'r arogl oer.

Awgrymir yn gryf hefyd yn y cyfeiriadau at Ithel yng ngwaith Iolo Goch fod y ddau fardd yn gyfoeswyr ac yn gyfeillion. Gellir bwrw'n fras i Ithel fod yn canu yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg. Diweddar braidd yw'r dyddiad '1400' a roddir ar ddiwedd testun LIGC 3050D o'r gerdd isod.

Perthyn i'r cywydd hwn arddull sydd yn nodweddiadol o gywyddau naratif dychanol neu *fabliaux*. Y mae'n llawn sangiadau sy'n ymyrryd â rhediad y naratif, yn ogystal ag araith union ddramatig, a gellir cymharu'r arddull ag eiddo 'Trafferth mewn Tafarn' Dafydd ap Gwilym.⁸ Dichon mai ysbryd tebyg a ysgogodd y gerdd hon sydd ag awyrgylch ffugfawreddog yn ei chylch. Y mae'r ddau ŵr ifanc ar gyrch anrhydeddus er mwyn profi eu dewrder i'r *deg orau merch* ond erbyn y diwedd daw'r ddau yn destun gwawd oherwydd, er gwaethaf eu parodrwydd i ymosod, y maent yn canfod nad byddin o wŷr arfog sydd yno yn barod i dderbyn eu her, ond boncyffion hen goed crin. Dwyseir yr elfen ddychanol drwy gyfrwng nifer o ddarluniau a defnydd y bardd o dechneg dyfalu. Y mae'r coed yn cael eu portreadu fel delwau, swynwyr, llestri sy'n simneiau i'r mell, allmyn, elyllon, cychod gwenyn, hwyliau melinau gwynt ofer a chefnau hen sachau yn sychu. Y

⁶ Kowydd o waith Dafydd ap Edmwnd i ddiolch am gae bedw a roesai Kari mwyn iddo yn arwydd', DE 10 (VI.13–14).

⁷ GIG 161 (XXXVI.1–2, 7–11).

⁸ GDG³ 327–9 (cerdd 124).

mae'r gostyngiad hwn o'r cywair ffugarwrol yn llinellau 1–34 i'r olygfa hunllefus a ddilyn yn drawiadol. Tybed nad oes cysgod o feirniadaeth neu foeswers ynghudd yn y cywydd hwn?

Cywydd y celffaint

- Mal yr oeddwn, gwyddwn gur,
 Ym min naint mewn anantur,
 Nwy' a'm gwnaeth mabolaeth bas,
 4 Neithwyr, mi ac annoethwas,
 Y gwelwn gerllaw gwaelawd
 Un o'r naint, oer iawn ei nawd,
 (Rhaid fydd ymgroesi rhag rhus)
 8 Rhyw eilun gwŷr rheolus;
 A chelu y llu llawngas
 O'r gŵr rhag brawychu'r gwas.
- 'Aro', heb y gwas, 'orig',
 12 Wrthyf, hyn a dyf pob dig,
 'Edrych fy meistr lledneistro,
 Er dy frys o'r deau fro,
 Lle mae is y coetgae ceirch
 16 Godremydd gwŷr ar drimeirch.
 Mul iawn, Ithel, dy helynt,
 Myn y Grog! Gwŷr arfog ŷnt.
 Mogel, da iawn y magud,
 20 Mwy o serch y feinferch fud.'
- 'Taw, druan, merf anian mil
 Lladd un onaddun', eiddil!
 24 Minnau, da gwn ymannerch
 Er ei mwyn, deg orau merch,
 A laddaf yn oleuddawn
 Ddau neu dri yn ddinidr iawn.'
- Cyrchu'n gytûn, ddeuddyn dda,
 28 Yn union a wnawn yna;
 Aruthr fu hyn o eryl
 Yn eu plith a chwith fu'r chwyl;
 Cof ar hawl cyfryw helynt,
 32 Cyfeirio heibio ar hynt.
 A phan ddoethom, loywloem lun,
 I'r tyddyn oer at eiddun,

- 36 Oer oedd ynn, yr oedd yno
 (Gan wynt drwg ni sefynt dro,
 Deufwy'r nos, difawr i ni)
 Drallod oer, drylliau deri.
 Rhai'n eu gorwedd, hagrwedd hyll,
 40 Rhin syfudr, rhai'n eu sefyll,
 Heb frig na dail na'i eilun,
 Na gwisg o risg am yr un,
 Na gallel, dan gornel gau,
 44 Onaddyn' fyth ddefnyddiau;
 Canmlwydd oedden' hwy'n henflawr,
 Crin goed yn oes Crona Gawr,
 Culion o ddelwau celiath,
 48 Celffaint meirw o henaint maith.
 Coeges eu ffrwyth ceugas ffriw,
 Cyffion hudolion diliw;
 Canwyr a ddaw drwy'r cawnwellt,
 52 Ceubrennau ffumerau mellit;
 Methlwyd eu twf drwy'r meithlawr,
 Mynych gwelwon, moelion, mawr;
 Allmyn ynt oll mewn nentydd,
 56 Ellyllon, gweddillion gwýdd;
 Llestri cacwn, llu astrwch
 Yn llawn ystluniaid a llwch.
 Coeg iawn y'm gwnân', ddidan ddydd,
 60 Ceubrenni caeau bronnydd;
 Braen o goed breinig ydynt,
 Breichiau gwag felinau gwynt;
 Gwael iawn o lwyth, gwelwn lu
 64 Gwarrau hen sachau'n sychu;
 Briw nawtwf wystn braen natur,
 Bwyail y cyfaill a'i cur.
 Bychan y cwynai Mai mwyn,
 68 Irfedw ail, er f'adolwyn
 Eu bod yng nghanawl, hawl hoed,
 Cefn gweilgi, cafneu gwaelgoed.

Ffynonellau

A—Bangor 13512, 238 B—BL Add 14969, 155^r C—BL Add 31056, f 187^r
 D—LIGC 834B, 251 E—LIGC 3050D [= Mos 147], 1 F¹—LIGC 17114B,
 317 F²—LIGC 17114B, 539 G—Pen 77, 441 H—Pen 78, 135 I—Pen 99,
 117 J—Pen 104, 242

Amrywiadau

1 C fel, G—J fal; A roeddwn doe; AF¹F² gwn gvr. 2 I [Ym]; EJ nant; AF¹F² y
 mewn antvr. 3 ACEG—J mwy; A ym, F¹F² im. 4 F¹ [ac]. 5 GH yno i gwelwn,
 I yno y gwelwn, CJ yno gwelwn; CGHI or gwaylawd, J mewn gwavlawd. 7
 GHJ rhaid iawn, CI Rhaid i ni. 8 CI elyn; C gwr. 9 CGHI a chelvr llv, F¹F²
 achelv llv; GH yn llawn kas, CI yn llawn gas. 10 AH or gwyr; H brawchwyr;
 F¹F² brywychv or gwas, J brawchvr gwas. 11 C aro ebr y, J araf ebro r
 gwas. 12 CGIJ a dyn. 13 G edrych veistr a, H edrych feisdir, J edwrch feistr
 er. 14 AB ir deav, C ar deav, I ar gwrr dy. 15 HJ llei mac; CG—J vwch y; A
 [y]. 16 F¹F² godrvmvdd; H drimyrch. 18 C rrag ofn y gwyr arfog gynt. 20 C
 y ferch fvd. 21 A marf, CG—J myrdd, F² meff. 22 A lladd yn a nadd yn; I a
 naddyn. 23 HJ da i gwn. 25 BGH ladda; C e laddav fvn; H vn. 26 J dri
 ddinedr; H ddinedr. 27 AB deyddyn dâ, F¹F² dyddyn da. 28 ABF¹F² yn vn
 air; CI a wnen, GJ a wnaen. 29 G ðn hynn; J hvn o herwyl, CH hyn oeuryl.
 30 CI plith chwith a fv r, A a chwith fy, H i blith. 31 AB rhôf ar haul; F² ar
 havl kyrw. 33 B []i ffann; E¹J ffen; CG—J ddoethon; A loewlam [*neu*
 loewlain], C liw son, G—J loewon. 34 AF² [I'r]; A Tuddynt oedd ynt, B
 []tyddynt; G—J tyddvn fry; G yn oll; B at a evddyn, G at deuddvn. 35 C
 eyn, A ym, J vn. 36 ABF¹F² y sevynt. 37 C dv fyrr y nos, G devfwyn y nos,
 I Dv fyrr yn os, J devfwrn yn nos; CGI deifr i ni, J deifr ini, H difyr i ni. 38
 C drallod oedd; C dryllid deri, AGJ dryllio deri, H dryllio r deri. 39 ABC
 rhain gorwedd, F¹F² Rai yn gorwedd, J rhai yn i gorwedd. 40 A syfyd, C sy
 fyrr, GHI syfurn, J syfwrn; B rrai yn sefyll, C rrai i sefyll, A oll rhai'n
 sefyll, F¹F²IJ rhai yn i sefyll. 41 ABF² nac eilvn, J nai avlvn. 43 AB brig
 vchel gav, F¹F² heb ochel gav. 44 CG—J yn vwyn eiddiav. 45 CGHI can
 mlynedd oedd hwy; A hwy'n unawr, BEF¹F² yn vn awr; I henlawr, H haf
 cawr; J kenfledd henflawr. 46 ABEF² kronic awr, F¹ kronc awr, H kroyna
 gawr. 47 C kelwaith. 49 A o ffrwÿth, B a ffrwyth, EF¹F² i ffrwyth. 50 F²
 kyffron. 51 C a dry, G a dyf, HI a dy, J a dvf; C cron wellt. 52 F¹CI
 cwerylav, GHJ kwryglau; C ffermyllav, F¹ ffuinerav, G ffumellau, HI ffwrn
 ellav, J fformellav. 53 EF¹F² methwyd; I y twf; H nithlawr. 54 CG—J
 mynych gwion. 55 A ellmyn, CI a llwm, EF¹F² allmwnt, G Allmwyn, HJ
 allmwn; F¹ neintydd. 56 H or gwydd. 57 A Llestri y cacwn; CI llvestrwh, J
 lvastrwh (*siec ai Llestri sydd yn J*). 58 CIJ llawn o; H ys dylymiaid llwch.
 59 EF¹F² ar ddiddan ddydd, A ddi addan ddydd. 61 BF¹ breinic, CI breiniog.
 63 GJ iawn lid y gwelwn; HI o lid; C o lid gwenlv; BDEF¹F² iawn lwyth
 gwelwn o lv. 65 EF¹F²A briw wystyn nowtto; BDEF¹F² nowto, GH nowtv;

C estyn, *HIJ* westvn, *G* westn; *ABDEF¹F²* brav natvr. 67 *F¹* kwynai r mai, *DEF²* kwynai y mai; *C* mae mwyn. 68 *C* er fyw dail, *GIJ* irfyw dail; *G* ar vadolwyn. 69 *DF²* A bod, *BCEF¹F²HIJ* i bod; *C* hawlcoed. 70 *ADEF¹F²* gwelwgoed, *B* gwelwg[].

Teitl

A dychan ir celffaint ney hên gebr eynod, *B* Darn o Gywydd, *CI* kowydd y kelffaint, *F¹* k y kelffaint, *F²* y kelffaint, *J* ceir rhagymadrodd byr ond y mae ymyl y ddalen ar goll—...ma th/..f ai was/.. garv/..owyll ag/...nt hen/...t yn rhith/...rfog.

Priodoliad

C Ithel ddv; *D–HJ* Ithel ddu ai k/kant.

Trefn y llinellau

B [1–10], 11–70.

CG–J 1–2, 5–6, 3–4, 9–30, [31–2], 33–4, 7–8, 35–46, [47–50], 55–6, 51–2, 57–8, [59–60], 53–4, 63–4, 61–2, 65–70.

D [1–62], 63–70.

E [1–44], 45–70.

F¹ 1–2, 5–6, 3–4, 7–46, 51–2, 47–8, 53–62, 49–50, 63–70, 49–50, 63–70.

Cywydd y celffaint

- Fel yr oeddwn, cyfarwydd oeddwn â gofid,
 Ar gwr hafnau mewn sefyllfa anffodus,
 Parodd ieuencid ffôl angerdd ynof,
 4 Neithiwr, mi a gwas ifanc ffôl,
 Fe welwn yn ymyl gwaelod
 Un o'r hafnau, yn hynod o annymunol ei natur,
 (Bydd yn rhaid ymgroesi rhag naid o ddychryn)
 8 Ryw rith o ryfelwyr trefnus;
 A chuddio y llu chwerw iawn
 A wnaeth y gŵr rhag i'r gwas arswydo.
- 'Aros am ennyd', meddai'r gwas
 12 Wrthyf, y mae hyn yn cynyddu pob digofaint,
 'Edrych fy meistr hynaws,
 Er gwaethaf dy frys o'r ardal ddeheuol,
 Lle y mae is y coetgae ceirch
 16 Ffurf gwŷr ar dri o feirch.
 Diniwed iawn yw dy ymddygiad, Ithel,
 Myn y Grog! Milwyr arfog ydynt.
 Gochel, yn dda iawn y meithrinit [ef, i.e. y serch],
 20 Ragor o serch y ferch fain dawl.'
- 'Taw, [yr] un truan, llesg natur mil
 Yw lladd un ohonynt, [yr] un egwan!
 Minnau, gwn yn dda sut i gyfarch
 24 Er ei mwyn, y ferch orau deg,
 A laddaf yn ddisglair [fy] nawn
 Ddau neu dri yn rhwydd iawn.'
- Cyrchu'n gytûn, [yn] ddau ddyn da,
 28 Yn ddi-oed a wnawn wedyn;
 Bu'r helfa hon yn aruthrol
 Yn eu plith a bu'r canlyniadau'n anffodus;
 [A'r] bryd ar geisio'r fath antur,
 32 Cyrchu heibio ar hynt.
 A phan ddaethom, darlun clir a moel,
 I'r tyddyn oer at [ein] dymuniad,
 Trist oedd hi arnom ni, yr oedd yno
 36 (Oherwydd gwynt creulon ni safent [ond am] ysбайд,
 Yr oedd y nos ddwywaith yn ddwysach [ac] yn hir i ni)
 Orthrymder anhyfryd, [sef] darnau drylliedig o dderi.

[Yr oedd] rhai yn eu gorwedd, yn erchyll [a] garw eu gwedd,
 40 [Â] chynneddf fudr, [yr oedd] rhai yn eu sefyll,
 Heb frigau na dail na dim tebyg iddo,
 Na gorchudd o risgl am yr un [ohonynt],
 Na bod posibilrwydd, dan ongl wag,
 44 [I dynnu] defnyddiau [crai] ohonynt fyth;
 Canmlwydd oeddynt hwy'n hen a llwyd,
 Coed brau a sych yn oes Crona Gawr,
 Ffurfiau culion mud,
 48 Celffaint meirw o henaint maith.
 Twyllodd eu ffrwyth [sydd â] golwg rhwth a chas [arno],
 Boneyffion [sy'n] dwyllwyr gwelw;
 Plaen a ddaw drwy'r corsennau gwellt,
 52 Ceubrennau, simneiau[r] meltt;
 Llesteiwyd eu tyfiant drwy'r ddaear helaeth,
 Y rhai gwelwon niferus, moelion, mawr;
 Estroniaid ydynt oll mewn hafnau,
 56 Drychiolaethau, gweddillion coed;
 Cychod gwenyn, llu truenus
 Yn llawn ystlumod a llwch.
 Yn ddirmygus iawn y parant imi fod, ar ddydd difyr,
 60 Ceubrennau caeau'r bronnydd;
 Coed pydredig [a] brau ydynt,
 Hwyliau melinau gwynt ofer;
 Llwyth hynod o wael, gwelwn lu [o]
 64 Gefnau hen sachau yn sychu;
 Cyff pwdr o aml dyfiant briw pydredig ei ansawdd,
 Bwyail y cyfaill sy'n ei guro.
 Ychydig y cwynai'r Mai tyner,
 68 Plethiad o fedw ir, er fy nghrefu
 Eu bod yng nghanol, y mae hyn yn hawlio tristwch,
 Cefn y môr tonnog, cafnau o goed salw.

Nodiadau

- 2 **naint** Ar *nant* yn golygu ‘dyffryn, hafn’, &c., gw. GPC 2551.
anantur Ni nodir y ffurf yn G 32, a dyma’r unig enghraifft o’r gair a roddir yn GPC 108.
- 6 **oer iawn ei nawd** Cymerir mai sangiad yw hwn yn goleddfu *eilun*, ll. 8. Gellid hefyd ei gymryd yn ymadrodd ansoddeiriol yn goleddfu *Un o’r naint*.
n.r.n yn ateb *r.n.n*.
- 8 **gwŷr rheolus** Deellir *gwŷr* yma i olygu ‘rhyfelwyr, milwyr’ a’r a. *rheolus* yn awgrymu eu bod yn ymddwyn yn unffurf neu wedi eu harfogi’n drefnus, gan ddilyn E. Bachellery, ‘Deux poèmes gallois du xive siècle’, *Études* v (1950–1), 145 ‘*des guerriers armés selon les règles, bien équipés*’.
- 13 **lledneistro** Dilynir GPC 2135 sy’n rhestru’r ffurf fel unig enghraifft o’r a. yn golygu ‘hynaws’, a’i ddeall yn goleddfu *meistr*. Cymerir ll. 15, *Lle mae is y coetgae ceirch* ..., yn wrthrych y f. orchmynnol *Edrych*; gthg. E. Bachellery, *art.cit.* 142, sy’n ei ddeall yn e. ‘*allure aimable*’ ac yn wrthrych i *Edrych*.
- 15 **is** Y mae’r llawysgrifau yn cynnig dau ddarlleniad posibl yma sef *is* neu *uwch*, ac y mae’r darlleniad a ddewisir yn dibynnu ar leoliad y *meistr* a’i was ar y naill law, a’r *gwŷr arfog* ar y llall. Credir mai’r dehongliad mwyaf rhesymegol yw fod y *meistr* a’i was yn edrych i lawr o ymyl un o’r hafnau (*Ym min naint*, ll. 2) ac yn gweld y llu arfog ar y gwaelod (llau. 4–6, 8, *Neithwyr ... / Y gwelwn gerllaw gwaelawd / Un o’r naint ... / Rhyw eilun gwŷr rheolus*; ac eto ll. 55 *allmyn ... mewn nentydd*). Dyma hefyd y dehongliad a fabwysiedir gan E. Bachellery, *art.cit.* 142. Ond o dderbyn y darlleniad amrywiol *o’r gwaelawd* yn ll. 5, gellid cymryd bod y *meistr* a’i was i lawr yn un o’r hafnau ac yn edrych i fyny ar y *gwŷr arfog uwch y coetgae ceirch*.
- 19–20 **Mogel ... / ... feinferch fud** Gwrthodir dehongliad E. Bachellery o’r cwpled hwn, *art.cit.* 143, lle y rhoddir *Mwy o serch y feinferch fud* yn wrthrych i’r f. *magud*. Cymerir *Mwy o serch y feinferch fud* yn hytrach yn wrthrych *Mogel*, gan ddeall *da iawn y magud* yn sangiad, yn gyfieiriad at serch y bardd at y ferch yn y gorffennol.

- 27 **deuddyn dda** O dderbyn y darlleniad *dyddyn da* a geir yn llawysgrifau E¹ ac E², gellid aralleirio, ‘Cyrchu’n gytûn i dyddyn da’, ond gthg. ll. 34 *tyddyn oer*.
- 28 **a wnawn** Deellir *gwnawn* yn f. 1 ll.pres.myn. gyda’r amser pres. yn cael ei defnyddio i greu awyrgylch ddramatig wrth adrodd hanes; byddai’n bosibl hefyd ddeall bf. 1 un.amhff.myn., ond nid hawdd fyddai cysoni hynny â’r goddrych *deuddyn dda* yn ll. 27.
- 31 **cof ar hawl** Deellir *hawl* yma’n eb. yn golygu ‘cais’ neu hyd yn oed ‘ymgais’, gw. G 768 a cf. E. Bachellery *art.cit.* 143, 145.
- 34 **tyddyn oer** Fel E. Bachellery, *art.cit.* 143, derbynnir y darlleniad *oer* er y dylid nodi bod y darlleniad *fry* mewn rhai llawysgrifau hefyd.
- 43 **gallel** Ffurf amrywiol ar y be. *gallu*, gw. GPC 1377.
- 44 **Onaddyn’ fyth ddefnyddiau** Gyda’r ystyr a gyfleir yma, cf. y cyfuniad *coed defnydd* = ‘*timber*’, GPC 528. Gwrthodir felly’r darlleniad *yn fwyn eiddiau* a geir mewn llawysgrifau eraill a allai olygu ‘yn gyfoeth o eiddew’ neu ‘yn [orchuddiedig gan] eiddew teg’.
- 45 **Canmlwydd ... henflawr** Y mae amrywiol ddarlleniadau’r llawysgrifau ar gyfer y ll. hon yn awgrymu ansicrwydd. Er mwyn yr ystyr a’r gynghanedd, derbynnir y diwygiad a gynigir yn Bl B XIV 149. Byddai *hwy’n unawr* a geir yn llsg. A yn rhoi ystyr dderbyniol hefyd, ond *henflawr* bid sicr yw’r darlleniad anodd, ac y mae darlleniadau’r rhan fwyaf o’r llawysgrifau eraill o’i blaid (er nad ydynt wedi ei atgynhyrchu’n union).
- 46 **Crin goed ... Crona Gawr** Ll. anodd eto oherwydd yr amryfal ddarlleniadau. Ceir *awr* yn rhai o’r llawysgrifau a chyfeiria E. Bachellery at yr enw priod Awr ab Ieuf ap Cuhelyn ap Tudur ap Rhys Sais, un o gyndadau teulu Trefor, Powys Fadog—gw. GGI² 324—ond pur annhebygol yw’r posibilrwydd hwn. Cymerir, gyda D. Johnston yn Bl B XIV 149, 188 mai cyfeiriad ydyw at y ffigur mytholegol Cronus a oedd mewn cyflwr o gwsg parhaol. Ai dweud a wneir bod y coed hyn yn hen hyd yn oed yn oes Crona Gawr?
- 47 **celiaith** Derbynnir y darlleniad hwn gyda E. Bachellery, *art.cit.* 141, 144 a D. Johnston, *op.cit.* 149; eithr yn wahanol i E. Bachellery sy’n ei ddehongli fel ‘*langage secret*’, cymerir ei fod yn golygu ‘mud’ yma. Byddai *celwaith* ‘o wneuthuriad dirgel’, a geir yn nifer o’r llawysgrifau, yn rhoi ystyr addas hefyd.
- 52 **ceubrennau** Derbynnir y darlleniad hwn gydag E. Bachellery, *art.cit.* 141, er nad amhosibl fyddai darllen *cwryglau* (un. *cwrogl* = ‘cwrwgl; llestr’, &c., gw. G 167, GPC 567) a geir mewn llawysgrifau eraill.
- ffumerau** Ar *ffumer* ‘simnai’, &c., gw. GPC 1324. Ymddengys mai ffurf amrywiol yw *ffumellau* a geir mewn rhai llawysgrifau, gw. G 513.

Cymerir mai trosiad sydd yma, yn cyfeirio at yr hen foncyffion gwag fel simneiau sy'n cludo'r mell.

- 55 **allmyn** Ar *allmyn* yn golygu 'estroniaid', gw. G 20; o dderbyn darlleniad llsgr. A *ellmyn* (G 471 'estroniaid, saeson'), ceid o bosibl well cymeriad llythrennol.
- 57 **llestri cacwn** Arferid y gair *llestr* am 'gwch gwenyn' neu 'gychaid o wenyn', gw. GPC 2159.
llu astrwch Derbynnir cynnig petrus GPC 222 sy'n nodi hon fel yr unig enghraifft o'r gair *astrwch* fel ansoddair yn golygu *truenus*.
- 61 **breinig** Ffurf yn cynnwys yr a. *braen* a'r terfyniad *-ig*, sef a. yn golygu 'wedi braenu, pydredig, brau' (gw. GPC 317).
- 65 **briw nawtwf wystn** Deellir *gwystn* yn eg. yma yn golygu 'cyff pwdr', gw. GPC 1790. Dehonglir y ffurf *nawtwf* yn gyfansoddair yn golygu 'o aml dyfiant' yn hytrach nag 'a chanddo naw cangen' yn llythrennol.
- 67 **bychan** Fe'i deellir yn adferfol yma.
f'adolwyn Gw. G 9 a GPC 25 d.g. *adolygaf*¹: *adolwyn* am yr ystyr 'erchi' neu 'grefu'.
- 69 **hawl** Gellid ei ddeall yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *hawlio*, neu'n e.

Mynegai

- adolwyn** 68n
allmon: allmyn 55n
anantur 2n
annoethwas 4
ar hawl 31n
aros: aro 11
astrwch 57n
braen 61, 65
breinig 61n
briw 65n
bwyall: bwyail 66
bychan 67n
cacwn 57n
canmlwydd 45n
canŵyr 51
cawnwellt 51
celffaint 48
celiaith 47n
ceubren: ceubrennau 52n
ceugas 49
coed 46n
coegi: coeges 49
coetgae 15
cof 31n
crin 46n
crog 18
cyfeirio 32
chwyl 30
da 27n
defnydd: defnyddiau 44n
deri 38
deuddyn 27n
deufwy 37
diddan 59
difawr 37
dinidr 26
dryll: drylliau 38
eiddun 34
eilun 41
eryl 29
ffriw 49
ffumer: ffumerau 52n
gallel 43n
gloywlom 33
godremydd 16
goleuddawn 25
gwar: gwarrau 64
gwneud: gwnawn 28n
gŵr: gwŷr 8n
gwystn 65n
hagrwedd 39
hawl 31n, 69n (gw. hefyd **ar hawl**)
henflawr 45n
irfyw 68
is 15n
llawngas 9
lledneistro 13n
llestri cacwn 57n
llu 57n
mabolaeth 3
magu: magud 19
meinferch 20n
meithlawr 53
merf 21
methlu: methlwyd 53
mil 21
mogel 19n
mud 20n
mul 17
myn y Grog! 18
nant: naint 2n
nawd 6n
nawtwf 65n

neithwyr 4
nwy' 3
o: onaddyn' 44n
oer 6n, 34n
rheolus 8n
rhisg 42
rhus 7

syfudr 40
trimeirch 16
tyddyn 34
tyfu: tyf 12
ymannerch 23
ymgroesi 7
ystlum: ystlumiad 58

Enwau personau

Crona Gawr 46n

Ithel 17

Llawysgrifau

Cynnwys nifer o'r llawysgrifau a restrir waith sawl copiwr. Ceisir dyddio'r rhannau hynny y mae gwaith beirdd y gyfrol hon yn digwydd ynddynt yn unig. Yr ydym yn ddyledus i Mr Daniel Huws am unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth na chrybwyllir yn y ffynonellau printiedig a nodir.

Llawysgrifau yng nghasgliad Prifysgol Cymru, Bangor

Bangor 13512: llaw anh., hanner cyntaf y 18g., gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection' 13473–16978 (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor).

Bangor (Mos) 3; llaw anh., diwedd yr 16g.: gw. E. Gwynne Jones and A. Giles Jones, 'A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collection 1–1093' (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor, 1967).

Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain

BL Add 10313: Dafydd Jones o Drefriw, ail hanner y 18g., gw. CAMBM 1836, 29; W. Gerallt Harries, 'Un arall o lawysgrifau Dewi Fardd', B xxvi (1974–6), 161–8.

BL Add 14873 [= RWM 55]: William Morris, 1739, gw. RWM ii, 1156–9; Dafydd Wyn Wiliam, *Cofiant Wiliam Morris (1705–63)* (Llangefni, 1995), 170–1.

BL Add 14964: Owen Jones, gw. CAMBM 1844, 45.

BL Add 14967 [= RWM 23]: llaw anh., 1527–47, gw. RWM ii, 996–1014; CLC 173.

BL Add 14969: Thomas Prys, dechrau'r 17g., gw. CAMBM 1844, 48.

BL Add 14970: Edward Williams 'Iolo Morganwg', 1800–1, gw. *ib.* 48–9.

BL Add 14971 [= RWM 21]: John Davies, Mallwyd, c. 1610–20, gw. RWM ii, 977–86; Rh.F. Roberts, 'Bywyd a gwaith Dr. John Davies, Mallwyd' (M.A., Cymru [Bangor], 1950), 342.

BL Add 14994: Owen Jones a Hugh Maurice yn bennaf, blynyddoedd cynnar y 19g., gw. CAMBM 1844, 58–9.

BL Add 15000: Owen Jones, c. 1775, gw. *ib.* 60–1.

BL Add 15001: John Walters, a. 1792, gw. *ib.* 61–2.

BL Add 31056: llaw anh., canol yr 17g., CAMBM, 1876–81, 154.

Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen

Bodley Welsh e 2: Wiliam Bodwrda, 17g., gw. SCWMBLO vi, 53; D. Ifans, 'Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1600) o Aberdaron' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1974), 450–67.

Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Brog 2: Wmffre Dafis, 1599, gw. 'Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents' 3–5; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LIGC v (1947–8), 234–6.

Llawysgrifau yn Llyfrgell Sir De Morgannwg, Caerdydd

Card 2.623 [= Hafod 13]: Iaco ab Dewi, ar ôl 1690, gw. *ib.* 314–18; Garfield H. Hughes, *Iaco ab Dewi 1648–1722* (Caerdydd, 1953), 35.

Card 4.140: Edward Davies, 1792; gw. G. Thomas & D. Huws, 'Summary of the Manuscripts ... commonly referred to as the "Cardiff MSS"' (Aberystwyth, 1994), 332.

Card 5.167: cylch Richard Longford, c. 1565, gw. BaTh 303, 311–12.

Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

CM 14: Lewis Morris, 1726, RWM ii, 903–8.

Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen

J 140 [= RWM 15]: llaw anh., chwarter cyntaf yr 17g., gw. *ib.* 57–64; ymhellach ar y llaw, gw. E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', gw. Cylchg LIGC vi (1949–50), 223.

J 101 [= RWM 17]: llaw anh., c. 1630, gw. *ib.* 68–86.

J 111, 'Llyfr Coch Hergest' [= RWM 1]: Hywel Fychan a 'llaw Peniarth 32', c. 1400, gw. RWM ii, 1–29; G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LIGC xxi (1979–80), 246–56.

Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

LIGC 18B: David Ellis, 1794, ac Owen Williams 'Owain Gwyrfaï', *ob.* 1874, gw. NLWCM 50–62.

LIGC 834B: un o gopiŵyr Dr John Davies, Mallwyd, c. 1610–1620, gw. *ib.* 64.

LIGC 1591D: Angharad Llwyd, 19g., gw. *ib.* 136.

- LIGC 1982B [= Pant 13]:** Evan Evans 'Ieuan Fardd', RWM ii, 816–18.
- LIGC 1983B [= Pant 14]:** Evan Evans 'Ieuan Fardd', ail hanner y 18g., gw. *ib.* 822–3.
- LIGC 1984B [= Pant 15]:** Evan Evans 'Ieuan Fardd', 1757, gw. RWM ii, 823–4.
- LIGC 2002C [= Pant 33]:** Evan Evans 'Ieuan Fardd', c. 1760, gw. *ib.* 841–2.
- LIGC 3050D [= Mos 147]:** Edward Kyffin, c. 1577, gw. *ib.* i, 180–96.
- LIGC 3051D [= Mos 148]:** llaw anh., cyn 1594, gw. *ib.* 196–212.
- LIGC 4973B:** John Davies, Mallwyd, c. 1631, gw. HMNLW ii, 59.
- LIGC 6209E:** Williams Jones, cynorthwywr Edward Lhuyd, c. 1700, gw. *ib.* 158–9; G.H. Hughes, *op.cit.* 32–3.
- LIGC 6681B:** John Jones, Gellilyfdy, hanner cyntaf yr 17g., gw. RWM ii, 204–5.
- LIGC 8497B:** Thomas Wiliems, c. 1570–90, gw. *ib.* iii, 54.
- LIGC 17114B [= Gwysanau 25]:** llaw anh., c. 1560, gw. H.D. Emanuel, 'The Gwysaney Manuscripts', Cylchg LIGC vii (1952), 339; 'Catalogue of the Gwysaney Mss' (teipysgrif dyddiedig 1953, yn Llyfrgell Genedlaethol Aberystwyth), 31–45; E. Bachellery, *Études* v (1950–1), 116–18, GO 21–2 (er iddo gamsynied am y dyddiad), a BaTh 306.
- LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1]:** Evan Evans 'Ieuan Fardd', 18g., gw. Rh.F. Roberts, 'A List of Manuscripts from the Collection of Iolo Morganwg ...' (cyfrol anghyhoeddedig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Llawysgrifau yng nghasgliad Llanstephan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- Llst 122:** Wiliam Bodwrda, c. 1648, gw. RWM ii, 609–20; D. Ifans, 'Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1974), 384–98.
- Llst 133:** Samuel Williams, yn gynnar yn y 18g., gw. RWM ii, 664–94; G.H. Hughes, *op.cit.* 37–40.
- Llst 145:** Samuel Williams, yn gynnar yn y 18g., gw. RWM ii, 721–5; G.H. Hughes, *op.cit.* 22, 53.
- Llst 147:** David Parry, c. 1700, gw. RWM ii, 726; GP xv.

Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- Pen 77:** llaw gynnar Thomas Wiliems, c. 1570–90, gw. RWM i, 509–18.

- Pen 78:** llawiau amrywiol: llaw a, 1573, a llaw d cyn c. 1584, gw. *ib.* 518–21.
- Pen 82:** Huw Arwystl, c. 1540–80, gw. *ib.* 531–9.
- Pen 96:** Lewis Dwnn, 1565–1616, gw. *ib.* 592–603.
- Pen 99:** cylch John Davies, Mallwyd, gw. *ib.* 613–24.
- Pen 104:** llaw anh., rhwng 1624 a 1651, gw. *ib.* 644–51.
- Pen 112:** John Jones, Gellilyfdy, cyn 1610, gw. *ib.* 671–86; N. Lloyd, ‘A History of Welsh Scholarship in the first half of the Seventeenth century ...’ (D. Phil., Oxford, 1970), 28–33.
- Pen 118:** Siôn Dafydd Rhys a’i gylch, c. 1600, gw. RWM i, 718–25.
- Pen 126:** llaw anh., dechrau’r 16g., gw. *ib.* 772–4, GP xvi.
- Pen 221:** John Jones, Gellilyfdy, *post* 1620, gw. RWM i, 1045; N. Lloyd, *op.cit.* 26–7; M.T. Burdett-Jones, ‘Trydydd Llyfr Cywyddau John Jones Gellilyfdy’, YB xvi (1990), 127–40.
- Pen 240:** William Wynn o Langynhafal, 1755, gw. RWM i, 1066–7.

Mynegai i'r llinellau cyntaf

	<i>Td.</i>
Anfudd marwgudd, neud mawrgur.....	91
Awst y llas 'y nghastell i	52
Brenin gorllewin, Gŵr a'n llywia.....	39
Cyfrwch cern sybwch corn sebon—Sudas	99
Duw byw a'n rhoes llyw, llên bendefig.....	7
Gwelwn drwy fy hun, nid Rhun, nid Rhôn.....	119
Ierwerth druan ddiowrwas.....	47
Mal yr oeddwn, gwyddwn gur.....	147
Mi a baraf i ddyn araf.....	44
Rhoed llen gudd uwch grudd greddfdras.....	13
Wrth weled cwthr twred cethr	57

Mynegai i'r gwrthrychau

Cerdd

Madog ab Iorwerth o Goedymynydd	1
Gwenhwyfar wraig Hywel ap Tudur ap Gruffudd o Goedan	2, 6
Duw	3
Efa o Feirionnydd.....	4
Einion ap Seisyll o Fathafarn	Atodiad i